

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

61/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/11/2018

Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-422-7

Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Awduron: Alison Glover, Stuart Harries, Jennifer Lane and
Sioned Lewis, Arad Research Ar y cyd â NatCen Social
Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glover, A., Harries, S., Lane, J. a Lewis, S. (2018).
Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 61/2018.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-childcare-offer-wales/?skip=1&lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Davies
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Hannah.Davies018@llyw.cymru

Diolchiadau

Yn bennaf oll, rydym yn diolch i bob un o'r rhieni, darparwyr gofal plant a rhanddeiliaid eraill a gymerodd ran yn yr arolwg a'r cyfweiliadau. Hefyd, hoffai'r awduron ddiolch i'r canlynol:

- Dr David Dallimore (Melyn Consulting) a Bethan Webber (Tide Consultancy) am weithredu fel cynghorwyr arbenigol gydol y cyfnod gwerthuso.
- Eluned Glyn a Mabon ap Gwyn o Arad am gydlynw'r gwaith maes.
- Swyddogion Dadansoddi Polisi Gofal Plant Llywodraeth Cymru, Faye Gracey a Hannah Davies, am eu harweiniad a'u cymorth.

Rydym yn diolch yn arbennig i dimau Awdurdodau Lleol sy'n Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn Gynnar am roi o'u hamser yn hael er mwyn ateb holl gwestiynau'r gwerthuswyr.

Tabl Cynnwys

Rhestr o dablau.....	5
Rhestr o ffigurau	6
Geirfa.....	7
Crynodeb gweithredol	9
1 Cyflwyniad	24
2 Methodoleg.....	43
3 Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru.....	53
4 Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr	69
5 Effaith y Cynnig ar rieni	89
6 Casgliadau.....	121
7 Argymhellion.....	129
Adran Cyfeiriadau	131
Atodiad A: Y Cynnig Gofal Plant wedi ei gymharu	136
Atodiad B: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant i Gymru	140
Atodiad C: Cynnig Gofal Plant i Gymru – ardaloedd peilot.	141
Atodiad D: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad.....	143
Atodiad E: Canllaw ar bynciau ar gyfer darparwyr gofal plant.....	141
Atodiad F: Arolwg ar-lein ar gyfer rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig	152

Rhestr o dablau

Tabl 1.1. Diffiniadau o fathau gwahanol o ofal plant	30
Tabl 1.2. Nifer y darparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig ym mhob EILA, ar sail math o ddarparwr gofal plant (mis Medi 2017 hyd at fis Awst 2018)	40
Tabl 1.3. Nifer yr oriau a archebwyd ac a fynychwyd ar gyfartaledd bob tymor fesul plentyn	41
Tabl 2.1. Cwestiynau ymchwil	44
Tabl 2.2. Trosolwg o fethodoleg	46
Tabl 2.3. Nifer y darparwyr gofal plant a gyfwelwyd ym mhob EILA	48
Tabl 2.4. Cyfraddau ymateb i'r arolwg fesul EILA	50
Tabl 4.1. Crynodeb o ddylanwadau ar ddarparwyr gofal plant	73
Tabl 5.1. Cyfran y rhieni sy'n cyfranogi o fewn pob band cyflog gros blynyddol rhwng Medi 2017 ac Awst 2018	99
Tabl 5.2. Cyfran y gweithiwr sy'n ennill lleiaf ar bob aelwyd ym mhob band cyflog gros blynyddol rhwng Medi 2017 ac Awst 2018	100
Tabl 5.3: Incwm blynyddol aelwydydd ymatebwyr i'r arolwg	113

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1. Datblygiad y Cynnig Gofal Plant i Gymru	35
Ffigur 1.2. Nifer y plant yn manteisio ar y Cynnig a nifer y darparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig ym mhob EILA yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig.	42
Ffigur 3.1. Proses ymgeisio rhieni ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru	66
Ffigur 5.2. Rhesymau pam roedd y broses ymgeisio yn anodd	96

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Cynnig Gofal Plant	30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru – rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
Cymunedau am Waith	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n targedu'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.
CSA	Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant – sy'n cael ei gwblhau bob pum mlynedd gan awdurdodau lleol er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth gofal plant.
Cwlwm	Childcare Wales Learning and Working Mutually – consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru.
Cylch Meithrin	Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin (lluosog: Cylchoedd).
EILA	Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar.
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
Teuluoedd yn Gyntaf	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth i bob teulu sydd angen cymorth waeth beth yw lefel eu hincwm neu ble maen nhw'n byw.
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ar gyfer plant (0-3 oed) a'u teuluoedd.
FIS	Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd – man cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol ar gyfer teuluoedd a gofalwyr; yn darparu gwybodaeth am ofal plant.
Cyfnod Sylfaen	Y cwrwllwm datblygiadol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru.
FPN	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen – o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir ar gyfer plant 3 a 4 oed yn ystod y tymor, gan ddechrau yn y tymor ar ôl i blentyn droi'n 3 oed. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon weithiau fel hawl i addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir.
Darparwr a gynhelir	Meithrinfa a ariennir gan awdurdod lleol; mae'n gallu bod yn ysgol feithrin ar wahân neu'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod.
NDNA	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.
Darparwr nas cynhelir	Lleoliad gofal plant a gynhelir gan ddarparwr gofal plant preifat, gwirfoddol neu annibynnol.
PaCE	Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth; rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n talu am gostau gofal plant tra bod rhieni yn derbyn hyfforddiant, yn cael profiad

	gwaith neu'n gwirfoddoli i ennill y sgiliau sydd eu hangen i gael swydd.
PETC Cymru	Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru.
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Ysgolion.
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig.
Plant sy'n codi'n dair ac yn codi'n bedair	Plant sy'n mynd i droi'n dair oed rywbyrd yn ystod y flwyddyn ysgol (cyfeirir atynt fel FPN1 weithiau). Plant sy'n codi'n bedair yw plant a fydd yn troi'n bedair oed rywbyrd yn ystod y flwyddyn ysgol (FPN2).
Gofal Plant Di-dreth	Bydd Llywodraeth y DU yn talu £2 o bob £8 a delir am ofal plant ar gyfer plant o dan 11 oed, os yw rhieni'n gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar er mwyn profi darpariaeth 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed.

Comisiynwyd cwmni Ymchwil Arad, ynghyd â NatCen Social Research, i werthuso blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno trosolwg o ddulliau a chanfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf.

Y Cynnig Gofal Plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am 48 wythnos y flwyddyn, sy'n cynnwys naw wythnos yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn targedu plant tair a phedair oed y mae eu rhieni'n ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.


Ers mis Medi 2017 mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael yn y saith awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar (EILAs), a oedd yn cynnwys pob un, neu ran o'r awdurdodau lleol canlynol: Ynys Môn a Gwynedd (ar y cyd), Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

Mae canlyniadau tymor byr arfaethedig y Cynnig yn cynnwys:

- Cynyddu dewisiadau cyflogaeth rhieni.
- Cynyddu incwm gwario rhieni.
- Mae rhieni yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth am ddefnyddio gofal plant ffurfiol.
- Mae'r sector gofal plant yn tyfu mewn ymateb i gynnydd yn y galw am ofal plant ffurfiol a'r defnydd ohono.

Methodoleg

Roedd dwy ran i'r gwerthusiad – gwerthusiad o'r broses a gwerthusiad o'r effaith. Defnyddiwyd dulliau cymysg i gwblhau'r gwerthusiad, gan gynnwys sawl elfen ymchwil, sy'n cael eu crynhoi isod.



Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant

Canfyddiadau Allweddol

4,101




o blant wedi manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig

743

o ddarparwyr gofal plant wedi darparu elfen gofal plant y Cynnig

Timau EILA



Mao wedi'i oreu yn Pictiochart

7 awdurdod lleol rhwng Medi 2017 ac Awst 2018.



Roedd **cyfathrebu effeithiol** a **chydweithio agos** rhwng timau EILA a Llywodraeth Cymru yn allweddol i oresgyn yr heriau cynnar.

Nododd pob tim EILA fod angen mwy o **amser** ac **adnoddau** na'r disgwyl i gyflwyno'r ddarpariaeth.



Darparwyr gofal plant a rhieni

94%



Roedd 94% o ddarparwyr gofal plant wedi **hyrwyddo'r Cynnig** i rieni.

92%



Nododd 92% o rieni fod **y broses ymgeisio yn syml**.

Roedd cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â chyflogaeth yn her, yn enwedig i rieni **hunangyflogedig**, rhieni â **chontractau dim oriau**, neu'r rhai a oedd yn gweithio **oriau hyblyg afreolaidd**.



Timau EILA: mae canfyddiadau allweddol yn ymwneud â strwythur a darpariaeth y Cynnig gan dimau EILA yn cynnwys:

- Roedd timau EILA wedi wynebu rhai heriau wrth ymgysylltu â darparwyr gofal plant yn ystod y cyfnodau cynnar, oherwydd **bylchau mewn gwybodaeth** (e.e. cyfradd fesul awr);
- Roedd rolau blaenorol aelodau timau EILA ym maes gofal plant/addysg wedi cael **effaith gadarnhaol ar ymgysylltu** â darparwyr gofal plant;
- Fel arfer, roedd gan y timau EILA un aelod o staff llawn amser ac un neu ddau aelod o staff rhan-amser;
- Roedd rhai timau EILA wedi '**benthyg**' **staff o adrannau eraill** yn yr Awdurdod Lleol pan oedd galw mawr am amser y tîm EILA, yn enwedig ar adegau prysur pan oeddent yn prosesu ceisiadau.


Roedd **ymgysylltiad uniongyrchol** timau EILA â lleoliadau gofal plant wedi'i groesawu gan ddarparwyr gofal plant, ac roedd yn ddull effeithiol o godi ymwybyddiaeth am y Cynnig. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant bod cofrestru ar gyfer y Cynnig yn hawdd, a bod y broses o gyflwyno gwybodaeth yn hwylus, er ei bod yn cymryd cryn dipyn o amser. Roedd yr oriau gwahanol o ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen mewn, ac ar draws, EILAs wedi effeithio ar nifer yr oriau o elfen gofal plant y Cynnig y gallai plant fanteisio arnynt.

Roedd ymgysylltiad EILAs â rhieni yn cynnwys **codi ymwybyddiaeth** o'r Cynnig yn ogystal â derbyn a phrosesu ceisiadau ar gyfer y Cynnig:

- Roedd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth EILAs yn canolbwyntio ar yr ardaloedd peilot a nodwyd;
- Roedd yn hanfodol darparu gwybodaeth gywir gan fod cyfathrebu ar lafar yn allweddol i ddarparwyr gofal plant wrth hysbysu rhieni am y Cynnig;
- Nid oedd lleoliadau ysgolion a gynhelir sy'n darparu meithrin y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan yn y prosesau gweithredu'n gynnar ac, o ganlyniad, roeddent yn cyfrannu llai at godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymysg rhieni;
- Mae EILAs yn amcangyfrif bod 40-60 y cant o geisiadau cychwynnol yn cynnwys tystiolaeth cymhwysedd nad oedd yn ddilys bellach, neu fod tystiolaeth o'r fath ar goll;
- Roedd rhai timau EILA wedi treulio cryn amser yn helpu rhieni i ddarparu tystiolaeth cymhwysedd.

Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr

Canfyddiadau allweddol



Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant bod y broses o gyflwyno anfonebau a ffurflenni misol yn ymwneud â nifer y plant sy'n archebu ac yn derbyn lleoedd a ariennir gan y Cynnig yn 'syml ac yn gyflym', ar ôl i'r problemau technegol gael eu datrys. Roedd pryderon cychwynnol rhai darparwyr gofal plant ynglŷn â'r gyfradd, amseroedd taliadau a'r prosesau gweinyddol beichus yn ddi-sail yn y pen draw.

Roedd y **newid yn y galw** am leoedd a nodwyd gan ddarparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld yn cynnwys:

- **Dim tystiolaeth** o gynnydd mawr mewn ymholiadau am ofal plant a gafodd ei ragweld gan rai darparwyr;
- Roedd y rhan fwyaf (**40 y cant**) o'r **darparwyr a welodd gynnydd** yn y niferoedd yn eu lleoliad ers mis Medi 2017 wedi nodi bod y cynnydd hwn **wedi'i ddylanwadu'n rhannol neu'n gyfan gwbl** gan y Cynnig.
- Rhai enghreifftiau o **ddarparwyr gofal dydd sesiynol** a gafodd eu cyfweld (10 allan o 36) **yn ymestyn eu horiau agor**; nododd ambell un ei fod yn bwriadu agor yn **ystod gwyliau** ysgol am y tro cyntaf;
- Roedd llai (3 allan o 47) o **feithrinfeydd dydd llawn** wedi nodi eu bod wedi ymestyn eu horiau agor;
- **Dim tystiolaeth** bod darparwyr gofal plant wedi lleihau eu **darpariaeth o feithrin y Cyfnod Sylfaen** er mwyn darparu rhagor o ofal plant. Fodd bynnag, nododd nifer bach (chwech) y **gallant ystyried newidiadau** o'r fath **yn y dyfodol**.

Roedd sylwadau rhai rhanddeiliaid ar hyfywedd masnachol y Cynnig yn adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod y gyfradd fesul awr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, ei bod yn codi yn unol â chwyddiant a'i bod yn ystyried costau uwch sy'n gysylltiedig â'r sector.

Yn ôl darparwyr gofal plant a nododd welliant mewn cynaliadwyedd (76 y cant) a phroffidioldeb (72 y cant) oherwydd y Cynnig, y prif reswm am hyn oedd:

- **Cyfraddau uwch fesul awr** y Cynnig o'i gymharu â chyfraddau ffioedd arferol y darparwr;
- **Cynnydd yn nifer yr oriau o ofal plant ymysg cwsmeriaid presennol sy'n manteisio ar y Cynnig erbyn hyn.**

Hefyd, nododd llawer o ddarparwyr gofal plant fod sicrhau llif o blant yn eu lleoliad, o oedran ifanc i oedran ysgol gynradd, yn bwysig i'w gynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r pwyntiau eraill yn ymwneud â hyfywedd masnachol y Cynnig a nodwyd gan ddarparwyr a rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Mae'r **cymarebau staff** gofynnol ar gyfer gofal plant yn effeithio ar broffidioldeb yn ogystal â gallu a pharodrwydd darparwyr i gynyddu darpariaeth yn eu lleoliad.
- **Amseriad taliadau gan EILAs.** Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (94 y cant) wedi nodi eu bod yn derbyn taliadau mewn ffordd amserol a chywir.
- Mynediad i gymorth busnes – Nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant (**75 y cant**) **wedi derbyn unrhyw gymorth busnes** yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig. Roedd y rhai a gafodd gymorth wedi'i gael gan sefydliadau cynrychioladol yn y sector gofal plant, ac roedd

y cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiweddarau hyfforddiant a pholisi yn hytrach na chymorth cynllunio busnes.

Nid oedd **cost darpariaeth** fesul plentyn wedi newid o ganlyniad i'r Cynnig ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant (90 y cant) a gafodd eu cyfweld. Roedd darparwyr gofal plant a nododd fod eu costau wedi cynyddu wedi priodoli hyn i'r tasgau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig.

Roedd rhai darparwyr a gafodd eu cyfweld (**15 y cant**) **wedi cyflwyno taliadau ychwanegol** ar gyfer bwyd a thrafnidiaeth o ganlyniad i'r Cynnig. Gallai rhai o'r taliadau ychwanegol hyn fod wedi'u cyflwyno beth bynnag. Roedd rhai wedi'u cyflwyno i wneud iawn am y diffyg refeniw o ffioedd a oedd wedi deillio o'r Cynnig.


Codir tâl yn uniongyrchol ar rieni ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol o ofal plant y tu hwnt i'r rhai a gefnogir gan y Cynnig. Nodwyd **rhai newidiadau yn y strwythur codi tâl** a ddefnyddir gan ddarparwyr i anfonebu rhieni ar gyfer yr **oriau ychwanegol** hyn.

Darpariaeth **Anghenion Addysgol Arbennig** (AAA): Dyrannwyd cyllideb i bob EILA, wedi'i neilltuo ar gyfer cymorth AAA. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r gyllideb hon wedi bod yn gymharol isel, yn bennaf oherwydd ansicrwydd EILAs ynglŷn â sut i ddefnyddio'r gyllideb.

Nid oes unrhyw dystiolaeth hyd yma bod y Cynnig yn lleihau'r defnydd o **ofal plant cyfrwng Cymraeg**. Roedd y 15 o gylchoedd Cymraeg a gafodd eu cyfweld yn fwy tebygol na darparwyr eraill o nodi canlyniadau cadarnhaol o safbwynt proffidioldeb a chynaliadwyedd, ac roedd pob un o'r 15 yn nodi bod cyfradd £4.50 yr awr yn hyfyw.

Dylanwad y Cynnig ar rieni

Canfyddiadau allweddol



Ymwybyddiaeth o'r Cynnig: Yn ogystal â chlywed am y Cynnig yn uniongyrchol gan ddarparwyr, roedd rhieni wedi clywed am y Cynnig gan bobl eraill (26 y cant o rieni) a thrwy ddarllen llythyr/taflen gan yr awdurdod lleol (24 y cant o rieni). Nododd darparwyr a thimau EILA fod rhai rhieni'n amheus o'r Cynnig yn y lle cyntaf, gan nad oeddent yn ymddiried mewn rhywbeth a oedd yn ymddangos yn 'rhy dda i fod yn wir' neu nad oeddent yn meddwl

bod y Cynnig yn berthnasol iddynt am eu bod yn rhieni sy'n gweithio. Fodd bynnag, roedd rhieni a oedd yn manteisio ar ofal plant anffurfiol yn llai tebygol o glywed am y Cynnig.

Roedd y **meini prawf cymhwysedd** wedi peri dryswch i rai rhieni yn y lle cyntaf, yn enwedig y pwyslais ar weithio am 16 awr. Roedd y rhan fwyaf o rieni (92 y cant) yn teimlo bod y broses ymgeisio yn syml; roedd yr anawsterau a nodwyd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu'r dogfennau gofynnol a'r ffaith ei bod yn cymryd cryn amser i gwblhau'r cais.

Pwy sy'n manteisio ar y Cynnig?

- **Band cyflog canolrifol** rhieni unigol a oedd yn manteisio ar weithredu'r Cynnig yn gynnar oedd £20,800 - £25,999.
- Ymddengys bod enillion canolrifol y rhai sy'n manteisio ar y Cynnig yn **debyg i enillion canolrifol** y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.
- Roedd 60 y cant o rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn **ennill cyflog sy'n gyfwerth â chyflog canolrifol Cymru, neu'n llai nag ef.**
- Roedd 30 y cant o rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ennill **£15,599 neu lai.**
- Y **cyflog canolrifol ar gyfer yr enillydd incwm isaf** ar bob aelwyd sy'n manteisio ar y Cynnig oedd £15,600 - £20,799.

Roedd y rhan fwyaf o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig (94 y cant o ymatebwyr i'r arolwg) **eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol**. Nododd 16 y cant o'r 60 y cant o rieni a nododd eu bod yn manteisio ar ofal plant anffurfiol ochr yn ochr â'r Cynnig eu bod yn defnyddio llai o ofal plant anffurfiol bellach.

Darpariaeth yn ystod y gwyliau: Roedd llai o rieni'n manteisio ar ofal plant yn ystod gwyliau ysgol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, nododd nifer o rieni a gafodd eu cyfweld (saith allan o 32) na allent fanteisio ar y ddarpariaeth gofal plant ofynnol yn ystod gwyliau ysgol.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg: Ar gyfartaledd dros y flwyddyn gyntaf, roedd 37 y cant o blant a oedd yn derbyn cymorth gan y Cynnig wedi manteisio ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, gyda'r gyfran yn amrywio ledled EILAs. Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod y gyfran o rieni a oedd yn gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cynnig, wedi aros yn gymharol gyson.

Effaith ar gyflogadwyedd rhieni: Dywedodd y rhan fwyaf o rieni (86 y cant) eu bod yn gweithio am yr un nifer o oriau ar hyn o bryd â'u horiau gwaith cyn y Cynnig. Fodd bynnag,

nododd 67 y cant fod eu trefniadau ac oriau gwaith yn fwy hyblyg, a dywedodd 60 y cant fod ganddynt fwy o gyfleoedd hyfforddi.

Y prif reswm a nodwyd gan rieni am **beidio â manteisio ar y Cynnig** oedd y ffaith nad oedd eu darparwr gofal plant wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig. Nododd rhai rhieni ei bod yn anodd iddynt ddeall y berthynas rhwng y Cynnig a chredydau treth; credai'r rhieni hyn y byddent ar eu hennill yn ariannol trwy beidio â manteisio ar y Cynnig ac osgoi unrhyw newid i'w credydau treth.

Casgliadau

Mae gwerthusiad y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar yng Nghymru wedi amlygu nifer o fanteision a heriau sy'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu a manteisio ar y Cynnig.

Gweithredu'r Cynnig yn gynnar

Roedd pob un o'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar wedi sefydlu cytundebau a phrosesau gyda darparwyr gofal plant lleol er mwyn gweithredu'r Cynnig, ac roeddent yn gallu derbyn ceisiadau gan rieni erbyn canol haf 2017. Roedd y rhan fwyaf o rieni cymwys a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus am y Cynnig yn gallu manteisio ar ddarpariaeth gofal plant berthnasol erbyn mis Medi 2017. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r llwyddiant hwn i'r cysylltiadau cyfathrebu a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a chydweithwyr awdurdodau lleol. Gellir priodoli rhywfaint o'r llwyddiant cynnar hwn i frwdfrydedd y saith awdurdod lleol. Yr her yn y dyfodol fydd hyrwyddo'r un lefel o frwdfrydedd a pherthynas waith dda gyda'r ardaloedd sy'n weithredwyr newydd.

Cafwyd rhai problemau cynnar gyda'r systemau talu darparwyr mewn rhai ardaloedd, ond fe gawsant eu datrys yn gynnar yn y rhan fwyaf o achosion. Mae her arall ac anoddach wedi deillio o faich gweinyddol trymach na'r disgwyl sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau gan rieni. Roedd y broses hon yn heriol iawn o safbwynt ceisiadau gan rieni sy'n hunangyflogedig, y rhai sydd â chontractau dim oriau neu'r rhai sy'n gweithio oriau hyblyg afreolaidd.

Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Treuliodd timau EILA lawer o amser yn ystod hanner cyntaf 2017 yn ymgysylltu'n uniongyrchol â darparwyr gofal plant lleol. Roedd y broses hon yn llwyddiannus ar y cyfan er gwaetha'r ffaith fod rhai bylchau pwysig yn y wybodaeth a oedd ar gael yn y dechrau, yn enwedig gwybodaeth am y gyfradd fesul awr. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant wedi croesawu'r cyswllt uniongyrchol a chyson a gawsant â'u timau EILA.

Gan fod y Cynnig ar gael mewn ardaloedd penodol yn unig, bu'n rhaid targedu'r gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo, gan gyfyngu ar gyrhaeddiad posibl y gweithgareddau hyrwyddo. Ar y cyfan, darparwyr gofal plant a oedd yn gyfrifol am roi gwybodaeth i rieni, ac roedd y rhan fwyaf o rieni wedi clywed am y Cynnig gan eu darparwyr gofal plant presennol. Er bod y broses hon wedi gweithio'n dda, roedd yn golygu bod rhieni nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r Cynnig.

Effaith ar y sector gofal plant

Nid yw cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi arwain at unrhyw newidiadau mawr o safbwynt patrymau darpariaeth hyd yn hyn. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (90 y cant) nad oeddent wedi newid unrhyw un o'u dulliau darpariaeth nac ymestyn eu horiau agor mewn ymateb i'r Cynnig. Roedd y darparwyr a oedd wedi ymestyn eu horiau agor yn gylchoedd chwarae sesiynol yn bennaf. Nododd dros hanner y darparwyr nad oedd nifer y plant sydd wedi'u cofrestru yn eu lleoliad wedi newid. O'r 40 y cant a nododd fod nifer y plant wedi cynyddu, dywedodd dwy ran o dair mai'r Cynnig a oedd yn gyfrifol am y cynnydd. Nododd dwy ran o dair o ddarparwyr gynnydd yn nifer yr oriau o ofal plant a ddefnyddir gan gwsmeriaid presennol, gyda'r Cynnig yn ddylanwad mawr yn y cyswllt hwn.

Ychydig iawn o ddarparwyr a nododd unrhyw bryderon ynglŷn â'u gallu i ymdopi â'r galw presennol am leoedd gofal plant sy'n deillio o'r Cynnig, er bod llawer o warchodwyr plant wedi nodi mai ychydig iawn o leoedd, os o gwbl, a oedd ar gael ganddynt. Er bod gan ddarparwyr eraill y capasiti i dderbyn rhagor o blant, nid oeddent eisiau gwneud hynny gan eu bod yn poeni y gallai ehangu'r ddarpariaeth gael effaith niweidiol ar natur eu lleoliad.

Hyfywedd masnachol: Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn credu bod y gyfradd dâl o £4.50 yr awr yn hyfyw yn fasnachol. Mae bron i dri chwarter yn credu bod darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig wedi gwella proffidioldeb a chynaliadwyedd eu busnes. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid a rhai darparwyr bwysigrwydd sicrhau bod cyfradd fesul awr y Cynnig yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, ei bod yn cynyddu'n unol â chwyddiant a'i bod yn ystyried unrhyw gynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â'r sector.

I'r rhan fwyaf o ddarparwyr (90 y cant) nid yw cost darpariaeth fesul plentyn wedi newid oherwydd y Cynnig. Roedd rhai darparwyr (15 y cant) wedi cyflwyno taliadau ychwanegol ar gyfer bwyd a thrafnidiaeth. Roedd lleiafrif (4 y cant o'r 150 a holwyd) wedi cynyddu eu cyfradd dâl ar gyfer pob rhiant o ganlyniad i'r Cynnig. Mae dulliau a symiau taliadau ychwanegol yn amrywio, ond mewn rhai achosion maent wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau bod darparu'r cynnig yn parhau i fod yn hyfyw yn fasnachol. Gall hyn awgrymu bod angen rhagor o ganllawiau ar ddarparwyr yn ymwneud â chyflwyno taliadau ychwanegol.

Mae cyflog gros blynyddol rhieni unigol sy'n manteisio ar y Cynnig yn amrywio o lai na £15,000 i dros £52,000. Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig yn perthyn i'r grwpiau incwm canolig i isel. Mae enillion gros blynyddol canolrifol y rhai sy'n manteisio ar y Cynnig (£20,800 - £25,999) yn debyg i enillion gros blynyddol canolrifol poblogaeth Cymru (£25,900). Roedd 60 y cant o'r holl rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig ac 80 y cant o'r enillwyr isaf ar aelwydydd sy'n manteisio ar y Cynnig yn ennill cyflog sy'n gyfwerth ag enillion canolrifol y boblogaeth yng Nghymru, neu'n llai na hynny.

Roedd y rhan fwyaf (90 y cant) o rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn defnyddio'r un darparwr gofal plant ag yr oeddent yn ei ddefnyddio cyn manteisio ar y Cynnig. Roedd y Cynnig wedi ysgogi 40 y cant o rieni i ddefnyddio rhagor o oriau o ofal plant ffurfiol. Nododd y rhan fwyaf o rieni (60 y cant) eu bod yn defnyddio cyfuniad o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol.

Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen

Mae'r isafswm o 10 awr o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a hyd at 20 awr o ddarpariaeth gofal plant a ariennir sydd ar gael trwy'r Cynnig yn cael eu darparu mewn lleoliadau ar wahân yn aml. Mewn ychydig o enghreifftiau, roedd rhieni'n dewis rhwng manteisio ar Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen neu ofal plant. Fodd bynnag, nid yw'r Cynnig yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn o reidrwydd. Serch hynny, mae cyflwyno'r Cynnig wedi amlygu rhai o'r heriau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rhai rhieni o safbwynt manteisio ar Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth gofal plant.

Mae rhai lleoliadau nas cynhelir yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â gofal plant ffurfiol i blant sy'n codi'n dair (y term a ddefnyddir yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed). Yn aml, mae'r gyfradd dâl ar gyfer rhai darparwyr sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn is na'r gyfradd i ddarparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig. O ganlyniad, mae rhai darparwyr wedi ystyried disodli Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen â darpariaeth gofal plant a ariennir gan y Cynnig. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg eto bod darparwyr yn newid eu darpariaeth fel hyn.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae cyfran y rhieni sy'n gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cynnig, wedi aros yn gymharol ddigyfnewid. Nid oes unrhyw dystiolaeth hyd yn hyn bod y Cynnig yn lleihau'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg.

Darpariaeth yn ystod y gwyliau

Mae rhieni sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig yn gallu manteisio ar 30 awr o ofal plant a ariennir yn ystod naw o'r tair wythnos ar ddeg o wyliau ysgol. Mynegwyd rhai pryderon yn y dechrau y gallai hyn at arwain at sefyllfa lle y byddai galw am ofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn drech na'r ddarpariaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd llai o rieni wedi manteisio ar ofal plant yn ystod gwyliau ysgol nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, nododd saith o'r 32 o rieni a gafodd eu cyfweld na allent fanteisio ar y ddarpariaeth gofal plant ofynnol yn ystod gwyliau ysgol.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Bu defnydd cymharol isel o'r gyllideb AAA a ddyrannwyd i bob EILA. Mae'r rhai sydd wedi defnyddio'r gyllideb wedi'i defnyddio ar gyfer gweithgareddau fel cymorth unigol, cyngor arbenigol, hyfforddiant ac 'ôl-lenwi' i hwyluso sesiynau hyfforddi staff ar gyfer darparwyr.

Effaith ar ragolygon cyflogaeth

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar ragolygon cyflogaeth rheini sy'n manteisio arno, ond nid effaith sylweddol. Nododd y rhan fwyaf o rieni (86 y cant) eu bod yn gweithio'r un nifer o oriau ag o'r blaen, cyn cyflwyno'r Cynnig. Fodd bynnag, nododd 10 y cant eu bod yn gweithio rhagor o oriau; nododd 67 y cant fod ganddynt ragor o hyblygrwydd o ran eu mathau o swyddi a'u horiau gwaith, a nododd 60 y cant eu bod yn cael mwy o gyfleoedd hyfforddi. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a nododd fod eu cyflogadwyedd wedi gwella ers manteisio ar y Cynnig yn fenywod ac yn rhieni o grwpiau enillion is.

Hefyd, nododd y rhan fwyaf o rieni (88 y cant) fod ganddynt ragor o incwm gwario o ganlyniad i fanteisio ar y Cynnig. Y prif reswm am hyn oedd y ffaith eu bod yn gwario llai ar gostau gofal plant. Nododd dwy ran o dair o rieni fod y Cynnig wedi rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gynyddu eu henillion yn y dyfodol.

Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u llywio gan ganfyddiadau sydd wedi deillio o werthusiad blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig Gofal yn gynnar yng Nghymru.

- Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sicrhau bod y prosesau ymgeisio mor syml â phosibl ar gyfer pob rhiant. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod y broses o ddangos prawf o gyflogaeth, ac felly manteisio ar y Cynnig, mor hawdd i unigolion hunangyflogedig, gweithwyr contract a gweithwyr ar gontractau dim oriau â rhieni sydd â threfniadau cyflogaeth eraill.
- Wrth i ni symud yn agosach at gyflwyno'r Cynnig ar lefel genedlaethol, mae angen ystyried dull mwy canolog o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynnig. Gellid cysylltu hyn â darparu rhagor o wybodaeth am feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni ac am fanteisio ar ofal plant a ariennir yn ystod gwyliau ysgol.
- Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth fwy eglur er mwyn helpu rhieni i gyfrifo costau gofal plant gan ystyried budd-daliadau eraill sydd ar gael iddynt, gan gynnwys credyd treth plant.
- Mae angen ystyried sicrhau mwy o gysondeb rhwng darparu gofal plant a Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen o safbwynt mynediad i rieni a threfniadau cyllido. Gallai hyn gynnwys cydleoli, cludiant yn ôl ac ymlaen o leoliadau yn ogystal â darparu trefniadau gofal plant cofleidol eraill ar y cyd. Gan gysylltu â'r argymhelliad uchod, mae'n bosibl y bydd angen perthynas waith agosach rhwng ysgolion sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a darparwyr gofal plant.
- Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ganllawiau ar ddarparwyr er mwyn sicrhau cysondeb wrth godi tâl am oriau ychwanegol ym mhob lleoliad gofal plant sy'n darparu'r Cynnig.
- Mae'n ymddangos bod y defnydd o gymorth busnes ymysg darparwyr gofal plant wedi bod yn isel yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig yn gynnar. Felly, mae angen ystyried hyrwyddo'r cymorth sydd eisoes ar gael i ddarparwyr.
- Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ganllawiau ar EILAs yn ymwneud â defnyddio'r gyllideb AAA sydd ar gael trwy'r Cynnig.
- Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil dros gyfnod hirach er mwyn darparu tystiolaeth yn ymwneud ag effaith, ac mae angen archwilio dichonoldeb creu cysylltiad â chofnodion data gweinyddol y llywodraeth (e.e. cofnodion cyflogaeth CThEM) i ategu'r dystiolaeth hon.
- Mae EILAs unigol wedi creu llawer o ddata monitro o ansawdd da. Er mwyn manteisio'n llawn ar y data hwn wrth fonitro a gwerthuso'r Cynnig yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd angen ystyried sicrhau bod y data hwn yn cael ei gyflwyno a'i gofnodi mewn ffordd gyson ym mhob EILA.

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Awst 2017, comisiynwyd cwmni Ymchwil Arad a NatGen Social Research i werthuso blwyddyn gyntaf gweithredu'n gynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Dyma brif amcanion y gwerthusiad:

- Gwerthuso effeithiolrwydd cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i blant a rhieni yn yr ardaloedd sy'n weithredwyr cynnar a darparu gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol.
- Gwerthuso effaith y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar gyflogadwyedd rhieni, llesiant ac incwm gwario (sy'n gysylltiedig â thlodi) – tebygol o fod yn gyfyngedig yn y flwyddyn gyntaf.
- Gwerthuso effaith y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar y sector gofal plant, gan ystyried yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, newidiadau i arferion busnes ac effaith yr ymyrraeth yn y farchnad gofal plant.

1.2 Er mwyn ystyried sut y gweithredwyd y Cynnig Gofal Plant (y Cynnig) yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i weithredu'n gynnar, roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar y broses yn ogystal ag effaith gynnar. Roedd y gwerthusiad o'r broses yn archwilio gweithredu'r Cynnig yn gynnar, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu, gweinyddu, hygyrchedd, capasiti'r sector gofal plant, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn ogystal â'r lefel ariannu a'r dull talu. Hefyd, roedd yn ystyried cysondeb y Cynnig â Chyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru fel Dechrau'n Deg a rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Hefyd, roedd y gwerthusiad o'r broses yn ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ymwneud â'r effaith ar broffidioldeb a chynaliadwyedd ar gyfer darparwyr, ac a oedd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i rieni. Y prif feysydd a gafodd eu cynnwys wrth werthuso'r effaith oedd agweddau rhieni at waith ac unrhyw effaith ar eu cyflogadwyedd a'u hincwm.

1.3 Cafodd y gwerthusiad ei lywio gan waith ymchwil wrth ddesg, dadansoddiad o ddata monitro'r Cynnig Gofal Plant, a chyfweiliadau â sefydliadau rhanddeiliaid, timau Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar (EILAs), swyddogion

Llywodraeth Cymru, darparwyr gofal plant a rhieni cymwys (sampl o'r rhai sy'n manteisio ar y Cynnig a'r rhai nad ydynt yn manteisio arno), yn ogystal ag arolwg o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau gwerthuso wedi'u cyflwyno yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

Cyd-destun polisi Cymru

- 1.4 Mae pwysigrwydd blaenoriaethu blynyddoedd cyntaf bywyd plentyn, 'y blynyddoedd cynnar', a cheisio ei gwneud yn haws i deuluoedd sy'n gweithio ddod o hyd i swyddi a'u cadw, wedi'i amlygu yn y *Strategaeth Genedlaethol*¹, gyda'r strategaeth yn pwysleisio cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant:

Byddwn yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant yn rhad ac am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, gan gynnig y ddarpariaeth mewn ffordd sy'n gweithio i rieni ac i blant.²

- 1.5 Roedd *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*³ Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar strategaethau Llywodraeth Cymru fel *Magu Plant*, *Cefnogi Teuluoedd*, *Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru*,⁴ a oedd yn cyfeirio at fantais ddeuol cyflogaeth a datblygiad plant. Roedd *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* yn amlinellu pwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gyfer datblygiad plant, yn ogystal â chefnogi mynediad rhieni i gyflogaeth neu hyfforddiant. Yn fwy diweddar, mae *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*⁵ deng mlynedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu buddsoddiad â blaenoriaeth er mwyn helpu i ddatblygu capasiti a gallu ledled y sector gofal plant.
- 1.6 Ledled Cymru, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu isafswm o 10 awr yr wythnos o Addysg y Blynyddoedd Cynnar trwy Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod

¹ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

² Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t. 23

³ Llywodraeth Cymru (2013) [Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) [Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd, Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru](#). t. 4. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

⁵ Llywodraeth Cymru (2017) [Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar](#).

Sylfaen (FPN) ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor. Mae'r 30 awr sydd wedi'u cynnwys yn y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cynnwys cyfuniad o FPN a darpariaeth gofal plant a ariennir. Mae'r gymhareb FPN i oriau gofal plant a ariennir sydd ar gael i blant cymwys yn dibynnu ar nifer yr oriau FPN sy'n cael eu darparu eisoes ym mhob ardal. Mae nifer yr oriau o ddarpariaeth FPN sydd ar gael yn amrywio rhwng awdurdodau lleol (ac weithiau rhwng darparwyr FPN yn yr un awdurdod lleol). O ganlyniad, mae nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i greu 30 awr y Cynnig hefyd yn amrywio ar draws ac oddi mewn i awdurdodau lleol.

1.7 Mae strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru a amlinellir uchod wedi cefnogi datblygiad darpariaeth addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru. Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) – isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, o'r tymor pan fydd plentyn yn troi'n dair oed.
- Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr gofal plant –gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd gofal dydd llawn, cylchoedd chwarae sesiynol a chlybiau gwyliau ar gael ledled Cymru. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod 4,137 o wasanaethau gofal plant a chwarae yn darparu 83,065 o leodedd gofal plant ym mis Mawrth 2018.⁶
- Dechrau'n Deg – 12.5 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir am 39 wythnos ar gyfer plant dwy a thair oed cymwys. Manteisiodd 36,869 o blant ar wasanaethau Dechrau'n Deg yn 2017-18, gan gynnwys 7,884 o blant a oedd yn gymwys am y tro cyntaf yn manteisio ar gynnig gofal plant llawn neu gynnig llai.⁷
- Bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn derbyn dwy filiwn o bunnoedd yn ychwanegol dros ddwy flynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r sefydliad i gyfrannu at y nod o geisio creu miliwn o siaradwyr Cymraeg

⁶ StatsCymru (2018) [AGC Gwasanaethau a Mannau yn ôl Math o Sefydliad a Blwyddyn](#).

⁷ Llywodraeth Cymru (2018) [Datganiad Ystadegol Cyntaf, Dechrau'n Deg, ystadegau cryno 2017-18](#), t. 1 a 31.

erbyn 2050. Bydd y cyllid yn helpu Mudiad Ysgolion Meithrin i gyfrannu at y targed sydd wedi'i osod yn y ddogfen Cymraeg 2050⁸ i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy sefydlu 40 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg newydd erbyn 2021, a 150 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg newydd erbyn 2027.

- Mae'r rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn helpu rhieni economaidd anweithgar y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gael hyfforddiant neu swydd os mai gofal plant yw'r prif rwystr iddynt.
- Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau i hybu'r broses o greu lleoedd gofal plant newydd ledled Cymru.
- Gofal Plant Di-Dreth – menter Llywodraeth y DU sydd wedi bod ar gael ledled y DU ers dechrau 2017. Mae'r fenter hon yn disodli'r Cynllun Talebau Gofal Plant presennol.
- Cymorth ar gyfer gofal plant gan Lywodraeth y DU trwy gredydau treth a Chredyd Cynhwysol.

Tlodi

- 1.8 Mae'r mentrau uchod wedi'u cyflwyno yn erbyn cefnlen o anweithgarwch economaidd uchel a chyson yng Nghymru (o'i gymharu â'r DU), gostyngiad mewn safonau byw a newidiadau i'r system les ledled y DU. Mae'r rhaglenni uchod yn ceisio mynd i'r afael â materion o'r fath ac maent yn amlygu rôl addysg gynnar a gofal plant wrth helpu teuluoedd i gael gwaith a threchu tlodi.
- 1.9 Mae *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* yn amlinellu pwysigrwydd darparu gofal plant fforddiadwy a hygyrch er mwyn helpu i wella canlyniadau ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.⁹ Mae'r rhaglen *Teuluoedd yn Gyntaf* yn cefnogi teuluoedd yng Nghymru sydd angen cymorth, ac mae pob awdurdod lleol yn gallu canolbwyntio ar

⁸ Llywodraeth Cymru (2017) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#). [Ar-lein]. [Defnyddiwyd 2 Tachwedd 2018] a Llywodraeth Cymru (2017), [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21](#). [Ar-lein]. [2 Tachwedd 2018]

⁹ Llywodraeth Cymru (2015) [Strategaeth Tlodi Plant Cymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Defnyddiwyd 2 Tachwedd 2018]

ddiwallu anghenion teuluoedd yn ei ardal leol.¹⁰ Mae'r rhaglen *Cymunedau am Waith* yn targedu pobl sy'n byw ymhell o'r farchnad lafur, gan geisio cynyddu eu cyflogadwyedd a'u helpu i gael swyddi. Roedd cronfa i dalu am gost tymor byr gofal plant yn elfen o'r 'gronfa rhwystrau' ar gyfer y rhaglen hon. Mae plant dwy a thair oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru yn gymwys ar gyfer 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim fel rhan o'r cynllun *Dechrau'n Deg*.¹¹

- 1.10 Nododd y dadansoddiad o effaith bosibl y Cynnig Gofal Plant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant tair a phedair oed yng Nghymru, a gwblhawyd yn 2015, na fyddai unrhyw effaith sylweddol o reidrwydd ar incwm net, tlodi neu ymddygiad gwaith ar gyfer teuluoedd gyda phlant.¹² Hefyd, nododd y gallai unrhyw arbedion mewn gwariant gofal plant gael ei osod yn rhannol yn erbyn gostyngiad mewn ad-daliadau ar gyfer costau sy'n deillio o gredydau treth, Credyd Cynhwysol a Gofal Iechyd Di-Dreth. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ofal plant 38 wythnos yn hytrach na 48 wythnos.¹³
- 1.11 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd 43 y cant o rieni yn ei chael yn anodd fforddio gofal plant.¹⁴ Hefyd, nododd fod 76 y cant o rieni ag anghenion gofal plant wedi dweud eu bod yn dibynnu ar "aelodau'r teulu neu ffrindiau", gyda 26 y cant yn cyfuno gofal plant anffurfiol di-dâl a gofal plant ffurfiol am dâl.

Cyflogadwyedd

- 1.12 Mae cyflogadwyedd yn flaenoriaeth arall i Lywodraeth Cymru sy'n cael ei phwysleisio yn y *Strategaeth Genedlaethol*. Mae'r *Cynllun Cyflogadwyedd* trawsbynciol yn nodi bod y cymorth sydd ar gael i rieni gan PaCE, a'r Cynnig Gofal Plant, yn allweddol i ddarparu cymorth cyflogadwyedd unigol i rieni.¹⁵ Nod PaCE yw darparu cymorth gofal plant ar gyfer y rhai sy'n byw yn bell i ffwrdd o'r farchnad lafur, gan leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Ar ôl

¹⁰ Mae rhagor o wybodaeth am [Raglen Teuluoedd yn Gyntaf](#) Llywodraeth Cymru

¹¹ Mae rhagor o wybodaeth am raglen [Dechrau'n Deg](#) Llywodraeth Cymru

¹² Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) [Childcare Policy Options for Wales](#). t. 19.

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) [Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\) Adroddiad Cyfnod](#) 1. t. 80-81.

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2018) [Bwletin Ystadegol, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 Gofal Plant](#).

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2018) [Cynllun Cyflogadwyedd](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t. 13.

ymgysylltu â PaCE yn y lle cyntaf, ac ar ôl derbyn cymorth gyda chostau gofal plant, gall rhieni fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant ar ôl dechrau gweithio.¹⁶¹⁷

- 1.13 Hefyd, mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-Dreth, ynghyd â newidiadau i'r system les, wedi cael effaith i raddau gwahanol ar deuluoedd ledled Cymru.
- 1.14 Mae'r effaith ar gyflogaeth menywod ar ôl cael plant yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o adael eu swyddi am eu bod yn wynebu anawsterau i ddod o hyd i swyddi hyblyg sy'n cyd-fynd â'u trefniadau gofal plant.¹⁸ Hefyd, yn ôl ymgyrch ymgysylltu Llywodraeth Cymru - #TrafodGofalPlant – mae cost gofal plant yn rhwstr i rieni sy'n gweithio, ac mae hyblygrwydd oriau agor cynnar yn bwysig i rieni hefyd.¹⁹
- 1.15 Mae pwysigrwydd gofal plant fforddiadwy, hygyrch a hyblyg yn y blynyddoedd cynnar wedi'i gydnabod yng Nghymru, ac adlewyrchir hyn yn y polisiau a'r rhaglenni a nodir uchod, sy'n ceisio cefnogi teuluoedd yn ystod blynyddoedd cynnar eu plant.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 1.16 Cyflwynwyd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* ym mis Ebrill 2015.²⁰ Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd y Cynnig yn cyfrannu at allu awdurdodau lleol i feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, gweithio gyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a mabwysiadu agwedd fwy cydgysylltiedig at ofal plant ac addysg.

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2018) [Cynllun Cyflogadwyedd, Adroddiad Cynnydd 2018](#), t. 25.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2018) [Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn helpu'r 1000^{fed} rhiant i gael gwaith](#). [Ar-lein]

¹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) [Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru](#), t. 17.

¹⁹ Llywodraeth Cymru (2017) [Ymgyrch#TrafodGofalPlant](#). [Ar-lein]

²⁰ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2018) [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) 2015. [Ar-lein]

Sefyllfa bresennol y sector gofal plant yng Nghymru

- 1.17 Ym mis Mawrth 2018, roedd 4,137 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).²¹ Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr gofal plant hyn yn warchodwyr plant (53 y cant). Mae gweddill y gofal plant yn cael ei ddarparu gan leoliadau gofal dydd llawn (18 y cant), gofal dydd sesiynol (17 y cant), lleoliadau y tu allan i oriau ysgol (10 y cant), darpariaeth chwarae mynediad agored (1 y cant) a crèches (0.5 y cant).²²
- 1.18 Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 83,065 o leoedd gofal plant ar gael yng Nghymru (roedd 75,944 o leoedd ar gael yn 2013).²³ Gofal dydd llawn sy'n darparu'r rhan fwyaf o leoedd (38 y cant), ac mae gwarchodwyr plant, gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal sesiynol yn darparu tua 19 y cant yr un o'r lleoedd eraill.
- 1.19 Mae AGC yn rheoleiddio gwarchodwyr plant, darpariaeth gofal dydd a darpariaeth chwarae ar gyfer plant hyd at 12 oed. Hefyd, mae lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cyflwyno Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadolygu gan Estyn. Mae Tabl 1.1 yn darparu diffiniadau o'r mathau gwahanol o ofal plant.

Tabl 1.1. Diffiniadau o fathau gwahanol o ofal plant

Gofal Plant	Diffiniad
Gwarchod Plant	Gofal plant a ddarperir gan un person neu fwy, o enedigaeth hyd at 12 oed, mewn eiddo domestig nad cartref y plentyn ei hun ydyw am fwy na 2 awr y diwrnod, a hynny am dâl.
Gofal dydd llawn	Gofal dydd llawn ar gyfer plant 0 hyd at 12 oed am gyfnod parhaus o 4 awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig.
Gofal dydd sesiynol	Gofal i blant o ddwy oed ymlaen mewn mangreoedd annomestig am gyfnod parhaus sy'n llai na 4 awr mewn un dydd.
Gofal plant y tu allan i oriau ysgol	Mae cyfanswm y gofal ar gyfer plant hyd at 12 oed yn fwy na dwy awr mewn unrhyw ddiwrnod ac am fwy na pum niwrnod y flwyddyn. Mae'n cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn.

²¹ StatsCymru (2018) [AGC Gwasanaethau a Mannau yn ôl Math o Sefydliad a Blwyddyn](#).

²² Canrannu wedi'u talgrynnu.

²³ StatsCymru (2018) [AGC Gwasanaethau a Mannau yn ôl Math o Sefydliad a Blwyddyn](#).

Darpariaeth chwarae mynediad agored	Darpariaeth gyda staff yn bresennol yn gweithredu am fwy na 2 awr y dydd ar gyfer plant hyd at 12 oed - gall fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, mewn amrywiaeth o leoliadau, gyda mangre neu beidio, a gall gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol.
Crèches	Gofal dydd achlysurol ar gyfer plant 0 hyd at 12 oed mewn mangreodd annomestig. Mae angen eu cofrestru os ydynt yn cael eu cynnal am fwy na dwy awr y dydd a mwy na pum niwrnod y flwyddyn.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016) [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed. t. 5-7.](#)

- 1.20 Mae gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol yn cynnwys cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg a Saesneg, cylchoedd meithrin, a gofal cofleidiol. Mae gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu gan leoliadau gofal plant ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol neu feithrinfa yn rhan-amser ar gyfer FPN, ac mae elfen gofal cofleidiol y gofal plant yn cael ei darparu cyn a/neu ar ôl hyn.
- 1.21 Mae plant yn gymwys i fanteisio ar FPN yn ystod y tymor ysgol ar ôl iddynt droi'n dair oed. Mae plant sy'n troi'n dair oed cyn diwedd mis Rhagfyr yn gallu mynychu dau dymor o FPN cyn dechrau'r flwyddyn lawn mewn meithrinfa. Cyfeirir at y plant hyn fel plant sy'n 'Codi'n Dair'. Mae rhai darparwyr gofal plant nas cynhelir (darpariaeth breifat) ond yn darparu elfen Codi'n Dair y Cyfnod Sylfaen, ac mae plant yn symud i feithrinfa a gynhelir sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd a ariennir gan awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn lawn cyn dechrau'r flwyddyn Derbyn.
- 1.22 Yn ôl arolwg diweddar o'r sector gofal plant yng Nghymru, amcangyfrifir bod tua 65 y cant o leoliadau'n cael eu cynnal gan ddarparwyr preifat, mae 18 y cant yn lleoliadau gwirfoddol (e.e. cylchoedd chwarae) a 12 y cant yn lleoliadau cyhoeddus.²⁴ Dangosodd adolygiad o'r capasiti gofal plant yng Nghymru fod gwarchodwyr plant yn tueddu i gael eu clystyru yn y De-ddwyrain a'r Gogledd. Mae darpariaeth gofal dydd llawn wedi'i chlystyru yn yr un ardaloedd hefyd, ond ychydig iawn o ddarparwyr gofal dydd llawn sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardaloedd trefol.

²⁴ Alma Economics (2018) [Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. t. 8.

Mae gofal sesiynol wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal ledled Cymru, ond mae'n amlycach yn y De-ddwyrain a'r Gogledd eto.²⁵

- 1.23 Mae'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* yn pennu uchafswm y plant sy'n gallu derbyn gofal ym mhob un o'r lleoliadau gofal plant gwahanol.²⁶ Gall gwarchodwr plant ofalu am uchafswm o ddeg o blant hyd at 12 oed. Ni all mwy na chwech o'r plant hyn fod o dan wyth oed, ac ni all mwy na thri o'r chwech fod o dan bump oed. Ni all mwy na dau o'r plant o dan bump oed fod yn iau na 18 mis oed.
- 1.24 Mewn lleoliadau gofal dydd plant yng Nghymru, mae'r isafswm ar gyfer cymarebau staffio fel a ganlyn:

²⁵ Llywodraeth Cymru (2017) [*Capasiti gofal plant yng Nghymru, mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano*](#). t. 14.

²⁶ Llywodraeth Cymru (2016) [*Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed*](#). t. 39.

- un oedolyn i dri phlentyn o dan ddwy oed
- un oedolyn i bedwar plentyn dwy oed
- un oedolyn i wyth plentyn tair i saith oed
- un oedolyn i ddeg plentyn wyth i ddeuddeg oed.

- 1.25 Ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored, mae angen un aelod o staff ar gyfer pob 13 o blant o dan wyth oed (nid yw plant o dan bump oed yn mynychu darpariaeth o'r fath fel arfer).
- 1.26 Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru yn fedrus iawn a bod y proffesiwn yn cael ei ystyried yn broffesiwn a gyrfa o ddewis.²⁷ Mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cwlwm a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r 'cynllun gweithlu', sy'n canolbwyntio ar gefnogi unigolion sy'n gweithio ym maes gofal plant neu chwarae ymysg plant 0-12 oed.
- 1.27 Mae oddeutu 23,300 o bobl yn gweithio gyda'n plant ieuengaf mewn lleoliadau gofal plant a lleoliadau Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys 5,800 o gynorthwywyr dosbarth y Cyfnod Sylfaen) yn ôl ffigurau Cynllun Gweithlu 10 mlynedd Llywodraeth Cymru.²⁸ Mae cyfran fawr o'r gweithlu gofal plant yng Nghymru yn gweithio oriau rhan-amser, ac er bod lefelau cymwysterau yn cynyddu, mae cyflogau'n isel o hyd.
- 1.28 Bwriad y Cynnig yw gweithredu fel catalydd i weddnewid y sector gofal plant, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen datblygu capasiti a galluedd ar draws y sector.²⁹ O dan gynllun y gweithlu 10 mlynedd, bydd cymwysterau gofal plant newydd yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2019 a fydd yn cynnig llwybr dysgu galwedigaethol a llwybr datblygu ar gyfer y sector.

²⁷ Llywodraeth Cymru (2017) [Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar](#). t. 5.

²⁸ Llywodraeth Cymru (2017) [Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar](#). t.9.

²⁹ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi](#). t. 20.

Datblygiad y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Cyd-destun ehangach y DU

- 1.29 Mae gwledydd eraill y DU yn darparu rhaglenni tebyg i'r Cynnig Gofal Plant i Gymru er mwyn cynorthwyo rhieni sy'n gweithio gyda gofal plant. Er enghraifft, cyn cyflwyno ei rhaglen ledled Lloegr ym mis Medi 2017,³⁰ aeth yr Adran Addysg ati i'w phrofi; ym mis Ebrill 2016 fe aeth 32 o awdurdodau lleol ati i brofi sut y gellid cefnogi'r 30 awr o addysg gynnar estynedig mewn lleoliadau gwahanol; ym mis Medi 2016 darparodd wyth awdurdod lleol oriau estynedig i brofi hyblygrwydd a chapasiti darpariaeth, ac fe'i cyflwynwyd yn gynnar mewn pedwar awdurdod lleol ym mis Ebrill 2017.³¹³² Mae'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr yn seiliedig ar amserlen tymhorau ysgol, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth gwyliau ychwanegol. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad A.
- 1.30 Ar hyn o bryd, mae'r Alban yn ymestyn yr hawl i addysg gynnar a gofal plant di-dâl, ac erbyn 2020 bydd yr hawl yn cynyddu'n sylweddol i 1140 awr y flwyddyn ar gyfer pob plentyn tair a phedair oed a phlant dwy oed sy'n gymwys, ac mae wedi cynyddu o 475 awr i 600 awr y flwyddyn ers 2014.³³ Rhwng 2016 a mis Mehefin 2018, fe aeth 14 o awdurdodau lleol yn yr Alban ati i dreialu'r oriau estynedig.³⁴³⁵ Mae rhagor o wybodaeth am ofal plant yn yr Alban ar gael yn Atodiad A.
- 1.31 Ar hyn o bryd, mae'r addysg cyn-ysgol a ariennir yng Ngogledd Iwerddon yn debyg i'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r DU, h.y. 2.5 awr y dydd, pum diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor ar gyfer plant tair a phedair oed. Fodd bynnag, mae proses ymgynghori a gwblhawyd yn ddiweddar yn llywio'r broses o ddatblygu strategaeth gofal plant newydd. Mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebwyr i'r

³⁰ Paull, G. a La Valle, I. (2018) [Evaluation of the first year of the national rollout of 30 hours free childcare Research report September 2018](#).

³¹ Paull, G., La Valle, I., Speight, S., Marshall, L. a White, C. (2017) [Evaluation of Early Rollout of 30 hours Free Childcare Research report August 2017](#). UK: Frontier Economics. t. 26.

³² Paull, G., La Valle, I., Speight, S., Jones, H. a White, C. (2017) [Evaluation of Early Implementation of 30 hours Free Childcare Research report July 2017](#). UK: Frontier Economics.

³³ Llywodraeth yr Alban (2017) [A Blueprint for 2020: The expansion of early learning and childcare in Scotland 2017-2018 Action Plan](#).

³⁴ Llywodraeth yr Alban (2017) [The Expansion of Early Learning and Childcare: Evaluation Report 2017](#). t. 9

³⁵ Llywodraeth yr Alban (2018) [Evaluation of the Early Learning and Childcare Delivery Trials](#).

ymgyngghoriad³⁶ wedi cynnig cynyddu darpariaeth i 30 awr. Un o brif amcanion y strategaeth yw sicrhau nad yw rhieni yn cael eu rhwystro rhag ymuno â'r gweithlu.³⁷


Cymru

- 1.32 Cyn cyflwyno'r Cynnig, roedd teuluoedd yn derbyn addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy ddau gynllun allweddol, gyda'r ddau'n parhau i fod ar waith. Darperir y cynllun cyntaf trwy Dechrau'n Deg, rhaglen y blynyddoedd cynnar sy'n cynnig 12.5 awr yr wythnos o ofal plant i blant dwy oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru, nes eu bod yn troi'n dair oed. Yr ail gynllun yw Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN), cynllun cyffredinol sy'n cynnig isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan y llywodraeth i bob plentyn yng Nghymru yn ystod y tymor, gan ddechrau yn nhymor yr ysgol pan fyddant yn troi'n dair oed. Trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae plant cymwys yn cael cynnig addysg ran-amser mewn lleoliadau a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, sef ysgolion yn bennaf, ond meithrinfeydd dydd a chylchoedd chwarae a ariennir hefyd.
- 1.33 O dan y Cynnig, ategir darpariaeth y Cyfnod Sylfaen gan oriau ychwanegol o ofal plant sydd ar gael i blant rhieni sy'n gweithio sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd.
- 1.34 Mae Ffigur 1.1 yn darparu trosolwg o ddatblygiad y Cynnig Gofal Plant i Gymru hyd at ei lansio yn yr awdurdodau lleol peilot ym mis Medi 2017. Mae rhagor o wybodaeth am sail resymegol a datblygiad y Cynnig ar gael yn Adran 3.2.

Ffigur 1.1. Datblygiad y Cynnig Gofal Plant i Gymru

³⁶ Adran Addysg Gogledd Iwerddon (2018) [*Summary report of responses to the consultation. Delivering Social Change Through Childcare, a ten year strategy for affordable and integrated childcare.*](#) t. 10.

³⁷ Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (2015) [*Delivering Social Change Through Childcare. A Ten Year Strategy for Affordable and Integrated Childcare.*](#) t. 10.



- 1.35 Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithredu'r Cynnis yn gynnar er mwyn profi darpariaeth 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio â phlant tair a phedair oed. Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnis yn gynnar (mis Medi 2017 hyd at fis Awst 2018), cafodd y Cynnis Gofal Plant ei ddarparu i blant rhieni cymwys mewn saith awdurdod lleol a ddewiswyd am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys naw wythnos o ofal plant y tu allan i'r tymor ysgol.

- 1.36 Mae holl rieni, gwarcheidwaid, llys-rieni a phartneriaid cyd-fyw hirdymor ar yr aelwyd yn gymwys ar gyfer y Cynnig os oes ganddynt blentyn o fewn yr ystod oedran, os ydynt yn bodloni diffiniad rhiant sy'n gweithio , ac os ydynt yn byw yn un o'r ardaloedd EILA. Mae'r Cynnig yn diffinio rhieni sy'n gweithio fel rhieni cyflogedig, rhieni hunangyflogedig, neu'r rhai sydd â chontract dim oriau ac sy'n ennill cyflog sy'n gyfwerth â gweithio ô leiaf 16 awr yr wythnos ar gyfradd yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r ddau riant mewn teulu dau riant a'r unig riant mewn teulu un rhiant fod yn gweithio i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft, os yw un rhiant yn gweithio a bod gan y rhiant arall gyfrifoldebau gofal (ac eithrio ar gyfer ei blant ei hunain) neu os yw un rhiant yn gweithio a bod y rhiant arall yn anabl neu'n methu gweithio. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r rhiant sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Hefyd, os nad yw rhieni'n gymwys bellach (fel arfer os yw un rhiant neu'r ddau riant yn colli ei waith/eu gwaith) gallant barhau i fanteisio ar y Cynnig am hyd at wyth wythnos.
- 1.37 Mae allbynnau arfaethedig a chanlyniadau uniongyrchol a thymor canolig y Cynnig wedi'u hamlinellu yn y model rhesymeg (gweler Atodiad B hefyd). Maent yn cynnwys:
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymysg rhieni a rhanddeiliaid/darparwyr
 - Cynyddu'r defnydd o ofal plant ffurfiol
 - Cynyddu dewisiadau cyflogaeth rhieni
 - Cynyddu incwm gwario rhieni
 - Mae rhieni yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth am ddefnyddio gofal plant ffurfiol.
 - Mae'r sector gofal plant yn tyfu (lleoliadau a staff cofrestredig/medrus/hyfforddedig) mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw am ofal plant ffurfiol a'r defnydd ohono.
- 1.38 Mae'r Cynnig yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth bresennol ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Hefyd, mae rhaglen waith 2017-21 Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o leoedd gofal plant cyfrwng Gymraeg a ariennir gan y Llywodraeth a

chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.³⁸ Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i helpu i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy greu 40 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg erbyn 2021 a 150 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg erbyn 2030. Felly, mae'r gwerthusiad yn ystyried y rhwystrau posibl ar hyn o bryd i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog.

- 1.39 Hefyd, mae'r Cynnig yn ceisio ystyried y rhwystrau a wynebwr gan rieni plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Er mwyn helpu plant ag AAA i fanteisio ar y Cynnig, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddarparu cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn cynnig hyfforddiant, cyfarpar, teganau, deunyddiau eraill ac adnoddau dynol. Trafodir hyn ymhellach yn adrannau 4.46-4.49.

Gweithredu'n gynnar

- 1.40 Derbyniodd Llywodraeth Cymru un deg tri datganiad o ddiddordeb i dreialu'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar gan 16 o'r 22 awdurdod lleol, a dewiswyd chwe awdurdod lleol i fod yn weithredwyr cynnar (mis Tachwedd 2016), gydag awdurdod lleol ychwanegol yn cael ei gyhoeddi maes o law (mis Mawrth 2017). Dyma'r ardaloedd;
- Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn (gweithio ar y cyd)
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - Cyngor Sir y Fflint
 - Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Abertawe
- 1.41 Yn ystod y flwyddyn gyntaf, Blaenau Gwent oedd yr unig awdurdod lleol lle y profwyd y Cynnig ledled yr awdurdod lleol. Fe aeth yr awdurdodau lleol eraill ati i ddewis cymysgedd o ardaloedd i brofi'r Cynnig, er enghraifft, ardaloedd gwledig a threfol. Mae gwybodaeth fanylach am wardiau penodol sy'n darparu'r Cynnig ar gael yn Atodiad C. Bwriad profi'r Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd archwilio materion fel y gwahaniaethau rhanbarthol rhwng nifer y bobl sy'n manteisio ar y

³⁸ Llywodraeth Cymru (2017) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#). [Ar-lein]. [Defnyddiwyd 2/11/18] a Llywodraeth Cymru (2017), [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21](#). [Ar-lein]. [2/11/18]

Cynnig, y gyfradd ariannu, gan gynnwys taliadau ychwanegol, a swm y grant a ddefnyddiwyd, demograffeg y rhai sy'n ymgeisio am y Cynnig ac yn manteisio arno, y math o leoliadau sy'n darparu'r Cynnig, y berthynas rhwng y Cynnig a'r Cyfnod Sylfaen, unrhyw newidiadau i leoliadau gofal plant sy'n cael eu dewis gan rieni, pryd a sut y manteisiodd rhieni ar y Cynnig, y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg, mynediad ar gyfer plant ag AAA a'r defnydd o ddarpariaeth yn ystod y gwyliau.

Trosolwg o'r Cynnig Gofal Plant

- 1.42 Roedd cyfanswm o 743 o ddarparwyr gofal plant wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig yn ystod y cyfnod gweithredu'n gynnar (12 mis cyntaf). Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r darparwyr hyn wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig o'r cychwyn cyntaf. Cynyddodd nifer y darparwyr a oedd yn darparu'r Cynnig dros amser wrth i ymwybyddiaeth gynyddu ac wrth i'r Cynnig gael ei gyflwyno'n ehangach ar draws wardiau awdurdodau lleol.
- 1.43 Mae Tabl 1.2 isod yn cyflwyno manylion y darparwyr hyn ar gyfer pob EILA ac yn ôl math o ddarparwr. Mae'r ffigurau hyn yn dangos mai gwarchodwyr plant yw'r gyfran fwyaf (dwyrain o bump) o ddarparwyr sydd wedi helpu i ddarparu'r Cynnig, a darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol yw'r gyfran leiaf (llai nag un rhan o ddeg).

Tabl 1.2. Nifer y darparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig ym mhob EILA, ar sail math o ddarparwr gofal plant (mis Medi 2017 hyd at fis Awst 2018)

EILA	Gofal y tu allan i oriau ysgol	Gofal dydd llawn	Gofal dydd sesiynol	Gwarchodwyr plant	Cyfanswm y darparwyr
Blaenau Gwent	1	10	8	20	39
Caerffili	23	32	31	71	157
Sir y Fflint	13	39	35	51	138
Gwynedd a Môn	11	33	79	88	211
Rhondda Cynon Taf	5	32	23	40	100
Abertawe	0	53	1	44	98
Cyfanswm	53	199	177	314	743

Ffynhonnell: Data monitro'r Cynnig Gofal Plant EILA

- 1.44 Roedd nifer y plant a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn is na'r disgwyl pan lansiwyd y Cynnig yn wreiddiol. Cynyddodd y niferoedd wrth i'r Cynnig ddechrau ennill ei blwyf, ond roeddent yn parhau i fod yn is na'r disgwyl. Mae Ffigur 1.2 isod yn cyflwyno'r niferoedd a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynnig yn gynnar (12 mis cyntaf), fesul EILA. Mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 1.2 yn amlinellu cyfanswm y plant sydd wedi manteisio ar ofal plant a ariennir trwy'r Cynnig rywbryd yn ystod gweithredu'r Cynnig yn gynnar. Fodd bynnag, nid yw'r data yn nodi cyfraddau defnydd y Cynnig ym mhob EILA - h.y. cyfran yr holl blant a rhieni cymwys ym mhob ardal sy'n manteisio ar y Cynnig.
- 1.45 Er mwyn cyfrifo cyfraddau defnydd, byddai angen mesur nifer y plant a rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig yn erbyn cyfanswm yr aelwydydd ym mhob ardal leol sydd â phlant tair neu bedair oed lle mae'r ddau riant neu warcheidwad (neu un mewn teuluoedd un riant) yn bodloni meini prawf cyflogaeth y Cynnig. Nid oes data cadarn ar aelwydydd yn ymwneud â'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd ar lefel leol. Nid oes modd darparu data dibynadwy ar gyfraddau defnydd ar hyn o bryd.
- 1.46 Gellid ystyried data yn ymwneud â chyfanswm y plant tair a phedair oed ym mhob ardal yn ddangosydd dirprwyol o gymhwysedd posibl, a gellid defnyddio hynny i fesur nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig. Fodd bynnag, ni fyddai dangosydd dirprwyol o'r fath yn ystyried statws cyflogaeth y rhieni. O'r herwydd, gallai

defnyddio dangosyddion dirprwyol o'r fath i amcangyfrif cyfraddau defnydd o'r Cynnig fod yn gamarweiniol ar yr adeg hon.

- 1.47 Ar gyfer pob tymor, gofynnwyd i EILAs goladu gwybodaeth am nifer yr oriau o ofal plant a archebwyd gan bob rhiant a nifer yr oriau a fynychwyd gan bob plentyn. Mae dadansoddiad o'r data hwn yn datgelu bod rhieni wedi archebu mwy o oriau ar gyfartaledd na'r oriau a fynychwyd o dan y Cynnig Gofal Plant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nhabl 1.3.


Tabl 1.3. Nifer yr oriau a archebwyd ac a fynychwyd ar gyfartaledd bob tymor fesul plentyn³⁹

Tymor	Nifer yr oriau a archebwyd ar gyfartaledd	Nifer yr oriau a fynychwyd ar gyfartaledd
Hydref	160	151
Gwanwyn	184	154
Haf	224	191

Ffynhonnell: Data monitro'r Cynnig Gofal Plant EILA

³⁹ Cyfrifwyd nifer cyfartalog yr oriau ar gyfer y tymor cyfan yn hytrach na chyfartaledd wythnosol achos bod y data monitro yn nodi'r oriau a archebwyd ac a ddefnyddiwyd fesul plentyn bob mis neu dymor. Nid oes data wythnosol ar gael.

Ffigur 1.2. Nifer y plant yn manteisio ar y Cynnig a nifer y darparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig ym mhob EILA yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig.




Ffynhonnell: Data monitro'r Cynnig Gofal Plant EILA

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn trafod y cwestiynau ymchwil penodol ar gyfer y gwerthusiad ac yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, gan gynnwys trosolwg o bob elfen o'r gwaith ymchwil.

Methodoleg - crynodeb



Cwestiynau ymchwil

- 2.2 Roedd dwy ran i'r gwerthusiad – gwerthusiad o'r broses a gwerthusiad o'r effaith – ac roedd y naill a'r llall yn ceisio archwilio cwestiynau ymchwil penodol. Cyflwynir y cwestiynau ymchwil isod.

Tabl 2.1. Cwestiynau ymchwil

Gwerthusiad o'r Broses: Darparu

- A oes digon o gapasiti i ddarparu'r Cynnig ac unrhyw gynnydd yn y galw sy'n digwydd o ganlyniad?
- A yw darpariaeth yn cael ei chynnig mewn ffordd hyblyg i fodloni gofynion rhieni (e.e. yn unol â phatrymau gweithio, gan gynnwys gofal cofleidiol)?
- A yw rhieni yn fodlon â'r lefel o hyblygrwydd sydd ar gael iddynt?
- Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i rieni fanteisio ar y Cynnig?
- Pa mor hygyrch a hawdd ydyw i ddarparwyr ddarparu'r Cynnig?
- A oes capasiti digonol yn y sector ar gyfer plant â gofynion AAA?
- A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer plant â gofynion AAA?
- A yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bresennol yn bodloni gofynion rhieni?
- A yw'r Cynnig yn arwain at unrhyw rwystrau neu gyfleoedd ar gyfer darparwyr gofal plant?
- A yw lefel y cyllid a delir i ddarparwyr yn llwyddiannus o safbwynt sicrhau capasiti digonol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy?
- A yw dulliau talu Awdurdodau Lleol i ddarparwyr gofal plant yn llwyddo i sicrhau llif arian digonol i ddarparwyr a thaliadau prydlon?
- I ba raddau y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi cynyddu'r baich gweinyddol ar gyfer darparwyr?

Gwerthusiad o'r Broses: Alinio

- A oes cynnydd neu ostyngiad yn y defnydd o gyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar?
- Sut mae'r Cynnig Gofal Plant yn llwyddo i bontio rhwng Dechrau'n Deg a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) ar gyfer rhieni sy'n gweithio?

Gwerthusiad o'r Broses: Canlyniadau anfwriadol

- A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd darparwyr?
- Beth yw effaith y Cynnig Gofal Plant ar blant nad ydynt yn gymwys?
- A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant ar gyfer plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig (e.e. plant o oedran arall)?
- A yw nifer y darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru wedi cynyddu o ganlyniad i awydd i gymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant?
- A yw'r dull talu ar gyfer y Cynnig wedi arwain at drosglwyddo costau ychwanegol i rieni?
- A oes effaith (gadarnhaol neu negyddol) wedi bod ar ansawdd canfyddedig gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant?

Gwerthusiad o'r Effaith: Cyflogaeth

- A oes unrhyw effaith ar gyflogaeth rhieni wedi deillio o'r Cynnig Gofal Plant yn dileu rhwystrau i weithio?
- Beth yw'r effaith ar agweddau rhieni at waith a'u canfyddiad o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt?

Gwerthusiad o'r Effaith: Incwm a Chyfoeth

- A oes gan deuluoedd fwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant?
- I ba raddau, os o gwbl, y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi helpu i leihau tlodi ar gyfer rhieni/teuluoedd sy'n gweithio?
- Beth yw'r effaith (os o gwbl) ar lesiant rhieni a phlant?

Trosolwg o fethodoleg

- 2.3 Mabwysiadwyd dulliau gweithredu cymysg ar gyfer y gwerthusiad, gan ganolbwyntio ar sawl maes ymchwil. Mae'r tabl isod yn cyflwyno trosolwg o feysydd gwahanol y gwaith ymchwil.

Tabl 2.2. Trosolwg o fethodoleg

Cyfranogwr	Dull	Nifer yr ymatebwyr	Pryd
Swyddogion Llywodraeth Cymru	Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb	11	Cydol y cyfnod gwerthuso
Cynrychiolwyr o bob tîm EILA	Cyfweliadau wyneb yn wyneb	1-4 o staff ym mhob EILA; 18 cyfweliad	Hydref 2017; Dechrau 2018 a mis Medi 2018
Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol*	Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb	14	Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018
Darparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig	Cyfweliadau ffôn	150	Rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018
Rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig	Arolwg ar-lein	555	Mis Mai 2018
Rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig	Cyfweliadau ffôn	36	Awst/Medi 2018
Rhieni nad ydynt yn manteisio ar y Cynnig	Cyfweliadau ffôn	21	Awst/Medi 2018

*Mae Atodiad D yn cynnwys y rhestr o randdeiliaid a gafodd eu cyfweid.

Cyfweliadau â Swyddogion Llywodraeth Cymru

- 2.4 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau gydag 11 o swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfweliadau cychwynnol yn canolbwyntio ar ddyluniad strategol y gwerthusiad, nodau ac amcanion y Cynnig Gofal Plant a'r cwestiynau ymchwil allweddol ar gyfer y gwerthusiad. Roedd cyfweliadau eraill â swyddogion Llywodraeth Cymru gydol cyfnod y gwerthusiad yn canolbwyntio ar gynnydd, datblygiadau newydd a gwersi a ddysgwyd.

Cyfweliadau â chynrychiolwyr timau'r Cynnig EILA

- 2.5 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau â chynrychiolwyr timau'r Cynnig Gofal Plant ym mhob un o'r saith EILA. Cynhaliwyd tri chylch o gyfweliadau dros gyfnod 12 mis y gwerthusiad. Cynhaliwyd y cylch cyntaf yn ystod Hydref 2017 a oedd yn canolbwyntio ar ddeall sut mae EILAs yn gweithredu'r Cynnig. Cynhaliwyd yr ail gylch yn gynnar yn 2018 ac roedd yn canolbwyntio ar gynnydd, datblygiadau newydd a newidiadau mewn darpariaeth. Cynhaliwyd y trydydd cylch ym mis Medi 2018 ac roedd yn gyfle i EILAs fyfyririo ar flwyddyn gyntaf y ddarpariaeth ac ystyried y gwersi a ddysgwyd.

Dadansoddi data monitro

- 2.6 Mae pob EILA yn cyflwyno data monitro ar deuluoedd sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd dadansoddiad o'r data hwn ar gyfer y cyfnod o weithredu'r Cynnig yn gynnar er mwyn archwilio nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig, proffil y teuluoedd a'r oriau o ofal plant a archebwyd ac a ddefnyddiwyd o dan y Cynnig.

Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol

- 2.7 Cafodd rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad. Mae rhestr o'r rhanddeiliaid hyn i'w gweld yn Atodiad D. Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddylunio a gweithredu'r Cynnig Gofal Plant a chanlyniadau ac effeithiau'r Cynnig. Hefyd, cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion a'r rhai sy'n gyfrifol am raglenni cysylltiedig, fel Dechrau'n Deg a'r rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Amcan y cyfweliadau hyn oedd archwilio'r cysylltiad rhwng y Cynnig Gofal Plant a darpariaeth a rhaglenni presennol.
- 2.8 Mynegodd rhai o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld safbwyntiau'n ymwneud â dylunio'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, gan fynegi pryder y bydd rhieni nad ydynt yn gweithio, a'u plant, yn colli allan. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar ac effaith gynnar y Cynnig ar rieni sy'n manteisio arno ac ar ddarparwyr gofal plant sy'n ei ddarparu.

Nid yw'n canolbwyntio ar amcan cyffredinol y Cynnig. O ganlyniad, nid yw'r safbwyntiau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond mae safbwyntiau'r rhanddeiliaid hyn yn ymwneud â phwyslais y Cynnig i'w gweld yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mehefin 2018.⁴⁰

Cyfweliadau â darparwyr gofal plant

2.9 Cynhaliwyd cyfweliadau â 150 o ddarparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ac sydd wrthi'n darparu'r Cynnig Gofal Plant. Cafwyd manylion cyswllt y darparwyr hyn gan bob EILA ym mis Chwefror 2018. Cysylltwyd â'r darparwyr mewn sypiau (yn ôl EILA), trwy e-bost, rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018. Ailgyssylltwyd â darparwyr na wnaethant ymateb i'r e-bost wreiddiol trwy e-bost neu neges destun 2-3 wythnos ar ôl anfon y neges wreiddiol. Yn gyffredinol, roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar hysbysu pobl am y Cynnig; dylanwad y Cynnig ar ddarpariaeth darparwyr ac unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth a gynigir; effaith y Cynnig ar gynaliadwyedd darparwyr; a'r gwersi a ddysgwyd. Mae'r canllaw ar bynciau i'w weld yn Atodiad E. Mae gwybodaeth am nifer y darparwyr a gyfwelwyd ym mhob EILA wedi'i chyflwyno isod.

Tabl 2.3. Nifer y darparwyr gofal plant a gyfwelwyd ym mhob EILA

EILA	Nifer y darparwyr a gafodd eu cyfweld*	Nifer y manylion cyswllt a dderbyniwyd
Blaenau Gwent	20	57
Caerffili	21	82
Sir y Fflint	32	68
Gwynedd a Môn	40	104
Rhondda Cynon Taf	18	64
Abertawe	18	28

*Nid yw'r golofn yn cyrraedd cyfanswm o 150 achos bod rhai darparwyr wedi'u cofrestru gyda mwy nag un EILA.

⁴⁰ Er enghraifft: Comisiynydd Plant Cymru, 2018, Tystiolaeth yng Nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg ar 16/05/2018. Ar gael yn <http://www.senedd.cynulliad.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=21394&Opt=3>

- 2.10 Amcan arall y gwerthusiad oedd cyfweld â darparwyr gofal plant yn yr ardaloedd sy'n weithredwyr cynnar, nad oeddent wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant. Prif bwrpas y cyfweiliadau hyn oedd archwilio'r rhesymau pam nad oedd y darparwyr gofal plant hyn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant. Gofynnwyd i bob EILA ddarparu manylion cyswllt unrhyw ddarparwyr gofal plant nad oeddent yn darparu'r Cynnig. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai dim ond ychydig iawn o ddarparwyr a oedd wedi penderfynu peidio â chofrestru i ddarparu'r Cynnig. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr cofrestredig yn darparu'r Cynnig. O ganlyniad, dim ond tri darparwr gofal plant nad oeddent yn darparu'r Cynnig a gafodd eu cyfweld yn ystod y cyfnod gwerthuso. Rhagwelwyd yn y lle cyntaf y byddai'r cyfweiliadau hyn yn gwneud cyfraniad ansoddol at ddadansoddi'r gwrthffeithiol. Fodd bynnag, gan fod nifer y darparwyr nad oeddent yn darparu'r Cynnig yn llai na'r disgwyl, mae'r cyfweiliadau hyn wedi'u defnyddio'n bennaf i gasglu enghreifftiau o pam y dewisodd rhai darparwyr gofal plant beidio â chymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant.

Arolwg o rieni a gymerodd ran

- 2.11 Cynhaliwyd arolwg ar-lein o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ym mis Mai 2018. Diben yr arolwg hwn oedd casglu safbwyntiau rhieni ar y Cynnig Gofal Plant a sut, os o gwbl, y mae wedi dylanwadu ar weithgarwch gwaith rheini a'i effeithiau ymddangosiadol ar deuluoedd a phlant. Mae holiadur yr arolwg i'w weld yn Atodiad F.
- 2.12 Treialwyd yr arolwg rhwng 12 Chwefror a 1 Mawrth 2018 trwy ddefnyddio sampl o 100 o achosion yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Dewiswyd Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal beilot gan fod hwn yn gyfle da i brofi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur ar-lein. Anfonwyd llythyr ac e-bost yn gwahodd pob un o'r 100 o achosion yn y sampl, ac anfonwyd negeseuon e-bost a llythyrau atgoffa ar adegau gwahanol o waith maes y cynllun peilot at y rhai nad oeddent wedi cymryd rhan eto. Prif ddiben y peilot oedd profi offeryn yr arolwg.
- 2.13 Cynhaliwyd prif gam y gwaith maes rhwng 8 Mai a 15 Mehefin 2018. Defnyddiwyd cyfrifiad ar gyfer y cam hwn o'r gwaith maes, a gwahoddwyd pob rhiant sy'n cymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant ym mhob EILA i gymryd rhan yn yr arolwg. Cysylltwyd

â chyfanswm o 1,275 trwy e-bost. Roedd y sampl hon yn cynnwys pobl a oedd wedi manteisio ar y Cynnig Gofal Plant rhwng lansio'r cynnig yn gynnar ym mis Medi 2017 tan fis Chwefror 2018.

- 2.14 Cwblhawyd yr arolwg gan 555 o rieni ac roedd y gyfradd ymateb yn 43 y cant. Mae Tabl 2.4 yn dangos manylion yr ymatebion i'r arolwg a'r gyfradd ymateb fel cyfran o'r ffrâm samplu fesul EILA. Roedd cyfran yr ymatebion gan awdurdodau lleol yn amrywio. Roedd dros hanner y rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig ar y pryd yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac yn Sir y Fflint, wedi cymryd rhan yn yr arolwg o'i gymharu â thua un o bob tri (36 y cant) ym Mlaenau Gwent.

Tabl 2.4. Cyfraddau ymateb i'r arolwg fesul EILA

EILA	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymatebion fel cyfran o'r ffrâm samplu (%)
Blaenau Gwent	75	36
Caerffili	109	39
Sir y Fflint	129	52
Gwynedd a Môn	82	57
Rhondda Cynon Taf	82	38
Abertawe	78	44
Cyfanswm	555	43

Cyfweliadau â rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig

- 2.15 Cynhaliwyd cyfweliadau â 36 o rieni a oedd wedi manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Defnyddiwyd dull hap-samplu haenedig yn seiliedig ar restr o'r holl rieni a oedd wedi manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o fis Chwefror 2018 ymlaen er mwyn dewis sampl gychwynnol o 96 o rieni. Haenwyd y sampl hon ar gyfer pob EILA, a dewiswyd 16 o rieni ar hap o bob EILA yn wreiddiol. Cafodd nifer y rhieni a ymatebodd o bob EILA o'r sampl gychwynnol hon ei fonitro, a chwblhawyd rhagor o waith samplu er mwyn dewis rhieni ychwanegol o EILAs â chyfradd ymateb isel. Cysylltwyd â chyfanswm o 161 o rieni a'u gwahodd am gyfweliad, ac ymatebodd 36 ohonynt ac fe gawsant eu cyfweld. Cysylltwyd â'r rhieni hyn trwy e-bost ym mis Awst 2018, ac anfonwyd neges destun atgoffa'r wythnos ganlynol. Yn gyffredinol, roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig Gofal Plant a'r wybodaeth a gawsant amdano; safbwyntiau ar y broses ymgeisio; sut mae rhieni wedi manteisio

ar y Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor ac adeg gwyliau ysgol; a'r gwahaniaeth y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi'i wneud i rieni, yn ariannol ac o safbwynt cyflogadwyedd. Mae gwybodaeth am nifer y rhieni a gafodd eu cyfweld ym mhob EILA wedi'i chyflwyno isod.

Tabl 2.5. Nifer y rhieni a gafodd eu cyfweld ym mhob EILA

EILA	Nifer y rhieni a gafodd eu cyfweld*
Blaenau Gwent	5
Caerffili	8
Sir y Fflint	7
Gwynedd a Môn	4
Rhondda Cynon Taf	7
Abertawe	5

Cyfweliadau â rhieni na wnaethant fanteisio ar y cynnig gofal plant

- 2.16 Cynhaliwyd cyfweliadau â 21 o rieni a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond na wnaethant fanteisio arno. Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar resymau rhieni am beidio â manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ac archwilio unrhyw broblemau'n ymwneud â'r broses ymgeisio ar gyfer y rhai a oedd wedi dechrau'r broses ymgeisio. Rhagwelwyd y gallai'r cyfweliadau hyn amlygu rhwystrau posibl i gyfranogiad, gan lywio'r broses o gyflwyno'r prosiect yn y dyfodol o bosibl. Hefyd, byddai'r cyfweliadau'n gwneud cyfraniad ansoddol at ddadansoddi'r gwrthffeithiol.
- 2.17 Casglwyd manylion cyswllt rhieni na wnaethant fanteisio ar y Cynnig o ddwy ffynhonnell wahanol:
- Darparodd EILAs fanylion cyswllt rhieni a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer y Cynnig Gofal Plant (gan gydsynio i gael eu cysylltu yn y broses) ond na wnaethant fanteisio arno.
 - Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a gafodd ei gyfweld a oedd yn gwybod am unrhyw rieni a fyddai'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond na wnaethant fanteisio arno. Anfonwyd neges i ddarparwyr gofal plant a oedd yn ymwybodol o'r rhieni hyn, gan ofyn iddynt anfon y neges ymlaen i'r rhieni.

Roedd y neges yn egluro'r gwerthusiad ac yn gwahodd rhieni i gysylltu â'r tîm gwerthuso ar gyfer cyfweiliad.


- 2.18 Cysylltwyd â rhieni a oedd wedi cydsynio i dderbyn cyswllt naill ai trwy e-bost neu neges destun ym mis Gorffennaf 2018 ac eto pythefnos neu dair wythnos yn ddiweddarach os nad oeddent wedi ateb. Cynigiwyd tocynnau siopa stryd fawr £20 i rieni nad oeddent wedi manteisio ar y Cynnig mewn cydnabyddiaeth o'r amser a roesant yn cyfrannu at yr astudiaeth hon.

3. Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru

- 3.1 Mae'r adran hon yn crynhoi sut y gweithredwyd y Cynnig Gofal Plant i Gymru ac mae'n cynnwys manylion dyluniad a sail resymegol y Cynnig a'r broses o'i weithredu'n gynnar ar lefel leol. Hefyd, trafodir y broses o ymgysylltu â darparwyr gofal plant a rhieni wrth weithredu'r Cynnig yn wreiddiol.

Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant - Canfyddiadau allweddol

Timau'r Cynnig EILA



7 awdurdod lleol rhwng mis Medi 2017 a mis Awst 2018



Roedd cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng timau EILA a Llywodraeth Cymru yn allweddol i oresgyn heriau cynnar



Nododd POB tîm EILA fod yr **amser** a'r **adnoddau** a oedd ar gael i gyflwyno'r Cynnig yn fwy na'r disgwyl

Map wedi ei greu yn Piktochart

Darparwyr gofal plant a rhieni

94%

Roedd 94% o ddarparwyr gofal plant wedi **hyrwyddo'r** Cynnig i rieni

92%

Nododd 92% fod y **broses** ymgeisio yn syml

Roedd cyflwyno tystiolaeth o gyflogaeth yn her, yn enwedig i rieni **hunangyflogedig** neu rieni â **chontractau dim oriau**, neu rieni **sy'n** gweithio oriau hyblyg afreolaidd

Canfyddiadau allweddol eraill

Timau'r Cynnig EILA

- Roedd timau EILA wedi wynebu rhai heriau wrth ymgysylltu â darparwyr gofal plant yn ystod y cyfnodau cynnar, oherwydd **bylchau mewn gwybodaeth** (e.e. cyfradd fesul awr);

- Fel arfer, roedd gan y timau EILA un aelod o staff llawn amser ac un neu ddau aelod o staff rhan-amser;
- Roedd rhai timau EILA wedi **'benthyg' staff o adrannau eraill** yn yr Awdurdod Lleol pan oedd galw mawr am amser y tîm EILA, yn enwedig ar adegau prysur pan oeddent yn prosesu ceisiadau;
- Roedd rolau blaenorol aelodau timau EILA ym maes gofal plant/addysg wedi cael **effaith gadarnhaol ar ymgysylltu** â darparwyr gofal plant.

Ymgysylltu â darparwyr gofal plant

- Roedd darparwyr gofal plant wedi croesawu **cysylltiad uniongyrchol â'r tîm EILA**, a oedd yn ddull effeithiol o godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig;
- Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant fod **cofrestru ar gyfer y Cynnig yn broses syml**;
- Barn gyffredinol darparwyr gofal plant oedd bod y broses ar gyfer cyflwyno gwybodaeth er mwyn derbyn taliadau yn dda, er ei bod yn cymryd cryn amser;
- **Roedd lefelau gwahanol o FPN**, oddi mewn i EILAs a rhyngddynt, yn effeithio ar nifer oriau'r Cynnig a oedd ar gael i bob plentyn.

Ymgysylltu â rhieni

- Roedd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth EILAs yn **canolbwyntio ar yr ardaloedd peilot a nodwyd**;
- Roedd yn **hanfodol darparu gwybodaeth gywir** gan fod cyfathrebu ar lafar yn allweddol i ddarparwyr gofal plant wrth hysbysu rhieni am y Cynnig;
- Nid oedd **lleoliadau ysgolion a gynhelir** sy'n darparu FPN yn cymryd rhan yn y prosesau gweithredu'n gynnar ac, o ganlyniad, roeddent yn cyfrannu llai at godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymysg rhieni;
- Mae EILAs yn amcangyfrif bod 40-60 y cant o geisiadau cychwynnol yn cynnwys **tystiolaeth cymhwysedd nad oedd yn ddilys bellach, neu fod dystiolaeth o'r fath ar goll**;
- Roedd rhai timau EILA wedi **treulio cryn amser** yn helpu rhieni i ddarparu dystiolaeth cymhwysedd.

Dyluniad a sail resymegol

- 3.2 Mae'r manteision economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig ag argaeledd a mynediad i ofal plant o ansawdd wedi'u cydnabod yn eang. Mae mynediad i ofal plant yn ofyniad allweddol wrth alluogi rhieni i barhau i weithio neu ddychwelyd i'r gwaith. Hefyd, mae'n gallu helpu i leihau tlodi plant a chynorthwyo datblygiad addysgiadol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Hefyd, mae'r sector gofal plant yn cynnal nifer o fusnesau annibynnol ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- 3.3 Fel cydnabyddiaeth o'r manteision hyn, roedd ymrwymadau i gyflwyno Cynnig Gofal Plant yng Nghymru wedi'u cynnwys ym manifesto'r rhan fwyaf o bleidiau

gwleidyddol yng Nghymru ar gyfer etholiad Cynulliad 2016. Cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer Cynnig Gofal Plant yn fuan wedyn, a'u cynnwys yn y rhaglen lywodraethu. Mae prif amcan y Cynnig wedi'i grynhoi yn y model rhesymeg yn Atodiad B.

- 3.4 O dan y Cynnig Gofal Plant, gall rhieni cymwys dderbyn cyfanswm cyfunol o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yn ystod y tymor. Mae'r hawl i addysg gynnar yn y Cyfnod Sylfaen yn rhan o'r cynnig hwn. Am hyd at 9 wythnos o'r flwyddyn, y tu allan i'r tymor ysgol, bydd rhieni yn derbyn 30 awr yr wythnos o ofal plant.

Y broses o ymgysylltu ag EILAs

- 3.5 Yn ystod ail ran 2016, anfonwyd gwahoddiad i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt gyflwyno datganiadau o ddiddordeb i dreialu'r Cynnig Gofal Plant yn eu hardaloedd lleol. Ymatebodd 16 o'r 22 awdurdod lleol i'r gwahoddiad hwn trwy gyflwyno 13 datganiad o ddiddordeb yn nodi'r angen posibl am y Cynnig ac amlinelliad o sut y byddent yn mynd ati i weithredu'r Cynnig yn eu hardal. Cyflwynwyd y datganiadau o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru mewn fformatau gwahanol, gan olygu ei bod yn anodd ceisio eu cymharu. Cymeradwywyd pum datganiad o ddiddordeb a ddatblygodd yn awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar (EILAs) maes o law. Yr awdurdodau lleol hyn oedd Gwynedd ac Ynys Môn (cyflwyniad ar y cyd), Sir y Fflint, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Ymunodd chweched awdurdod lleol, Caerffili, yn ddiweddarach (Chwefror 2017).
- 3.6 Roedd yn ofynnol i'r EILAs a ddewiswyd sicrhau y byddent yn gallu derbyn ceisiadau gan rieni cymwys erbyn mis Awst 2017 fel bod modd i rieni gael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant gyda darparwyr gofal plant perthnasol o fis Medi 2017 ymlaen. I wneud hyn, bu'n rhaid i EILAs wneud y canlynol:
- Dwyn ynghyd tîm o staff awdurdodau lleol i oruchwylio, rheoli a chydgysylltu'r broses o ddarparu'r Cynnig yn lleol;
 - Dewis ardaloedd/wardiau yn ardal yr awdurdod lleol i dreialu'r Cynnig;
 - Codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymysg darparwyr gofal plant a rhieni cymwys;

- Cyflwyno systemau newydd neu ddefnyddio systemau presennol fel bod EILAs yn gallu:
 - Derbyn, adolygu, cymeradwyo a phrosesu ceisiadau ar gyfer y Cynnig gan rieni;
 - Galluogi darparwyr gofal plant i gofrestru i ddarparu'r Cynnig;
 - Derbyn a chofnodi gwybodaeth gan bob darparwr yn ymwneud â nifer oriau'r Cynnig Gofal Plant a gefnogir sydd wedi'u harchebu a'u defnyddio gan bob plentyn cymwys yn eu gofal;
 - Prosesu taliadau rheolaidd ar gyfer darparwyr
 - Casglu a chofnodi data monitro a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- 3.7 Nododd llawer o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac EILA yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn credu na fyddai modd bodloni'r holl ofynion hyn o fewn yr amserlen berthnasol, yn enwedig o ystyried nad oedd rhai manylion polisi allweddol yn ymwneud â'r Cynnig wedi'u cytuno tan ganol 2017, gan gynnwys cyfanswm y gyllideb a oedd ar gael a'r gyfradd fesul awr i'w thalu i ddarparwyr gofal plant. Roedd y bylchau hynny mewn gwybodaeth wedi arwain at rai heriau i EILAs yn eu hymdrechion i annog darparwyr gofal plant i gofrestru i ddarparu gofal plant trwy'r Cynnig.
- 3.8 Llwyddwyd i oresgyn yr heriau hyn, ac roedd pob un o'r saith EILA yn gallu derbyn ceisiadau gan rieni erbyn Awst 2017. Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod y broses gyfathrebu a'r berthynas waith agos a ddatblygwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac EILAs yn ystod 2017 wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant. Nododd EILAs eu bod yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y broses hyd yn oed cyn i'r polisi gael ei gymeradwyo. Er bod angen y lefel hon o gyfranogiad o bosibl oherwydd yr amserlenni heriol, arweiniodd at EILAs yn derbyn mwy o gyfrifoldeb am y broses o ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o'r heriau y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u goresgyn yn llwyddiannus.
- 3.9 Nododd un EILA ei fod yn croesawu'r ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant mewn 'ffordd ragnodol', a bod yr amserlenni heriol cysylltiedig yn hyrwyddo cysylltiadau gwaith mwy agored, gan sicrhau bod llawer mwy wedi'i gyflawni o ganlyniad.

- 3.10 Fodd bynnag, dylid nodi na ellir priodoli holl lwyddiant sefydlu'r EILAs yn gynnar a datblygu'r systemau darparu lleol i'r prosesau ymgysylltu a chyfathrebu a ddatblygwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol perthnasol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd llawer o'r llwyddiant wedi'i sbarduno gan frwdfrydedd ac agwedd benderfynol yr unigolion yn nhimau'r EILA. Fodd bynnag, roedd y brwdfrydedd hwn ar lefel leol a chenedlaethol, ynghyd â'r prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu agored a thryloyw yn ffactorau ategol i'r ddwy ochr a arweiniodd at lwyddiant gweithredu'r Cynnig yn gynnar. Yr her nesaf fydd hwyluso brwdfrydedd ac agwedd agored debyg wrth gyflwyno'r Cynnig ledled Cymru.

Gweithredu ar lefel leol

Strwythurau gweithredu EILAs

- 3.11 Gan amlaf, mae gan y saith EILA perthnasol dîm craidd o un aelod o staff llawn amser ac un neu ddau aelod o staff rhan-amser a gyflogir gan yr awdurdod lleol. Fel arfer, mae'r timau'n cynnwys un rheolwr, un cydlynnydd a chymorth gweinyddol. Mae pob EILA yn derbyn grant gweinyddiaeth sy'n helpu i dalu am gostau darparu'r Cynnig cyn cyflwyno systemau a phrosesau gweinyddiaeth maes o law. Mae'r grant gweinyddiaeth yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i helpu EILAs i ymgysylltu â rhieni a darparwyr gofal plant er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Cynnig a systemau cymorth i brosesu ceisiadau ar gyfer cymorth cyllido, cofrestru darparwyr a chefnogi ceisiadau rhieni.
- 3.12 Mewn rhai timau EILA, mae costau staffio'r tîm yn cael eu cyllido'n llawn gan y grant gweinyddiaeth. Mewn timau eraill, mae'r costau'n cael eu cyllido'n rhannol gan y grant ac yn rhannol gan gronfeydd craidd yr awdurdod lleol. Mae'r galw am adnoddau i weinyddu'r Cynnig ar lefel leol yn amrywio'n aml; gan amlaf, mae mwy o bobl yn ymgeisio am y Cynnig ar ddechrau'r tymor ysgol, gan arwain at gynnydd yn y galw am adnoddau.
- 3.13 Mae'n ymddangos bod EILAs yn rheoli'r llanw a thrai yn y galw am wasanaeth gweinyddol trwy ddyrannu amser staff ac adnoddau eraill mewn ffordd hyblyg. Ar adegau o alw mawr am wasanaeth gweinyddol, nododd EILAs eu bod yn 'benthycha'

amser aelodau staff eraill ledled yr awdurdod lleol yn aml. Yn gyfnewid am hynny, mae rhai o aelodau'r tîm EILA, y mae'r grant gweinyddu sydd ar gael trwy'r Cynnig yn talu am eu hamser, yn darparu rhywfaint o'u hamser a'u cefnogaeth i gyflawni tasgau eraill yn eu hadran ar adegau pan fydd llai o alw am weinyddu'r Cynnig Gofal Plant.

- 3.14 Mae gallu timau EILA i weithredu yn y modd hwn yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae angen i'r grant a ddarperir dalu am yr holl gostau amser ac adnoddau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Cynnig. Mae gan awdurdodau lleol eraill agwedd ychydig yn fwy hyblyg at rannu adnoddau rhwng adrannau. Fodd bynnag, nododd pob EILA fod lefel yr amser ac adnoddau gweinyddol sydd eu hangen i ddarparu'r Cynnig ar lefel leol wedi bod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Ym marn EILAs, gellir priodoli hyn i'r lefel uchel annisgwyl o adnoddau sydd eu hangen i ymateb i'r heriau gwahanol sy'n gysylltiedig â chynorthwyo rhieni i ddarparu tystiolaeth cymhwysedd (gweler adran 3.34 hefyd).
- 3.15 Lleolir timau EILA mewn adrannau gwahanol oddi mewn i strwythur gweithredol yr awdurdod lleol sy'n eu cyflogi. Lleolir rhai timau yn adran addysg yr awdurdod, a lleolir eraill yn y blynyddoedd cynnar ac yn y gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae gallu EILAs i helpu i ddarparu'r Cynnig yn dibynnu'n helaeth ar y graddau y gallant gynorthwyo a dylanwadu ar brosesau cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth allanol ymysg darparwyr, rhieni a rhanddeiliaid yn ehangach, yn ogystal â'u gallu i dderbyn gwybodaeth a chymorth ehangach yn fewnol yn yr awdurdod lleol. I ryw raddau, mae safle'r tîm EILA oddi mewn i strwythur staffio'r awdurdod lleol yn penderfynu cyrhaeddiad a chysylltedd allanol yr EILA.
- 3.16 Hefyd, mae'r profiad sydd wedi'i ddatblygu gan aelodau unigol o'r tîm yn eu rolau blaenorol, ynghyd â'u cysylltiadau presennol, yn dylanwadu ar allu'r EILA i weinyddu'r Cynnig yn llwyddiannus. Er enghraifft, ymddengys bod timau EILA sy'n cynnwys unigolion a oedd wedi meithrin cysylltiadau gwaith da â'u sector gofal plant lleol wedi mynd ati i ddefnyddio'r cysylltiadau hyn i sicrhau cefnogaeth darparwyr gofal plant o safbwynt cyflwyno'r Cynnig a'i hyrwyddo i rieni. Ar y llaw arall, mae'n bosibl bod aelodau timau a oedd wedi sefydlu cysylltiadau gwaith da â darparwyr

addysg wedi'i chael yn fwy heriol ymgysylltu â lleoliadau gofal plant. Cryfder yr unigolion hyn yw'r cysylltiadau a ddatblygwyd ganddynt gydag ysgolion cynradd lleol sy'n darparu FPN a thimau derbyniadau yn yr awdurdod. Felly, mae angen ystyried natur cyrhaeddiad a dylanwad timau gweinyddiaeth lleol wrth gynllunio i gyflwyno'r Cynnig mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.

Dewis ardaloedd lleol i fod yn weithredwyr cynnar

- 3.17 Roedd y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar yn canolbwyntio ar wardiau ac ardaloedd penodol ym mhob EILA gyda'r nod o gyflwyno'r Cynnig yn ehangach ym mhob un o'r awdurdodau lleol hyn yn ddiweddarach. Yr eithriad i hyn oedd Blaenau Gwent, lle y cyflwynwyd y Cynnig ledled yr awdurdod lleol. Y sail resymegol ar gyfer cyflwyno'r Cynnig cam wrth gam yn y chwech EILA arall oedd sicrhau bod y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynnig yn lleol yn aros ar lefel y gellir ei rheoli. Hefyd, roedd yn gyfle i brofi'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar mewn ardaloedd â nodweddion economaidd-gymdeithasol gwahanol.
- 3.18 Felly, gofynnwyd i EILAs ddewis ardaloedd yn eu hawdurdod lleol i dreialu'r Cynnig. Dewisodd pump o'r chwech EILA wardiau unigol yn eu hawdurdod lleol i brofi'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Roedd sail resymegol eu dewisiadau yn seiliedig ar ffactorau fel dwysedd poblogaeth (er mwyn cynnwys rhai ardaloedd trefol a rhai ardaloedd gwledig) a'r lefel bresennol o ddarpariaeth gofal plant a chyflogaeth yn yr ardaloedd hynny. Mae'r ardaloedd a ddewiswyd gan bob awdurdod lleol i weithredu'r Cynnig yn gynnar wedi'u rhestru yn Atodiad C.
- 3.19 Dewisodd yr EILA arall ardaloedd peilot ar sail dalgylchoedd ysgolion. Arweiniodd y dull gweithredu hwn at rai heriau gan fod dalgylchoedd rhai o'r ysgolion ffydd a chyfrwng Cymraeg yn gymharol eang, ac roedd rhannau o'r dalgylchoedd yn gorgyffwrdd â dalgylchoedd ysgolion a ddewiswyd. Byddai penderfyniad gan EILA i beidio â chynnwys dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd yn y peilot wedi arwain at rai teuluoedd yn cael eu heithrio o'r Cynnig, er bod teuluoedd eraill sy'n byw yn yr un ward wedi'u cynnwys. O ganlyniad, gallai ymddangos fod dull yr EILA o ddewis ardaloedd peilot yn gwahaniaethu yn erbyn ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er mwyn datrys y broblem hon, newidiodd yr EILA'r

defnydd o wardiau etholiadol ym mis Ionawr 2018, yn unol â'r drefn ar gyfer EILAs eraill. Llwyddodd yr addasiad hwn i ddatrys llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio dalgylchoedd ysgolion, ond arweiniodd y broses o addasu at oedi wrth ddarparu'r Cynnig.

- 3.20 Gofynnwyd i EILAs nodi rhai wardiau neu ardaloedd lleol 'wrth gefn' ychwanegol lle y gellid gweithredu'r Cynnig yn gynnar os oedd angen. Fe aeth rhai EILAs ati i wneud hyn yn gynnar gan ennill cymeradwyaeth cyngor eu cabinet yn y broses. Roedd eraill wedi nodi ardaloedd wrth gefn ond nid oeddent wedi'u cadarnhau â'u cabinet, felly pan ddaeth y cyfle i ymestyn y Cynnig i ardaloedd newydd, nid oedd pob EILA yn barod am hynny. O ganlyniad, bu rhywfaint o oedi pellach wrth weithredu'r Cynnig.
- 3.21 Roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld o'r farn fod y broses raddol o gyflwyno'r Cynnig mewn ardaloedd peilot oddi mewn i EILAs wedi bod yn rhy ofalus o bosibl. Yn eu barn nhw, o ystyried llwyddiant datblygu a gweithredu'r prosesau cychwynnol ac o ystyried bod nifer y bobl a fanteisiodd ar y Cynnig yn is na'r disgwyl, byddai wedi bod yn bosibl rhoi cynlluniau ar waith yn gynharach i gyflwyno'r Cynnig yn llawn ym mhob un o'r EILAs. Byddai hyn wedi osgoi rhai o'r heriau a nodwyd uchod yn ymwneud â dewis ardaloedd i fod yn weithredwyr cynnar, gan ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni cymwys posibl.

Ymgysylltu â darparwyr gofal plant

- 3.22 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwr a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad hwn eu bod wedi clywed am y Cynnig Gofal Plant yn wreiddiol trwy gyswllt uniongyrchol â'u tîm EILA lleol. Llwyddodd y cysylltiad cychwynnol hwn i godi ymwybyddiaeth darparwyr lleol o'r Cynnig a'u hannog i fynd ati i ddarparu'r gofal plant a ariennir. Fel arfer, roedd gweithgareddau'n ymwneud â'r cysylltiad cynnar hwn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd, gyda gwahoddiad i ddarparwyr lleol eu mynychu. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i EILAs gyflwyno'r Cynnig i ddarparwyr lleol a'u hannog i gofrestru fel darparwyr y Cynnig Gofal Plant. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld wedi croesawu'r cyfarfodydd cynnar hyn, er nad oedd rhai

manylion pwysig, gan gynnwys y gyfradd fesul awr a delid i ddarparwyr, wedi'u cadarnhau ar y pryd.

- 3.23 Er bod lleoliad daearyddol plant a rhieni yn rhan o'r meini prawf cymhwysedd, nid oedd unrhyw gyfyngiadau daearyddol ar ardaloedd a allai fanteisio ar y Cynnig. O ganlyniad, gallai darparwyr a oedd wedi'u lleoli unrhyw le oddi mewn neu oddi allan i ardal yr awdurdod lleol ddarparu gofal plant wedi'i ariannu gan y Cynnig i blant cymwys. Fodd bynnag, roedd y gweithgareddau cychwynnol i godi ymwybyddiaeth darparwyr yn tueddu i dargedu darparwyr oddi mewn i ffin yr EILA. O ganlyniad, nododd rhai darparwyr o'r tu allan i'r ardaloedd EILA nad oeddent yn ymwybodol o'r Cynnig nes i rieni fynd atynt yn ddiweddarach.
- 3.24 Yr unig feini prawf cymhwysedd y mae angen i ddarparwyr gofal plant eu bodloni er mwyn darparu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig yw'r angen iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ar wahân i hyn, roedd angen i ddarparwyr gofrestru gyda'r EILA er mwyn derbyn taliadau a chytuno â thelerau ac amodau'r Cynnig. Mewn llawer o achosion, cofrestrodd darparwyr i weithredu'r Cynnig yn ystod y cyfarfodydd agored a fynychwyd ganddynt.
- 3.25 Datblygodd un EILA becyn cymorth darpariaeth gofal plant yn amlinellu'r safonau ansawdd disgwyledig ar gyfer darparwyr gofal plant. Fel rhan o'r broses gofrestru, roedd angen i ddarparwyr yn yr ardal hon ddangos eu bod yn bodloni'r safonau hyn trwy gofrestru i dderbyn y pecyn cymorth. Penderfynodd Llywodraeth Cymru na ddylid cyflwyno safonau ansawdd ychwanegol neu amgen, yn ogystal â'r rhai a gyflwynwyd gan AGC at ddibenion cofrestru, fel amod cyn cofrestru, gan y gallent rwystro rhai darparwyr rhag cefnogi'r Cynnig.
- 3.26 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld fod y broses gofrestru i ddarparu'r Cynnig yn 'syml' (gweler adran 3.40). Hefyd, nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr fod y tîm EILA wedi cadw lefel dda o gysylltiad rheolaidd â nhw gydol y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar.

“Maen nhw [y tîm EILA] ar ben arall y ffôn bob amser os oes angen unrhyw beth arnom ni.” (darparwr gofal plant).

- 3.27 Nododd rhai o'r darparwyr a gafodd eu cyfweld enghreifftiau o ymweliadau â'u lleoliad gan aelodau'r tîm EILA lleol, y tu allan i oriau swyddfa arferol yn aml, er mwyn darparu rhagor o wybodaeth neu arweiniad un i un i helpu i gwblhau'r ffurflenni data misol.
- 3.28 Mae'n rhaid i bob darparwr gofal plant gyflwyno gwybodaeth i'w EILA ddechrau bob mis yn amlinellu nifer yr oriau o ofal plant a archebwyd trwy'r Cynnig. Wedyn, mae taliadau'n cael eu gwneud ar sail nifer yr oriau a archebwyd. Hefyd, ar ddiwedd bob mis mae'n rhaid i ddarparwyr nodi faint o oriau a archebwyd a gafodd eu defnyddio. Ym marn y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld, roedd y broses hon yn addas ond yn tueddu i gymryd llawer o amser. Fodd bynnag, nododd ambell un fod y baich gweinyddol yn gymharol drwm yn eu barn nhw. Roedd y safbwynt hwn yn gyffredin ymysg darparwyr nad oedd ganddynt fynediad hawdd i'r rhyngwyd a/neu'r rhai a nododd nad oeddent yn hyddysg mewn cyfrifiadura. Eglurodd llawer o ddarparwyr, yn enwedig gwarchodwyr plant, eu bod yn gwneud y gwaith gweinyddol hwn gyda'r nos y tu allan i oriau gwaith arferol. Hefyd, nododd rhai darparwyr ambell i broblem gyda'r system weinyddol, yn enwedig yn ystod y cyfnod gweithredu'n gynnar, gan arwain at daliadau hwyr weithiau. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd y problemau cynnar hyn eu datrys yn gyflym. Fodd bynnag, mae rhai heriau gweinyddol wedi ailymddangos yn ddiweddar yn ymwneud ag archebu oriau gofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y papur Gwyliau ar wahân a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad llawn hwn.
- 3.29 Roedd tri o'r darparwyr a gafodd eu cyfweld yn darparu lleoedd o dan y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant o fwy nag un EILA. Felly, roedd angen i'r darparwyr hyn gyflwyno dalennau monitro misol ar wahân ar gyfer y plentyn/plant sy'n byw ym mhob EILA. Nid oedd y darparwyr hyn yn credu bod hon yn broblem fawr, ond roeddent yn nodi bod gwahaniaethau bach rhwng prosesau pob EILA yn peri rhywfaint o ddryswch.
- 3.30 Hefyd, roedd lefelau gwahanol o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) mewn EILAs yn creu rhai heriau gweinyddol i'r EILAs a darparwyr, gan ei bod yn effeithio ar nifer yr oriau o'r Cynnig Gofal Plant a oedd ar gael i bob plentyn. Er enghraifft, gallai lleoliadau mewn un EILA gynnig 12 awr o FPN yr wythnos, gan

olygu bod modd i blentyn sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant dderbyn 18 awr o ofal plant a ariennir; a gallai lleoliadau mewn EILA arall gynnig 10 awr o FPN ac felly darparu 20 awr o ofal plant a ariennir. Bydd gan blant o'r ddau EILA hyn sy'n mynychu'r un lleoliad gofal plant hawl i lefelau gwahanol o ofal plant a ariennir, ac mae'n rhaid i'r darparwr ystyried hyn wrth gyflwyno ffurflenni monitro a hawlio taliadau. Hefyd, mae'n rhaid i'r broses o weinyddu'r Cynnig ystyried y nifer gwahanol o oriau FPN ar sail oedran plentyn – mae'n bosibl y bydd oriau FPN sy'n cael eu cynnig i blentyn tair oed yn cynyddu ar ôl iddo droi'n bedair oed. Mae unrhyw gynnydd yn digwydd ar adegau gwahanol ledled yr EILAs, er enghraifft, gall nifer yr oriau gynyddu yn ystod y tymor ar ôl i blentyn droi'n bedair oed, neu ym mis Medi ar ôl i'r plentyn droi'n bedair oed.

- 3.31 Mae lefelau gwahanol o ddarpariaeth FPN yn amlwg oddi mewn i ffiniau EILA yn ogystal â rhyngddynt. Mewn rhai achosion, mae lleoliadau yn yr un awdurdod lleol yn cynnig gwahanol lefelau o FPN, ac weithiau mae'r un lleoliad yn cynnig oriau gwahanol o FPN gan ddibynnu ar a yw'r plentyn yn mynychu sesiwn FPN ddwy awr a hanner bob bore neu sesiwn FPN ddwy awr bob prynhawn. Hefyd, gall ysgolion gwahanol ddewis darparu oriau ychwanegol o FPN eu hunain.

Ymgysylltu â rhieni

- 3.32 Yn gyffredinol, mae'r broses o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gofal Plant ymysg rhieni cymwys wedi bod yn llwyddiannus yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig yn gynnar, er bod rhai problemau wedi codi hefyd. Mewn ardaloedd lle'r oedd wardiau penodol wedi'u dewis, dim ond rhieni sy'n gweithio ac yn byw yn y wardiau hyn a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf. O ganlyniad, nid oedd rhieni sy'n gweithio â phlant tair a phedair oed yn gymwys os oeddent yn byw yn yr un awdurdod lleol ond ychydig y tu allan i god post y wardiau a ddewiswyd. O'r herwydd, ni chredid ei bod yn briodol mabwysiadu ymgyrch hyrwyddo ganolog ledled Cymru, neu hyd yn oed ledled yr awdurdodau lleol, i annog rhieni i fanteisio ar y Cynnig. Yn hytrach, mabwysiadwyd dull gweithredu mwy penodol, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau codi

ymwybyddiaeth a gefnogwyd gan EILAs yn canolbwyntio ar ardaloedd y gweithredwyr cynnar a nodwyd.

- 3.33 Mae gweithgareddau hyrwyddo gwahanol wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o weithgareddau hyd yma i godi ymwybyddiaeth rhieni wedi'u rhoi ar waith gan ddarparwyr gofal plant. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (94 y cant) eu bod wedi hyrwyddo'r Cynnig i rieni trwy ddefnyddio dulliau gwahanol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, poster, cylchlythyron a thaflenni hysbysebu.
- 3.34 Y brif her wrth hyrwyddo'r Cynnig i rieni, trwy'r darparwyr gofal plant, oedd sicrhau bod y wybodaeth a drosglwyddir yn gywir ac yn gyson, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y gair llafar fel dull cyfathrebu. Nododd darparwyr fod meini prawf cymhwysedd y Cynnig wedi peri dryswch i rai rhieni, a bod y term '30 awr' wedi peri dryswch i eraill gan eu bod yn credu bod ganddynt hawl i 30 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth waeth beth oedd eu hawl i FPN. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, roedd darparwyr yn trosglwyddo'r ymholiad i'r tîm EILA yn aml, neu'n hysbysu'r rhiant am dudalen y Cynnig Gofal Plant ar wefan yr awdurdod lleol.
- 3.35 Yn gyffredinol, roedd gweithgareddau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth darparwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd eu gallu i gyrraedd pob rhiant cymwys posibl yn gyfyngedig, yn enwedig y rhai nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol ar y pryd, neu'r rhai a oedd yn defnyddio gwasanaeth gofal plant gan ddarparwr nad oedd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig. Dyma esboniad rhannol o bosibl am y ffaith fod nifer y rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i weithredu'n gynnar yn llai na'r disgwyl.
- 3.36 Ni chymerodd ysgolion ran yn y prosesau ymgysylltu cychwynnol a gefnogwyd gan yr EILAs. Nododd EILAs eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparwyr gofal plant mewn lleoliadau nas cynhelir yn ystod y cyfnod gweithredu'n gynnar, gan mai'r lleoliadau hyn a oedd yn derbyn y cyllid ac felly'n gorfod cofrestru fel darparwyr y Cynnig Gofal Plant. Yn anorod, felly, roedd y darparwyr hyn yn fwy ymwybodol o natur y Cynnig, ac roeddent yn gweithredu fel prif borth i rieni fanteisio ar y Cynnig. O ganlyniad, roedd lleoliadau ysgolion a gynhelir sy'n darparu FPN i blant tair a phedair oed yn cyfrannu llai at y broses o godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymysg

rhieni. Nid yw hyn yn syndod o ystyried nad ydynt yn derbyn unrhyw gyllid o dan y Cynnig Gofal Plant yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r oriau FPN a ddarparant bob wythnos yn elfen allweddol o'r Cynnig 30 awr cyffredinol. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhagor o gymorth o bosibl i annog ysgolion i wneud cyfraniad mwy gweithredol at hyrwyddo'r Cynnig.


- 3.37 Nododd rhai cynrychiolwyr EILAs eu bod wedi cysylltu â rhai lleoliadau ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig a hyrwyddo cefnogaeth iddo. Dywedodd rhai darparwyr gofal plant eu bod wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd ymrestru FPN rhieni mewn ysgol leol lle'r oedd cyfle i gyflwyno'r Cynnig i rieni a thrafod eu gwasanaethau gofal plant. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o'r fath yn brin iawn. Roedd y rhan fwyaf o EILAs yn nodi nad oedd penaethiaid mewn ysgolion lleol a'u hadran addysg yn cyfrannu at y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Roedd rhai cynrychiolwyr EILAs a rhanddeiliaid ehangach yn credu bod y rhan fwyaf o adrannau a lleoliadau addysg yn ystyried bod eu rôl yn annibynnol ar weithgareddau gofal plant. Felly, er bod yna enghreifftiau o ddarparwyr addysg a gofal plant yn gweithio mewn partneriaeth, maent yn gymharol brin. Gan fod y Cynnig Gofal Plant yn cynnwys gofal plant ac FPN, gall y diffyg cysondeb rhwng y ddau arwain at rai cyfyngiadau ar allu rhieni i fanteisio ar ddwy elfen y Cynnig. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd cyfweiliadau gydag ysgolion yn rhan o'r broses werthuso, sy'n gosod rhai cyfyngiadau ar y canfyddiadau a nodwyd uchod. Trafodir cysondeb rhwng yr elfen FPN a'r elfen gofal plant yn fanylach yn y papur ar wahân ar Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen.

Proses ymgeisio

- 3.38 Mae'n rhaid i rieni sy'n gymwys i dderbyn y Cynnig Gofal Plant wneud cais am gymorth cyllid trwy'r EILA. Mae'r broses ymgeisio arferol wedi'i hamlinellu yn ffigur 3.1. Mae rhai EILAs yn darparu gwiriad cymhwysedd ar-lein cychwynnol, gan ddefnyddio dyddiad geni'r plentyn, a chod post ac oriau gwaith y rhiant.

3.39 Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae'n rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd, gan gynnwys tystiolaeth o'u cyfeiriad, tystysgrif geni'r plentyn a thystiolaeth o gyflogaeth (papurau cyflog tri mis fel arfer). Gall rhieni gyflwyno'r dystiolaeth hon ar ffurf electronig mewn rhai EILAs, ond mewn EILAs eraill mae angen copïau papur o'r dystiolaeth. Mewn rhai EILAs, mae'r cyllid ar gyfer gofal plant yn cychwyn pan fydd y lle wedi'i gadarnhau gan yr EILA, ond mewn ardaloedd eraill mae'r cyllid yn cychwyn pan fydd y cais wedi'i gytuno gan y darparwr gofal plant a'i gymeradwyo gan yr EILA.

Ffigur 3.1. Proses ymgeisio rhieni ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru



3.40 Dywedodd y rhan fwyaf (92 y cant) o rieni a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn credu bod y broses ymgeisio yn syml. Fodd bynnag, nododd EILAs eu bod wedi wynebu sawl her, ac y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn wrth gymeradwyo a phrosesu ceisiadau. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys ceisiadau nad oeddent yn cynnwys yr holl dystiolaeth ofynnol, ac yn yr achosion hyn, roedd aelodau o'r tîm EILA wedi gofyn am ragor o dystiolaeth gan rieni. Yn ôl amcangyfrifon EILAs, roedd tua 40 – 60 y cant o geisiadau yn cynnwys tystiolaeth a oedd yn rhy hen, neu ddiffyg tystiolaeth. Er bod gofyn i rieni gyflwyno copïau o dystiolaeth os oeddent yn ei

hanfon trwy'r post, roedd rhai wedi cyflwyno dogfennau gwreiddiol, ac roedd angen eu storio a'u dychwelyd i'r rhieni ar ôl dilysu'r cais.

- 3.41 Y brif her a oedd yn wynebu EILAs wrth gymeradwyo a phrosesu ceisiadau am y Cynnig oedd casglu prawf o gymhwysedd cyflogaeth gan rieni - h.y. tystiolaeth eu bod yn ennill cyflog cyfwerth ag 16 awr o'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw wythnosol, neu fwy na hynny, bob wythnos. Fel arfer, y dystiolaeth ofynnol ar gyfer hyn oedd papurau cyflog ar gyfer tri mis diwethaf cyflogaeth. Roedd rhieni a gyflogwyd mewn swyddi sefydlog yn gallu darparu'r dystiolaeth hon yn gymharol gyflym. Fodd bynnag, roedd yn anodd iawn i rieni eraill ddarparu tystiolaeth, yn enwedig os oedd ganddynt gontract dim oriau, eu bod yn hunangyflogedig neu eu bod yn gweithio oriau hyblyg afreolaidd o wythnos i wythnos. Yn aml, mae'r rhieni hyn yn ennill cyflogau is, a gellid dadlau felly bod y Cynnig Gofal Plant yn debygol o fod yn fwy manteisiol iddynt. Mae hyn yn berthnasol iawn i deuluoedd un rhiant neu deuluoedd dau riant lle mae'r ddau yn ennill cyflogau is. Os mai dyma'r rhieni sy'n ei chael yn anodd profi eu cymhwysedd statws cyflogaeth, gallai gyfyngu ar y graddau y mae'r Cynnig yn gallu cyflawni ei amcan trechu tlodi.
- 3.42 Roedd pob un o'r timau EILA a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o'r her bosibl hon ac yn nodi bod eu dull o brosesu ceisiadau yn galluogi ac yn cynorthwyo rhieni i fanteisio ar y Cynnig i'r graddau posibl. Yn aml, roedd hyn yn golygu bod angen neilltuo llawer o amser ac ymdrech i helpu rhieni i gyflwyno'r dystiolaeth ofynnol er mwyn profi eu cymhwysedd cyflogaeth. Fel rhan o'r cymorth hwn, mae timau EILA wedi ffonio rhieni yn rheolaidd ac wedi cysylltu â chyflogwyr a chyfrifwyr yn uniongyrchol er mwyn casglu'r wybodaeth ofynnol am gyflogaeth ac enillion.
- 3.43 Dywedodd un rhiant hunangyflogedig ei fod wedi penderfynu peidio â defnyddio'r Cynnig, er ei fod yn gymwys amdano, oherwydd bod y broses o ddarparu tystiolaeth o gyflogaeth ac incwm yn rhy feichus. Hefyd, cyfeiriodd rhai darparwyr gofal plant at enghreifftiau o rieni a oedd wedi penderfynu peidio ag ymgeisio oherwydd na allent brofi eu cymhwysedd cyflogaeth. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond lleiafrif o'r rhai a gafodd eu cyfweld a gyfeiriodd at y materion hyn, a bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i ddeall yr hyn sy'n rhwystro rhieni rhag manteisio ar y


Cynnig cyn dod i unrhyw gasgliadau pendant. O ganlyniad, mae angen trin y casgliadau a gyflwynir yn y paragraff hwn â gofal ar hyn o bryd.

4. Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr


- 4.1 Ceisiodd y gwerthusiad archwilio pa mor hygyrch a hawdd oedd darparu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig, gan gynnwys ei hyfywedd masnachol, ac a oedd digon o gapasiti gofal plant i gyflwyno'r Cynnig. Mae canfyddiadau'r adran hon yn seiliedig yn bennaf ar 150 o gyfweiliadau ffôn ansoddol gyda darparwyr gofal plant sy'n darparu gofal plant a ariennir.

Dylanwad y Cynnig ar ddarparwyr - Canfyddiadau allweddol


Darparwyr gofal plant




Wedi clywed am y Cynnig
gan yr **awdurdod lleol**




Wedi sylwi ar **gynnydd**
yn nifer y plant ers y
flwyddyn flaenorol




Wedi nodi bod ganddynt
gapasiti i ehangu os yw'r
galw yn cynyddu



Yn cytuno bod **£4.50** yr
awr yn hyfyw yn fasnachol



Wedi nodi bod
proffidioldeb wedi gwella



Wedi nodi bod
cynaliadwyedd
wedi gwella

Hefyd

25%

Wedi manteisio ar gymorth busnes ar ôl i'r Cynnig gael ei gyflwyno

15%

Wedi cyflwyno **Taliadau ychwanegol** ar gyfer bwyd a thrafnidiaeth

£

Defnydd cymharol isel o'r **gyllideb AAA**

Dim newid mawr mewn darpariaeth gofal plant yn ystod **gwyliau ysgol**

Canfyddiadau allweddol eraill

Darparwyr sy'n gweithredu'r Cynnig

- Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant fod y broses o **gyflwyno'r ffurflenni 'yn syml ac yn gyflym'**, ar ôl i broblemau technegol cychwynnol gael eu datrys;
- **Nid oedd sail i bryderon cychwynnol** darparwyr gofal plant ynglŷn â'r gyfradd, amseriad taliadau a gweinyddiaeth feichus.

Newid yn y galw

- Roedd y Cynnig wedi cael dylanwad rhannol neu lawn ar y **cynnydd yn y galw** am leoedd yn ôl yr 80 y cant o ddarparwyr a nododd fod niferoedd wedi cynyddu.
- Nid oedd **unrhyw dystiolaeth** o gynnydd mewn ymholiadau ar gyfer gofal plant, er bod rhai darparwyr wedi disgwyl hynny;
- Roedd rhai (10 allan o 36) **darparwyr gofal dydd sesiynol** a gafodd eu cyfweld wedi **ymestyn eu horiau agor**, gyda rhai'n agor yn ystod gwyliau ysgol hefyd;
- Roedd llai (3 allan o 47) **o feithrinfeydd dydd llawn** wedi ymestyn eu horiau agor;
- Er nad oes unrhyw dystiolaeth bod darparwyr wedi disodli **FPN** â'r Cynnig, bydd nifer fach (chwech) **yn ystyried cyflwyno newidiadau yn y dyfodol o bosibl**.

Hyfywedd masnachol y Cynnig

- Nododd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig **adolygu'r gyfradd fesul awr**, sicrhau ei bod yn codi'n unol â chwyddiant a sicrhau ei bod yn ystyried y cynnydd mewn costau yn y sector.
- O ganlyniad i'r gyfradd uwch fesul awr a dderbyniwyd ar gyfer y Cynnig, a'r ffaith fod oriau plant sydd eisoes yn derbyn gofal plant wedi cynyddu, **gwellodd cynaliadwyedd** darparwyr.
- Nododd darparwyr gofal plant bwysigrwydd cynnal llif cynaliadwy o blant, ac o ganlyniad roeddent yn **awyddus i barhau i dderbyn plant iau** yn eu lleoliad.
- Mae'r **cymarebau staff** gofynnol yn effeithio ar hyfywedd masnachol a pharodrwydd darparwyr i gynyddu nifer y plant yn eu lleoliad.
- Mae **taliadau** gan EILAs yn cael eu derbyn mewn **ffordd amserol a chywir** yn ôl 94 y cant o ddarparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld.
- Sefydliadau cynrychioladol o'r sector gofal plant oedd y **brif ffynhonnell**

gymorth ar gyfer darparwyr gofal plant. Roedd natur cymorth o'r fath yn canolbwyntio ar hyfforddiant yn hytrach na chynllunio busnes.

Costau darparu a strwythurau taliadau

- Nid oedd **y costau darparu fesul plentyn wedi newid** o ganlyniad i'r Cynnig yn ôl y rhan fwyaf (90 y cant) o ddarparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld.
- Roedd darparwyr gofal plant wedi priodoli unrhyw gynnydd mewn costau darparu i **dasgau gweinyddu ychwanegol**.
- Roedd llawer o ddarparwyr gofal plant **yn pennu ffioedd ar sail cyfraddau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn**, ac roedd cymhwyso'r tâl £4.50 yr awr yn her i rai ohonynt.
- Defnyddiodd darparwyr gofal plant **ddulliau gwahanol** o ddyrannu oriau'r Cynnig a chodi tâl ar rieni ar gyfer yr oriau ychwanegol a ddefnyddiwyd.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

- **Mae'r gyllideb AAA** wedi'i defnyddio i ariannu **cymorth amrywiol** gan gynnwys cymorth un i un, cyngor arbenigol, hyfforddiant ac 'ôl-lenwi' er mwyn hwyluso sesiynau hyfforddiant staff ar gyfer darparwyr gofal plant.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Nid oes unrhyw dystiolaeth o ostyngiad yn y defnydd o **ofal plant cyfrwng Cymraeg**;
- Mae gofal plant cyfrwng Cymraeg yn **cael ei ddefnyddio gan 37 o rieni**, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yng Ngwynedd ac Ynys Môn;
- Roedd y 15 cylch a gafodd eu cyfweld yn fwy tebygol na darparwyr eraill o **nodi agweddau cadarnhaol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd**, ac roedd pob un yn credu bod y gyfradd o £4.50 yr awr yn hyfyw;
- Nid oedd unrhyw un o'r cylchoedd a gafodd eu cyfweld wedi cyflwyno taliadau ychwanegol ers darparu'r Cynnig;
- Roedd y sefyllfa o ran **capasiti i ehangu** yn amrywio ar gyfer cylchoedd – nododd rhai fod lleoedd gwag ar gael, ond roedd gan eraill restrï aros.

- 4.2 Roedd mwyafrif mawr (85 y cant o'r darparwyr a gafodd eu cyfweld) wedi clywed am y Cynnig gan eu hawdurdod lleol, ac roedd y rhan fwyaf yn credu bod y wybodaeth a gawsant am y Cynnig yn glir ac yn cynnwys y lefel briodol o fanylion. Er mwyn cofrestru ar gyfer y Cynnig, roedd angen llofnodi ffurflen cytundeb darparwyr yr EILA, ac roedd y broses o gofrestru i gymryd rhan yn y Cynnig yn syml yn ôl y rhan fwyaf o ddarparwyr. Ar ôl i blentyn a ariennir gychwyn yn y lleoliad, mae'r gofyniad gweinyddol o hynny ymlaen yn ymwneud â nodi'r oriau gofal plant sydd wedi'u harchebu a'u defnyddio. Roedd cyflwyno'r ffurflenni ar-lein yn 'anodd yn y dechrau' i rai darparwyr, yn enwedig gwarchodwyr plant, ond ar y cyfan, roedd y

broses o gyflwyno ffurflenni 'yn syml ac yn gyflym' i'r holl ddarparwyr, ar ôl i ambell i broblem dechnegol gael ei datrys. Yn ôl un darparwr, roedd yr holl broses 'yn haws o lawer na'r rhaglenni eraill rydym yn derbyn arian i'w cyflwyno, fel Dechrau'n Deg.'

- 4.3 Roedd cyfarfodydd darparwyr yr EILAs yn gosod y sylfaen ar gyfer perthynas waith gadarnhaol rhwng y darparwyr a'r EILAs, ac roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn canmol y cymorth a gawsant gan yr EILAs (gweler adran 3.22 -3.27). Roedd yr amheuon cychwynnol ynglŷn â'r gyfradd, amseriad taliadau a gweinyddiaeth feichus yn ddi-sail yn y pen draw. Roedd y Cynnig yn ddeniadol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr, a dywedodd llawer ohonynt eu bod yn falch bod cymorth ariannol ar gael i'w cwsmeriaid. Eglurodd rhai ohonynt eu bod wedi penderfynu darparu'r Cynnig gan eu bod yn sylweddoli y byddai eraill yn eu hardal yn ei ddarparu.

'Ar ôl edrych ar ein cofrestri, fe wnaethom sylweddoli bod gennym lawer o blant 3 a 4 oed... ac y byddai llawer o rieni'r plant hyn yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Felly, os nad oeddem yn ei gynnig, roedd yn amlwg y byddai'r rhieni yn mynd at ddarparwr arall. Felly, roedd yn gwbl amlwg. Roeddem yn teimlo bod yn rhaid i ni gynnig hyn i'n rhieni. Yn fwy na hynny, os oes ganddynt hawl i gymorth, dylen nhw allu cael gafael arno, heb darfu ar y plant trwy eu symud i ddarparwr newydd." (Darparwr gofal dydd llawn mawr, yn gweithio ar draws dau EILA).

- 4.4 Mae Tabl 4.1 yn darparu trosolwg o rai o'r dylanwadau allweddol ar y gwahanol fathau o ddarparwyr gofal plant. Trafodir y rhain yn fanylach yn yr adran hon.

Newid yn y galw

- 4.5 Gofynnwyd i ddarparwyr a oedd nifer y plant sy'n mynychu eu lleoliad wedi newid ers y flwyddyn flaenorol. Dywedodd ychydig dros hanner (85 o'r 150 a gafodd eu cyfweld) nad oedd y niferoedd wedi newid, a nododd pump fod y niferoedd wedi gostwng gan fod llai o blant yn yr ardal eleni. Nododd 40 y cant o ddarparwyr (60 o'r 150 a gafodd eu cyfweld) fod nifer y plant yn eu lleoliad wedi cynyddu. Yn ôl y rhan fwyaf o ddarparwyr (48 o'r 60), roedd y Cynnig wedi dylanwadu'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar y cynnydd hwn. Ar y cyfan, priodolwyd hyn i rieni presennol yn defnyddio mwy o ofal plant, ond roedd enghreifftiau hefyd o rieni'n dewis cadw eu

plentyn gyda'r darparwr gofal plant am flwyddyn ychwanegol yn hytrach na defnyddio gofal anffurfiol fel gofal cofleidiol ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Felly, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu nad yw'r galw wedi cynyddu'n sylweddol a bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y rhan fwyaf o leoliadau wedi aros yn gymharol gyson. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r Cynnig wedi newid ymddygiad neu agweddau at ofal plant hyd yn hyn. Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi disgwyl gweld cynnydd mawr yn nifer yr ymholiadau, ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyn.

Tabl 4.1. Crynodeb o ddylanwadau ar ddarparwyr gofal plant

Trosolwg	Gwarchodwyr plant (62 wedi'u cyfweld)	Meithrinfeydd dydd (47 wedi'u cyfweld)	Gofal dydd sesiynol (cylchoedd chwarae a chylchoedd) (36 wedi'u cyfweld)
Nifer y plant	Nifer fach o blant, rhwng 1 a 7 wedi'u hariannu gan y Cynnig, ac un neu ddau yn cael eu hariannu fel arfer.	Nifer fawr o blant, llawer yn cael eu hariannu fel arfer. Roedd y nifer a ariennir yn amrywio o 1 i 34.	Nifer ganolig neu nifer fawr o blant. Roedd nifer y lleoedd a ariennir yn amrywio o 1 i 26, ac roedd gan y rhan fwyaf 3-7 lle a ariennir.
Ymwybyddiaeth o systemau talu am ofal plant	Llai cyfarwydd â systemau talu fel talebau gofal plant a chredydau treth.	Cyfarwydd â dulliau talu amrywiol.	Llai cyfarwydd â dulliau talu amrywiol.
Cadw cofnodion, biliau a thaliadau	Defnyddir systemau papur neu systemau syml ar gyfer cadw cofnodion, trafod biliau a thaliadau. Nid yw rhai'n ddigon hyderus i ddefnyddio cyfrifiadur, sy'n effeithio ar hwylustod cyflwyno ffurflenni.	Fel arfer, yn defnyddio systemau soffistigedig ar gyfer cadw cofnodion, trafod biliau a thaliadau.	Mae gan y rhan fwyaf systemau sylfaenol ar gyfer cadw cofnodion, trafod biliau a thaliadau, ac mae gan rai systemau soffistigedig.
Rhieni	Cytundebau dan gontract hirdymor â rhieni, ar gyfer 50-52 wythnos o'r flwyddyn fel arfer.	Cytundebau dan gontract hirdymor â rhieni, ar gyfer 50-52 wythnos o'r flwyddyn fel arfer.	Ar agor yn ystod y tymor yn unig, fel arfer ar gyfer sesiwn bore neu brynhawn sy'n para dwy neu dair awr.
Taliadau	Yn codi tâl ar gyfer hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn fel arfer (mae rhai'n codi tâl fesul awr) Taliadau'n amrywio o £3.25 i £5.00 yr awr (canolrif £4.00 yr awr)	Yn codi tâl ar gyfer hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn fel arfer. Taliadau'n amrywio o £3.00 i £7.50 yr awr (canolrif £5.00 yr awr)	Yn codi tâl ar gyfer sesiwn dwy neu dair awr fel arfer. Taliadau'n amrywio o £2.50 i £5.00 yr awr (canolrif £3.50) (roedd 35 o 36 o ddarparwyr

(roedd 56 o 62 gwarchodwr plant yn credu bod £4.50 yr awr yn hyfyw)

(roedd 32 o 47 o ddarparwyr gofal dydd llawn yn credu bod £4.50 yn hyfyw)

gofal dydd sesiynol yn credu bod £4.50 yn hyfyw)

Ffynhonnell: Cyfweiliadau â darparwyr gofal plant (rhif=150)

Nodyn: Nododd dau ddarparwr gofal plant ychwanegol eu bod yn ddarparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol (roedd y naill yn gofalu am ddau blentyn a'r llall yn gofalu am chwe phlentyn o dan y Cynnig). Nododd tri darparwr gofal plant arall eu bod yn darparu cyfuniad o ofal llawn, gofal sesiynol a gofal y tu allan i oriau ysgol, neu eu bod yn cynrychioli sawl math o leoliad gwahanol.

- 4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig (94 y cant o ymatebwyr yr arolwg) yn rhai a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol eisoes. Cadarnhawyd hyn gan y darparwyr a gafodd eu cyfweld, gan ddweud bod mwyafrif y plant a ariennir wedi dechrau yn eu lleoliad cyn mis Medi 2017.
- 4.7 Ni soniodd darparwyr am broblemau cyffredinol gyda chapasiti yn y cyfweiliadau. Eglurodd nifer fach o ddarparwyr eu bod wedi troi rhieni i ffwrdd yn benodol ar gyfer gofal cofleidiol neu ofal ar ôl ysgol gan fod y rhain yn 'adegau prysur' o ran capasiti pan na fyddent yn gallu cyflogi'r staff ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer un awr o ofal.
- 4.8 Gofynnwyd i ddarparwyr a fyddent yn gallu ehangu pe bai cynnydd yn y galw a dywedodd tua dau o bob tri fod ganddynt y llefydd i wneud hyn. Er i lawer egluro bod ganddynt lefydd gwag neu y gallent ehangu mewn theori, dywedodd lleiafrif sylweddol na fyddent eisiau derbyn rhagor o blant. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar amharodrwydd neu anallu tybiedig i gyflogi'r staff ychwanegol y byddai eu hangen i ofalu am fwy o blant ynghyd â phryderon y gallai ehangu eu darpariaeth gael effaith negyddol ar naws neu 'gymeriad' presennol eu lleoliad.
- 4.9 Dylid ystyried yr ymatebion hyn yng nghyd-destun yr anawsterau cyffredinol wrth amcangyfrif capasiti darparwyr. Nododd EILAs fod amcangyfrif llefydd gwag yn anodd oherwydd bod y sefyllfa'n gallu newid yn gyflym ac felly ni all darparwyr roi cyfrif cywir o lefydd gwag ym mhob achos, ac nid ydynt yn cofnodi llefydd gwag yn yr un modd chwaith. Dim ond amcangyfrif gorau yw Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a monitro capasiti'n barhaus.

- 4.10 Gofynnwyd i ddarparwyr a oeddent wedi newid eu modelau cyflawni yn ystod y flwyddyn gweithredu'n gynnar, ac nid oedd y mwyafrif helaeth wedi gwneud unrhyw newidiadau i strwythurau ffioedd neu oriau. Mae yna lawer o fodelau busnes gwahanol yn y sector gofal plant. Hyd yn oed mewn un rhan o'r sector, fel meithrinfeydd dydd, mae llawer o wahanol strwythurau ffioedd a threfniadau contract gyda rhieni ar waith. Roedd yr amrywiaeth hwn yn bodoli ymhell cyn y Cynnig.
- 4.11 Mae **gwarchodwyr plant** yn gosod eu telerau ac amodau eu hunain. Roedd yr holl rai a gafodd eu cyfweld yn tueddu i fod â busnesau hir-sefydledig ac yn dweud nad oedd eu darpariaeth wedi newid o ganlyniad i'r Cynnig, ac nad oedd ganddynt newidiadau ar y gweill. Er na ddywedodd yr un o'r gwarchodwyr plant a gafodd eu cyfweld eu bod wedi newid eu horiau, dywedodd 8 o'r 62 (13 y cant) fod nifer y plant oedd ganddynt wedi cynyddu ac mai'r Cynnig oedd yn gwbl neu'n rhannol gyfrifol am hyn.
- 4.12 Roedd y darparwyr **gofal dydd sesiynol** a gafodd eu cyfweld yn grŵp llai homogenaidd. O'r 36 a gafodd eu cyfweld, roedd deg wedi ymestyn eu horiau gwaith ac roedd dau arall yn bwriadu gwneud hynny; gyda'r oriau ychwanegol yn hwyrach yn y dydd gan amlaf. Dywedodd dau eu bod wedi agor yn ystod gwyliau'r ysgol ar hyn o bryd ac roedd tri arall yn bwriadu gwneud hynny. Dywedodd Mudiad Meithrin, sy'n cynrychioli Cylchoedd, eu bod wedi annog Cylchoedd i ystyried ymestyn eu horiau ac agor yn ystod gwyliau ysgol a'u bod yn dechrau gweld datblygiadau i'r perwyl hwn. Roedd yr holl ddarparwyr hyn wedi hyrwyddo'r Cynnig i'w rhieni. Roedd bron hanner (16 o'r 36) wedi gweld cynnydd yn nifer y plant, ond roedd yr un gyfran heb weld unrhyw newid mewn niferoedd ac roedd pedwar grŵp sesiynol wedi gweld niferoedd yn disgyn. Roedd llawer o'r darparwyr o'r farn bod nifer y plant wedi cynyddu am fod rhieni a fyddai wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cylch chwarae ar ôl i'w plentyn droi'n dair wedi penderfynu aros oherwydd y Cynnig:
- 'Fel arfer, mae plant yn gadael y Cylch ar ôl cyrraedd oedran dosbarth meithrin yr ysgol - felly oni bai am y Cynnig, ni fyddai'r plant hyn yn dod atom am unrhyw oriau ychwanegol; ond y cyfyngiad sydd gennym yw ein gallu i ddarparu cludiant i gludo plant o ddosbarth meithrin yr ysgol i'r Cylch. Mae rhai ysgolion cynradd

wedi ein ffonio i weld os gallwn gludo ambell i blentyn o'r ysgol i'r Cylch - ond allwn ni ddim.' (Cylch Meithrin/Gofal dydd sesiynol)

Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi cael rhagor o ymholiadau ond nid oeddent yn gallu derbyn rhagor o blant.

- 4.13 Roedd pob un o'r **meithrinfeydd dydd llawn** wedi hyrwyddo'r Cynnig i'w rhieni, yn bennaf drwy bosteri, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost at eu cwsmeriaid a'u gwefannau eu hunain, ond erbyn y maes gwaith (gwanwyn a haf 2018) roeddent yn dweud mai rhieni'n rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd oedd y dull hyrwyddo gorau. Roedd mwy na'u hanner (28 o'r 47) wedi gweld cynnydd yn nifer y plant o gymharu â'r flwyddyn gynt, a hynny wedi'i ddylanwadu'n llawn neu'n rhannol gan y Cynnig, wrth i'w cwsmeriaid presennol ofyn am oriau ychwanegol gan amlaf. Roedd tair (o'r 47) wedi ymestyn eu horiau agor, gydag un yn agor yn gynharach a dau'n agor yn hirach yn ystod y gwyliau ers y Cynnig. Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi cael rhagor o ymholiadau ond nad oeddent yn gallu cymryd rhagor o blant.
- 4.14 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu nad yw arferion gweithredu'r rhan fwyaf o feithrinfeydd dydd llawn wedi newid rhyw lawer o ganlyniad i'r Cynnig, ond bod enghreifftiau o'r Cynnig yn annog rhai lleoliadau unigol i adolygu eu strwythurau darparu.
- 4.15 Mae'r Cynnig wedi cael ei ddylunio i fod yn ddigon hyblyg i alluogi rhieni cymwys, sy'n gweithio oriau afreolaidd (er enghraifft, shifftiau nos) i ariannu hyd at 20 awr o ofal plant yn wythnosol o amgylch y patrymau gwaith hyn. Yr her debygol i'r rhieni hyn, fodd bynnag, yw cael gofal plant ffurfiol i gyd-fynd â'r oriau hyn. Fodd bynnag, nododd nifer fach o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld nad yw'r Cynnig yn rhoi digon o hyblygrwydd ym mhob achos i ariannu anghenion gofal plant rhieni sydd â phatrymau gweithio sy'n amrywio o un wythnos i'r llall. I ddangos hyn, rhoddwyd enghraifft o nyrs banc a allai gael 20 awr yr wythnos o elfen gofal plant y Cynnig (80 awr am bob mis-tymor ysgol) sy'n gweithio shifftiau mewn patrwm o weithio 10 diwrnod o'r bron ac yna cael pedwar diwrnod bant. O ganlyniad, gallai'r rhiant hwn fod angen 30 awr o ofal plant un wythnos ond dim ond 10 yr wythnos ganlynol. O ganlyniad, ni fyddai'r rhiant hwn yn gallu ariannu ei anghenion gofal plant i gyd

drwy'r Cynnig un wythnos ond byddai'n gymwys i gael mwy o ofal plant a ariennir nag sydd ei angen arno'r wythnos ganlynol.

- 4.16 Roedd cyfweiliadau gyda darparwyr yn ceisio canfod a oedd y Cynnig wedi dylanwadu ar eu darpariaeth FPN. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod y cyfweiliadau â darparwyr gofal plant bod darparwyr yn cyfnewid llefydd FPN am lefydd y Cynnig. Serch hynny, dywedodd chwech o'r darparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld y gallent ystyried newid eu cymysgedd o ran darpariaeth yn y dyfodol. Dywedodd un tîm Cynnig EILA fod pump neu chwech o leoliadau nas cynhelir wedi penderfynu ei bod yn well iddynt ddarparu elfen gofal plant y Cynnig yn unig yn hytrach na chyfuniad o FPN a gofal plant, a dywedodd tîm Cynnig EILA arall fod rhai darparwyr mewn trafferth ac wedi bygwth rhoi'r gorau i'w darpariaeth FPN. Gweler adran 6.22 am esboniad pellach. Yn yr achosion unigol hyn, fe wnaeth tîm y Cynnig apelio'n llwyddiannus i "ddiben cymunedol" y darparwr gofal plant ac mae'r darparwr yn parhau i gynnig FPN am y tro. Ategwyd hyn gan sylwadau'r Mudiad Meithrin fod rhai o'u Cylchoedd yn ystyried tynnu'n ôl o'r FPN ond eu bod wedi cael eu darbwylllo rhag gwneud hynny hyd yma. Mae hyn yn cael rhagor o sylw yn y papur Cyfnod Sylfaen sy'n cyd-fynd â'r prif adroddiad hwn.
- 4.17 Roedd y darparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld yn amrywio o ran y ddarpariaeth roeddent yn ei chynnig yn ystod gwyliau ysgol ac at ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos na chafwyd newid sylweddol o ran sut roedd darparwyr yn cynnig darpariaeth yn ystod y gwyliau ers cyflwyno'r Cynnig. Roedd nifer fach o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (pedwar) a oedd yn agor yn ystod y tymor ysgol yn unig cyn y Cynnig wedi ymestyn eu darpariaeth drwy agor yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r pwnc hwn yn cael rhagor o sylw yn y papur darpariaeth gwyliau sy'n cyd-fynd â'r prif adroddiad hwn.

Hyfywedd masnachol y Cynnig

- 4.18 Mae'r sector gofal plant yn cael ei gydnabod fel cyfrannwr pwysig at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru yn ogystal ag un sy'n galluogi rhieni plant bach i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau yn eu swyddi cyfredol. Mae adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru, a gynhyrchwyd yn 2018 gan Alma Economics,

yn amlinellu i tua chwarter o'r darparwyr gofal plant a holwyd nodi eu bod yn disgwyl gweithredu ar golled yn ystod 2016-2017. Roedd hyn yn cyd-fynd hefyd â data'n ymwneud â'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol. Hefyd, lleisiodd rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad hwn rai pryderon am gynaliadwyedd rhai darparwyr gofal plant yn y dyfodol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddewis ac argaeledd darpariaeth gofal plant yn y dyfodol.

- 4.19 O gofio pwysigrwydd y sector yng Nghymru a'r heriau cynaliadwyedd sy'n wynebu rhai rhannau ohono, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried hyn, ynghyd ag anghenion cymorth cyflogadwyedd rhieni, wrth ddylunio a datblygu'r Cynnig. Cydnabuwyd bod angen gosod cyfradd ffioedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a oedd yn cynnig digon o hyfywedd masnachol i'r darparwyr sy'n darparu'r cymorth, yn ogystal â chynnig gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus. Byddai gosod cyfradd rhy isel yn golygu bod darparwyr gofal plant yn amharod i ddarparu gofal plant sy'n cael ei gefnogi gan y Cynnig neu'n methu a gwneud hynny'n fasnachol. Ar y llaw arall, gallai gosod cyfradd rhy uchel symud darpariaeth i ffwrdd oddi wrth blant dan dair oed a phlant hŷn tuag at y rheini sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig. Gallai hyn yn ei dro arwain at gyfraddau gofal plant uwch ar draws pob lleoliad, a fyddai'n gwneud gofal plant yn llai fforddiadwy i lawer o rieni.
- 4.20 Roedd gwersi o weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr yn dod i'r amlwg adeg y gwaith dylunio a datblygu yng Nghymru hefyd. Roedd rhai o'r gwersi hyn yn amlinellu'r heriau a wynebwyd yn y model cyflawni yn Lloegr wrth gynnig cyfraddau ffioedd amrywiol i ddarparwyr. Penderfynwyd felly y byddai'r Cynnig yng Nghymru yn cynnwys cyfradd fesul awr safonol a fyddai'n cael ei thalu i bob darparwr sy'n cynnig gofal plant wedi'i ariannu gan y Cynnig.
- 4.21 Mae sector gofal plant Cymru yn amrywiol, ac yn cynnwys lleoliadau bach, canolog a mawr. Mae costau gweithredu (e.e. staff, cyfleustodau, rhent, arlwy ac offer ac ati) darparwyr yn amrywio hefyd, ac maent yn cael eu dylanwadu gan fodel cyflawni pob lleoliad yn ogystal â'i leoliad daearyddol. Mae adroddiad Alma Economics (2018) yn amlinellu y gallai costau gweithredu cyfartalog blynyddol lleoliadau gofal plant yng Nghymru amrywio o £7,096 (gwarchodwr plant) i £188,000 (lleoliad gofal dydd llawn). Mae'r adolygiad yn amlinellu hefyd fod costau cyfartalog fesul plentyn

fesul awr yn amrywio o £1.90 mewn lleoliadau gwarchodwr plant i £6.34 mewn lleoliadau gofal dydd llawn. Mae'r costau amrywiol hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd mae'r lleoliadau hyn yn codi ar rieni.

- 4.22 Felly tipyn o gamp oedd pennu un gyfradd ffioedd fesul awr safonol a fyddai'n hyfyw'n fasnachol i bob darparwr sy'n gweithredu ar draws ystod eang o leoliadau. Serch hynny, gosodwyd cyfradd fesul awr o £4.50, gyda'r gwerth yn cael ei bennu drwy ymgynghori â'r sector gofal plant, ymchwil Alma Economics ac adolygiad o ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaethau yn ymwneud â chyfraddau ffioedd gofal plant, a gyflwynwyd gan ddarparwyr gofal plant ac a gasglwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Roedd mwyafrif (88 y cant) y darparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld, fel rhan o'r gwerthusiad hwn, o'r farn fod y gyfradd ffioedd hon yn hyfyw'n fasnachol i'w busnes. Roedd cynrychiolwyr y sector gofal plant yn cyd-fynd, ond roeddent yn nodi pwysigrwydd sicrhau y byddai'r gyfradd yn cael ei hadolygu'n barhaus fel ei bod yn codi'n unol â chwyddiant ac yn ystyried unrhyw gynnydd mewn costau yn y sector hwn yn benodol sy'n disgyn ar ysgwyddau darparwyr.
- 4.23 Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (72 y cant) fod y Cynnig wedi gwneud eu lleoliad yn fwy proffidiol, a dywedodd cyfran debyg (76 y cant) fod y Cynnig wedi gwneud eu busnesau'n fwy cynaliadwy. Dywedodd un darparwr gofal plant sesiynol mai cyflwyno'r Cynnig oedd y gwahaniaeth rhwng cadw'r lleoliad ar agor a gorfod cau. Mewn llawer o achosion, dywedwyd bod lleoliadau'n fwy proffidiol yn rhannol am fod cyfradd fesul awr y Cynnig yn uwch na'r gyfradd fesul awr y byddent yn ei chodi fel arfer (gweler Tabl 4.1 am yr ystod o daliadau arferol); gan felly gynyddu'r elw fesul awr am bob plentyn. Dywedodd rhai darparwyr eu bod yn fwy proffidiol yn sgil cynnydd yn nifer y plant a ariennir gan y Cynnig sydd wedi'u cofrestru yn eu lleoliad bellach. Y prif reswm a roddwyd ar gyfer cynnydd mewn cynaliadwyedd oedd bod y plant a oedd yn eu lleoliad eisoes yn cael mwy o oriau o ofal plant bob wythnos o ganlyniad i'r Cynnig.
- 4.24 Mae hyfywedd masnachol darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn cael ei ddylanwadu hefyd gan y gymhareb plant i oedolion a nodir yn y safonau gofynnol cenedlaethol (gweler 1.23). Mewn lleoliad gofal dydd, y gymhareb staffio ofynnol ar gyfer plant dwy oed ac iau yw 1:4 - mae'r gymhareb hon yn newid i 1:8 ar gyfer

plant tair oed a hŷn. Mae'n dilyn felly fod costau staffio fesul plentyn yn is ar gyfer plant tair a phedair oed o gymharu â grwpiau oedran iau a gall hyn effeithio ar hyfywedd masnachol a phroffidioldeb.

- 4.25 Mae hyn, ynghyd â'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r darparwyr a gafodd eu cyfweld o'r farn fod y gyfradd ffioedd maent yn ei chael drwy'r Cynnig wedi gwella eu proffidioldeb cyffredinol, yn awgrymu y gallai'r Cynnig annog darparwyr i roi blaenoriaeth i lefydd gofal plant ar gyfer plant tair a phedair oed. Gallai hyn yn ei dro symud darpariaeth i ffwrdd oddi wrth y grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, dywedodd y darparwyr a gafodd eu cyfweld fod hyn yn annhebygol. Yn gyffredinol, dywedodd darparwyr ei bod yn well ganddynt dderbyn plant iau i'w gofal er mwyn sicrhau parhad gofal o fabis i'r ysgol gynradd. Sicrhau llif cynaliadwy o blant yn eu gofal oedd yn rhannol gyfrifol am hyn, yn ogystal â dymuniad i ddatblygu perthynas barhau gyda'r plant yn eu gofal.
- 4.26 Mae'r gymhareb staffio wirioneddol sy'n ofynnol mewn lleoliadau er mwyn bodloni'r gofynion yn dylanwadu ar hyfywedd masnachol hefyd ac, mewn rhai achosion, ar allu a pharodrwydd darparwyr i gymryd rhagor o blant. Er enghraifft, gallai lleoliad lle mae saith plentyn tair oed dan ofal un aelod staff gymryd un plentyn arall o'r un oed a chynnal y cymarebau staffio gofynnol. Hefyd, byddai cymryd yr un plentyn ychwanegol yn lleihau costau staffio fesul plentyn a byddai'r ffioedd ychwanegol yn cynyddu cyfanswm y refeniw. Ar y llaw arall, byddai cymryd nawfed plentyn yn golygu bod rhaid i'r lleoliad gyflogi aelod arall o staff i gadw at y cymarebau staffio gofynnol. O ganlyniad, er y byddai'r ffioedd sy'n cael eu talu gan y plentyn ychwanegol yn cynyddu cyfanswm y refeniw, mae'n debygol y byddai'r costau staffio ychwanegol yn gwrthbwysu hyn a mwy. Yn yr achos hwn gallai'r darparwr fod yn amharod i gymryd plentyn arall hyd yn oed os oedd lle a'i gofrestrriad gydag AGC yn ei ganiatáu i wneud hynny.

'er bod ein hincwm wedi cynyddu o ganlyniad i gadw tri phlentyn ychwanegol [o dan y Cynnig] a fyddai wedi gadael fel arall, rydym wedi cyflogi aelod staff arall yn benodol er mwyn gofalu am y plant hyn – felly ar y cyfan, rydym yn llwyddo i dalu costau ond ddim yn gwneud elw. Os gallem ni gael rhagor o blant o dan y Cynnig, byddem yn gwneud elw'

- 4.27 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (94 y cant) eu bod yn derbyn taliadau gan y tîm EILA mewn ffordd amserol a chywir. Dywedodd rhai darparwyr hefyd fod cael taliadau rheolaidd o dan y Cynnig gan ffynhonnell ddibynadwy, yr awdurdod lleol, yn rhoi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol iddynt na phe baent yn dibynnu ar daliadau gan rieni. Dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi cael problemau cychwynnol gyda'r systemau talu a ddatblygwyd gan EILAs ond roeddent yn awyddus hefyd i amlinellu bod y rhain wedi cael eu datrys yn gyflym.
- 4.28 Soniwyd am wahaniaethau o ran amseriad taliadau, gyda rhai EILAs yn talu darparwyr o flaen llaw ac eraill yn rhoi ôl-daliadau. I rai darparwyr a oedd wedi dod i drefniant talu o flaen llaw gyda rhieni, roedd newid i ôl-daliadau wedi bod yn anodd ac wedi achosi problemau llif arian i gychwyn. Roedd y graddau roedd y newidiadau hyn i drefniadau talu yn dylanwadu ar ddarparwyr yn dibynnu ar gyfran y plant sy'n cael eu hariannu gan y Cynnig a oedd ganddynt yn eu lleoliad. Fodd bynnag, roedd pob darparwr fwy na heb yn cytuno bod y trefniadau talu cyfredol yn gweithio'n dda ac roedd y rheini a oedd wedi cael problemau llif arian byrdymor wedi addasu trefniadau ariannol eu busnesau i ymdopi â hyn.
- 4.29 Fodd bynnag, mynegodd un sefydliad sector bryderon ynghylch dylanwad posibl y Cynnig ar gynaliadwyedd rhai darparwyr yn y tymor hwy. Nododd y gallai darparwyr sy'n codi ffioedd ar rieni sydd ddim yn cael cymorth gan y Cynnig ar gyfradd is o lawer na'r £4.50 yr awr a delir gan y Cynnig ddod yn orddibynnol ar refeniw gan y Cynnig i gynnal eu busnes. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r darparwr yn defnyddio'r incwm ychwanegol a geir o'r Cynnig i gadw ffioedd ar gyfer rhieni sy'n talu yn artiffisial o isel. Pe bai refeniw o'r Cynnig ar gyfer y darparwyr hyn yn stopio'n sydyn am ryw reswm, buan iawn y byddai sefyllfa ariannol eu lleoliad yn anghynaliadwy.

Cael cymorth busnes

- 4.30 Er gwaethaf dylanwad cadarnhaol y Cynnig ar broffidioldeb a chynaliadwyedd mwyafrif y darparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad, mae bregusrwydd y darparwyr a amlinellwyd yn adroddiad yr adolygiad o'r sector gofal

plant (Llywodraeth Cymru, 2018) oherwydd maint yr elw isel yn debygol o barhau i fod yn destun pryder ar draws sawl lleoliad gofal plant. Byddai hyn yn awgrymu y byddai darparwyr yn elwa ar gael cymorth busnes, a gallai hyn fod yn arbennig o wir os ydynt am gyflwyno unrhyw newidiadau i'w busnes mewn ymateb i'r Cynnig.

- 4.31 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (75 y cant) nad oeddent wedi cael cymorth busnes ychwanegol yn dilyn cyflwyno'r Cynnig. Er bod rhai o'r rhain wedi mynegi diddordeb a chydabod manteision posibl cael cymorth o'r natur hon, roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oeddent angen unrhyw gymorth busnes, a'u bod yn hytrach yn dibynnu ar eu profiad o ddarparu gofal plant, a hynny dros sawl blwyddyn mewn llawer o achosion.
- 4.32 O'r rheini a oedd wedi cael cymorth busnes, roeddent wedi ei gael drwy'r sefydliad sy'n eu cynrychioli e.e. Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, PACEY. Mewn llawer o'r achosion hyn, mewn gwirionedd cymorth gyda pholisïau neu fynediad at hyfforddiant oedd y 'cymorth busnes' y soniwyd amdano gan y darparwr gofal plant, yn hytrach na chynllunio busnes ac amcanestyniadau ariannol. Byddai'n ymddangos felly bod angen clir am fwy o gymorth busnes ar draws y sector gofal plant ond gallai fod yn dipyn o her annog darparwyr i fanteisio arno. Dyma faes sydd angen ymchwilio ymhellach iddo o bosib.

Costau cyflenwi a strwythurau codi tâl

- 4.33 Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr (90 y cant) nad oedd eu cost darpariaeth fesul plentyn wedi newid o ganlyniad i'r Cynnig. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr, yn ystod y cyfnod gweithredu cyntaf, wedi newid eu model cyflawni nac ymestyn eu horiau gweithredu. (gweler adran 4.10-4.14 hefyd)
- 4.34 Gwnaeth ambell un o'r rhai a oedd wedi gweld cynnydd yn eu costau cyflenwi briodoli hyn i'r tasgau gweinyddol ychwanegol sydd ynghlwm wrth gwblhau a dychwelyd data misol ar y llefydd gofal plant a archebwyd a'r defnydd ohonynt i'w EILA. Roedd eraill (lleoliadau gofal plant sesiynol yn bennaf) wedi gweld costau ychwanegol o ganlyniad i ymestyn eu horiau agor ac, mewn rhai achosion, darparu

prydau nad oeddent yn eu darparu cynt. Dywedodd rhai gwarchodwyr plant eu bod wedi cyflwyno cludiant yn ôl ac ymlaen rhwng lleoliadau FPN mewn ymateb i'r Cynnig a bod hyn wedi cynyddu eu costau darparu cyffredinol.

- 4.35 O dan y Cynnig, gall darparwyr gofal plant godi ar rieni am elfennau ychwanegol fel bwyd, cludiant a gweithgareddau oddi ar y safle sydd â chostau cysylltiedig, hyd at uchafswm o £7.50 y dydd. O'r rheini a gafodd eu cyfweld, roedd 15 y cant wedi cyflwyno taliadau ychwanegol o ganlyniad i'r Cynnig. Roedd rhai o'r taliadau ychwanegol hyn yn deillio o'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ychwanegol, fel y nodwyd uchod. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd pob darparwr a oedd wedi cyflwyno gwasanaethau ychwanegol fel cludiant cofleidiol wedi cyflwyno taliadau ychwanegol hefyd. Ymhlith y 15 y cant a oedd wedi cyflwyno taliadau ychwanegol, dywedodd ambell un ei fod wedi ystyried cyflwyno'r taliadau hyn yn gynt, a bod cyflwyno'r Cynnig wedi eu hysgogi i'w cyflwyno o'r diwedd. Felly mae'n bosibl y byddai'r taliadau uwch hyn wedi digwydd beth bynnag.
- 4.36 Roedd eraill, y rheini a oedd fel arfer yn codi mwy na'r £4.50 a roddir gan y Cynnig yn bennaf, wedi cyflwyno taliadau ychwanegol i wneud yn iawn am y gostyngiad yn eu refeniw ffioedd yn sgil cyflwyno'r Cynnig. Nododd lleiafrif eu bod wedi cyflwyno taliadau ychwanegol am eu bod yn gweld y Cynnig fel cyfle i wneud hynny. Dywedodd rhai darparwyr mai dim ond ar rieni a oedd yn cael y Cynnig roeddent yn codi'r taliadau hyn. Nid oedd y darparwyr hyn fel pe baent yn ymwybodol nad oedd codi taliadau ychwanegol fel hyn yn rhan o'r canllawiau ar daliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac EILAs.
- 4.37 Nid yw'r taliadau ychwanegol a gyflwynwyd gan y darparwyr hyn yn cael eu talu gan gyllid y Cynnig. Yn hytrach, maent yn cael eu codi'n uniongyrchol ar rieni. Mewn rhai achosion, mae'r taliadau ychwanegol hyn yn disodli rhai o'r rhwystrau fforddiadwyedd y mae'r Cynnig yn ceisio eu dileu. Fodd bynnag, dylid pwysleisio fod rhai o'r taliadau ychwanegol a gyflwynwyd gan ddarparwyr yn gymharol fach. Dylid pwysleisio hefyd nad yw mwyafrif y darparwyr a gafodd eu cyfweld (85 y cant) wedi cyflwyno unrhyw daliadau ychwanegol. Dylid nodi hefyd fod llawer o'r darparwyr a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o fforddiadwyedd gofal plant i rieni a bod llawer yn

cadw'u ffioedd mor isel â phosibl i'r perwyl hwn. Dyma un o'r rhesymau pam mae cynaliadwyedd rhai lleoliadau yn y sector gofal plant yn cael ei ystyried yn fregus.

- 4.38 Nododd cyfran fach o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld (6 allan o 150) eu bod wedi cynyddu eu ffioedd ar gyfer rhieni i gyd o ganlyniad i'r Cynnig. Fel gyda thaliadau ychwanegol, roedd y rhesymau dros eu cyflwyno yn amrywio ac yn anodd eu mesur.

Newidiadau mewn strwythurau codi tâl

- 4.39 Mae'r ffi sy'n cael ei thalu gan y Cynnig i ddarparwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn seiliedig ar gyfradd fesul awr. Fodd bynnag, mae llawer o ddarparwyr gofal plant yn codi ffioedd ar rieni ar sail hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn. Roedd newid cyfraddau dydd i fod yn gyfraddau fesul awr i gyd-fynd â strwythur talu'r Cynnig yn her i rai darparwyr i gychwyn.
- 4.40 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr, sy'n codi ar sail cyfraddau dyddiol fel rheol, yn ystyried bod darpariaeth diwrnod llawn yn cyfateb i 10 awr o ofal plant, a hanner diwrnod yn cyfateb i bum awr. Yn yr achosion hyn, gall rhieni sy'n gymwys i gael 20 awr o ofal plant wedi'i ariannu o dan y Cynnig ddefnyddio'r cyllid hwn i gael dau ddiwrnod llawn neu bedwar hanner diwrnod gan y darparwr hwn. Yna bydd y rhiant yn talu am unrhyw oriau ychwanegol o ofal plant a ddefnyddir bob wythnos eu hunain.
- 4.41 Os mai dim ond am saith o'r deg awr mae'r rhiant angen gofal plant, bydd y rhiant yn gorfod talu am y diwrnod 10 awr llawn serch hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd taliadau a roddir i ddarparwyr drwy'r Cynnig yn dilyn yr un trefniadau â'r rhai y cytunwyd arnynt rhwng y rhiant a'r darparwr. Yn yr enghraifft hon, byddai 10 o'r 20 awr o gyllid gofal plant sydd ar gael drwy'r Cyllid yn cael eu defnyddio bob dydd er mai dim ond saith awr o ofal plant fyddai eu hangen. Er bod hyn yn ymddangos fel defnydd aneffeithlon o'r Cynnig, mae'n dilyn yr un aneffeithlonrwydd sy'n wynebu pob rhiant sydd â threfniadau gofal plant tebyg.
- 4.42 Fel y nodwyd uchod, mae'r oriau o ofal plant a ddefnyddir y tu hwnt i'r rheini y telir amdanynt gan y Cynnig yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y rhieni. Yn y rhan fwyaf o

achosion, bydd y darparwr yn cyfrifo cyfanswm yr oriau o ofal plant a ddefnyddir bob wythnos, yn tynnu nifer yr oriau a ariennir gan y Cynnig o'r cyfanswm hwn ac yn codi ar rieni am yr oriau sy'n weddill ar gyfradd arferol y darparwyr. Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr eu bod yn defnyddio dull gwahanol o godi tâl ar rieni am oriau ychwanegol. Mae'r darparwyr hyn yn cyfrifo cyfanswm cost y gofal plant a roddir mewn wythnos benodol, yna'n tynnu gwerth y ffioedd a gânt dan y Cynnig ar gyfer yr oriau a archebwyd, ac yn codi'r swm sy'n weddill ar y rhiant. O ganlyniad, mae'r swm mae rhieni'n ei dalu bob wythnos am oriau ychwanegol yn amrywio yn ôl y broses codi tâl a weithredir gan y darparwr.

- 4.43 Mae'r canllawiau a roddwyd i ddarparwyr gan EILAs yn amlinellu y dylent godi tâl ar sail oriau ychwanegol yn hytrach na'r ffioedd sy'n weddill. Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr yn dadlau nad oedd yn hyfyw'n fasnachol iddynt godi ar sail oriau ychwanegol os yw eu ffioedd arferol yn uwch na £4.50 yr awr. Mae gwahanol brosesau codi tâl am oriau ychwanegol yn dylanwadu ar fforddiadwyedd a hygyrchedd gofal plant i rieni. Hwyrach y bydd angen canllawiau pellach i sicrhau cysondeb o ran cyfraddau codi tâl sy'n sicrhau hyfywedd masnachol i ddarparwyr a fforddiadwyedd i rieni.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

- 4.44 Roedd cyllideb ddynodedig ar gael i bob EILA er mwyn gallu darparu gofal plant wedi'i ariannu gan y Cynnig i blant ag AAA a'u galluogi i gael mynediad ato. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r gyllideb hon wedi bod yn gymharol isel ar draws pob EILA yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig. Mae sawl rheswm am hyn, yn cynnwys ansicrwydd yn nhimau EILAs ynglŷn â sut i ddyrannu'r gyllideb, a phryder ynghylch rhoi cymorth yn ei le i blentyn heb sicrwydd y bydd y cymorth hwnnw'n parhau. Yn sgil gweithredu BIL ADY yng Nghymru yn ddiweddar, dywedodd timau EILAs fod ansicrwydd o bosibl ynghylch sut byddai'r Ddeddf yn effeithio ar y sector, gan mai newydd ddod i rym ydoedd. Mae'r system unedig o gymorth ar gyfer plant ag ADY, a weithredir gan y Ddeddf, yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu dull integredig er mwyn darparu pob agwedd at addysg a gofal cynnar plant yn y

Blynnyddoedd Cynnar. Roedd y timau EILAs eisiau gweld sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol cyn ymrwymo cyllid i ddarparu unrhyw gymorth newydd.

- 4.45 Mae EILAs sydd wedi manteisio ar y gyllideb AAA sydd ar gael wedi'i defnyddio i ariannu gofal un i un, cyngor arbenigol, hyfforddiant ac 'ôl-lenwi' i hwyluso sesiynau hyfforddi staff ar gyfer darparwyr gofal plant. Mae EILAs wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau o reoli'r gyllideb AAA. Roedd un EILA yn gofyn i ddarparwyr gofal plant 'wneud cais am adnoddau', gydag eraill yn darparu hyfforddiant ar gais darparwyr. O ganlyniad, mae cydnabyddiaeth o AAA a sgiliau penodol fel Makaton⁴¹ wedi gwella ar gyfer rhai darparwyr gofal plant. Serch hynny, mae llawer o leoliadau gofal plant heb allu mynychu'r hyfforddiant AAA hwn.
- 4.46 Mae'r cymorth a gynigir i blant ag AAA drwy'r Cynnig wedi ceisio efelychu'r cymorth y gallai plentyn ei gael ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae rhai timau EILA wedi cyflawni hyn drwy fenthg arbenigedd yn anffurfiol gan dîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) eu hadran Addysg, er mwyn cynorthwyo darparwyr gofal plant i ddarparu'r cymorth hwn. Fodd bynnag, nid yw timau EILAs eraill yn ei chael hi'n hawdd cael hyd i arbenigedd o'r fath.
- 4.47 Gan mai nifer fach iawn o blant gydag AAA sydd wedi manteisio ar y Cynnig, prin yw'r enghreifftiau o effaith ar ddarparwyr gofal plant. Fodd bynnag, rhoddodd un darparwr gofal plant enghraifft o blentyn yn eu lleoliad a oedd wedi cael ei asesu i gychwyn i gael 50 y cant o gymorth wedi'i ariannu yn y lleoliad Cyfnod Sylfaen. Penderfynwyd y gallai'r plentyn gael yr un cymorth ariannu yn y lleoliad gofal plant. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod y plentyn angen mwy o ofal 1:1 nag y gellid ei ddarparu gyda 50 y cant o gymorth. Gwnaed cais i gynyddu lefel y cymorth a roddir a chytunwyd i wneud hynny, a chafodd y plentyn gymorth AAA 100 y cant wrth ddefnyddio'r 20 awr o ofal plant sydd ar gael drwy'r Cynnig.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 4.48 Roedd y gwerthusiad yn archwilio a oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gyfredol yn ateb galw rhieni. Mae tystiolaeth ar argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg cyn gweithredu'r Cynnig yn gynnar yn awgrymu bod bylchau yn y

⁴¹ Rhaglen iaith sy'n defnyddio arwyddion a symbolau gyda lleferydd i helpu pobl i gyfathrebu yw Makaton.

ddarpariaeth mewn rhai rhannau o Gymru, a hefyd bod y dulliau a ddefnyddir i asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amrywio.⁴²

- 4.49 Mae llawer o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y Cynnig, ac yn fwy cyffredinol yng Nghymru, yn cael ei darparu drwy gylchoedd meithrin, gyda chefnogaeth Mudiad Meithrin. Yn EILA Gwynedd ac Ynys Môn, roedd cyfran uwch o'r lleoliadau gofal dydd llawn a gwarchodwyr plant yn rhai cyfrwng Cymraeg, ac mewn EILA arall roedd grŵp o glybiau ar ôl ysgol a oedd yn cael eu hwyluso gan y Fenter Iaith leol yn cymryd rhan yn y Cynnig. (gweler adran 5.45 – 5.51)
- 4.50 Ar draws y saith EILA, cafodd pymtheg o gylchoedd eu cyfweld. Roedd eu profiad o'r Cynnig (e.e. clywed am y Cynnig, ei hyrwyddo i rieni) yn cyd-fynd yn fras â darparwyr gofal plant eraill, ond roedd ychydig yn llai o'r cylchoedd wedi gweld cynnydd mewn niferoedd (pedwar o'r pymtheg) o gymharu â darparwyr gofal plant sesiynol yn fwy cyffredinol. Sampl bach yw hwn, fodd bynnag, ac eglurodd darparwyr bod nifer y plant yn amrywio drwy'r amser. Roedd cylchoedd yn fwy tebygol na darparwyr eraill o adrodd effaith gadarnhaol ar broffidioldeb a chynaliadwyedd a dywedodd pob un o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod y gyfradd o £4.50 yn un hyfyw. Eglurodd yr holl gylchoedd a oedd yn gallu rhannu manylion eu ffioedd fod cyfradd y Cynnig yn uwch na'u cyfradd yr awr arferol, weithiau cryn dipyn yn uwch, a oedd wedi arwain at 'lai o straen' a 'llai o bwysau i godi arian' yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nid oedd yr un o'r cylchoedd wedi cyflwyno taliadau ychwanegol, ac roedd un o'r pymtheg wedi cynyddu ffioedd ar gyfer oriau y tu hwnt i'r rhai sy'n rhan o'r Cynnig.
- 4.51 Cymysg oedd y darlun o ran gallu i ehangu - dywedodd rhai fod ganddynt lefydd gwag tra bod gan eraill restrau aros. Soniodd ambell un o'r darparwyr cylch am anawsterau recriwtio staff â sgiliau Cymraeg pe baent yn ehangu. Prin iawn oedd y dystiolaeth o newid yn y ddarpariaeth hyd yma gyda dau gylch wedi ymestyn eu horiau ac un yn bwriadu agor yn ystod gwyliau ysgol am y tro cyntaf; dywedodd un arall eu bod yn ystyried agor yn ystod y gwyliau. Cefnogir hyn gan dystiolaeth gan Mudiad Meithrin a eglurodd eu bod wedi annog cylchoedd i gynllunio ar gyfer agor

⁴² Llywodraeth Cymru (2017) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#). [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2018]

yn ystod y gwyliau; fodd bynnag, dywedodd y Mudiad eu bod yn gwybod am gylch a oedd wedi agor yn ystod gwyliau'r ysgol am y tro cyntaf ond mai ychydig iawn o blant a oedd wedi defnyddio'r ddarpariaeth felly ni fyddant yn cynnig darpariaeth gwyliau eto. Roedd tystiolaeth hefyd o amharodrwydd i ystyried newid o agor yn ystod y tymor yn unig ymhlith y grŵp hwn o ddarparwyr, ac fel yr eglurodd arweinydd un cylch, 'rydym wedi bod ar agor ar yr un diwrnodau â'r ysgol ers cyn cof, mae pawb yn [y pentref] yn gwybod; a gall staff ddim gweithio chwaith oherwydd bod ganddyn nhw eu plant eu hunain'.

5. Effaith y Cynnig ar rieni

- 5.1 Mae'r adran hon yn ystyried effaith y Cynnig hyd yn hyn ar gyflogadwyedd rhieni sydd wedi manteisio ar y Cynnig a'u hagweddau at waith. Mae hefyd yn ystyried a oes gan deuluoedd mwy o incwm gwario o ganlyniad i'r Cynnig.
- 5.2 Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn seiliedig ar ymatebion arolwg ar-lein a gasglwyd oddi wrth 555 o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig; 57 o gyfweiliadau ansoddol gyda rhieni (gyda 36 ohonynt wedi manteisio ar y Cynnig a 21 o'r rheini yn gymwys ar gyfer y Cynnig ond heb fanteisio arno). Mae'r canfyddiadau hefyd yn cael eu llywio gan y dadansoddiad a wnaed o'r data monitro a gyflwynwyd gan bob EILA i Lywodraeth Cymru.

Dylanwad y Cynnig ar rieni

Canfyddiadau Allweddol

Manteisio ar y Cynnig



Roedd y rhan fwyaf o rieni (60%) **wedi clywed am y Cynnig** gan ddarparwyr gofal plant presennol. Roedd y rhan fwyaf (90%) yn **defnyddio'r un darparwr gofal plant** cyn manteisio ar y Cynnig.



Roedd 60% o rieni yn defnyddio **gofal plant anffurfiol** ochr yn ochr â'r Cynnig.



Nododd 92% o rieni a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus am y Cynnig fod y broses '**yn hawdd iawn**' neu '**yn gymharol hawdd**'.


Cymraeg

Roedd 37% o rieni wedi defnyddio gofal plant **cyfrwng Cymraeg**.

Defnyddiodd 59% o rieni ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.



Mae enillion canolrifol y rhai sy'n manteisio ar y Cynnig yn **debyg i enillion canolrifol** y boblogaeth gyffredinol.



Canfyddiadau Allweddol Eraill

Ymwybyddiaeth o'r Cynnig

- Yn ogystal â chlywed am y Cynnig yn uniongyrchol gan ddarparwyr, roedd **clywed ar lafar a thrwy lythyr/taflen awdurdodau lleol** hefyd yn allweddol o ran hysbysu rhieni am y Cynnig (i 26 a 24 o rieni yn eu trefn);
- Adroddodd darparwyr a thimau Cynnig EILA fod rhai **rhieni i ddechrau yn amharod** i ystyried y Cynnig, ac yn ei chael yn anodd ymddiried mewn rhywbeth a oedd yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir neu'n tybio gan eu bod yn rhieni a oedd yn gweithio nad oedd yn berthnasol iddyn nhw.
- Roedd rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant anffurfiol **yn llai tebygol o glywed** am y Cynnig.

Dangos cymhwysedd ac ymgeisio am y Cynnig

- Roedd rhai rhieni i ddechrau yn **ddryslyd ynghylch y meini prawf cymhwysedd**, yn enwedig y pwyslais a roddwyd ar weithio 16 awr;
- Roedd yr anawsterau i rieni yr adroddwyd fwyaf amdanynt wrth ymgeisio am y Cynnig fel a ganlyn: roedd rhaid darparu dogfennau gofynnol, ac roedd yn cymryd llawer o amser i gwblhau'r cais.

Pwy sy'n cael manteisio ar y Cynnig?

- Band **cyflog canolrifol rhieni** a fanteisiodd ar y Cynnig yn ystod dyddiau cynnar ei weithredu oedd £20,800 - £25,999.
- Ymddengys fod enillion canolrifol y sawl a fanteisiodd ar y Cynnig yn gymaradwy ag enillion canolrifol y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

- Roedd 60 y cant o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn ennill **swm sy'n gyfatebol neu'n llai** na'r cyflog canolrifol yng Nghymru.
- Roedd 30 y cant o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig **yn ennill £15,599 neu lai**.
- **Cyflog canolrifol y gweithiwr ar y cyflog isaf** ar bob aelwyd a fanteisiodd ar y Cynnig oedd £15,600 - £20,799.

Y math o ofal plant y manteisiwyd arno

- Y math mwyaf poblogaidd o ofal plant a adroddwyd gan rieni oedd **darpariaeth meithrinfa/ysgol**.
- O'r 60 y cant o rieni a adroddodd eu bod yn defnyddio gofal plant yn ogystal â'r Cynnig, nododd 16 y cant eu bod bellach yn defnyddio **llai o ofal plant anffurfiol**.

Hyblygrwydd gofal plant a darpariaeth yn ystod gwyliau

- Adroddodd dwy ran o dair o rieni mai'r mathau o leoliadau gofal plant a oedd yn cynnig **yr hyblygrwydd mwyaf** i ddiwallu eu hanghenion oedd meithrinfeydd dydd, gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gwarchodwyr plant.
- Roedd **llai o rieni** yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau ysgol nag a ragwelwyd i ddechrau.
- Nododd nifer o rieni yn y cyfweiliad (saith o 32) **nad oedden nhw'n gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth** gofal plant oedd ei hangen arnynt yn ystod y gwyliau ysgol.

Darpariaeth Gymraeg

- Yn sgil natur sesiynol cylchoedd meithrin a chwarae Cymraeg, cafodd 39 y cant o rieni **fynediad i 10 awr neu lai o ofal plant** yr wythnos.

Effaith ar gyflogadwyedd rhieni

- Adroddodd mwyafrif (86 y cant) y rhieni a arolygwyd eu bod ar hyn o bryd **yn gweithio yr un nifer o oriau** ag yr oedden nhw cyn y Cynnig.
- Mae'r Cynnig wedi **effeithio fymryn ar allu menywod i weithio mwy o oriau** (12 y cant o 486 o fenywod), gyda llai o effaith wedi'i nodi gan ddynion (3 y cant o'r 67 dyn a arolygwyd).


Heb gyfranogi

- Y prif reswm i rieni adrodd eu bod heb ddefnyddio'r Cynnig oedd bod eu darparwr gofal plant cyfredol **heb gofrestru** i ddarparu'r Cynnig.
- Dywedodd rhai rhieni ei bod yn anodd deall sut oedd y Cynnig a **Chredydau Treth Plant** yn cydrowedd a bod hyn yn creu rhwystr i bobl gyfranogi. Roedd y rhieni hyn hefyd yn credu y byddai'n well amyn nhw'n ariannol i ddefnyddio'r Credydau Treth Plant na'r Cynnig.

Ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig

- 5.3 Er mwyn i rieni cymwys fanteisio ar y Cynnig ac o bosibl cael budd ohono, rhaid iddyn nhw'n gyntaf wybod amdano a sut i ymgeisio am y gefnogaeth a ddarperir. Y dull mwyaf tebygol i rieni glywed am y Cynnig oedd gan eu darparwr gofal plant cyfredol (60 y cant o'r rhieni a arolygwyd), gyda nifer llai yn clywed ar lafar, trwy daflen neu lythyr oddi wrth yr awdurdod lleol (Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1: Sut clywodd rhieni am y Cynnig %



Ffynhonnell: Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)

Noder: Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn hwn gan bob un o'r 555 a ymatebodd

- 5.4 Felly mae darparwyr gofal plant wedi cael rôl bwysig yn hyrwyddo'r Cynnig ac yn codi ymwybyddiaeth rhieni ohono. Cadarnheir hyn gan y ffaith fod dros 90 y cant o'r darparwyr gofal plant a gyfwelwyd wedi nodi eu bod wedi hyrwyddo'r Cynnig ymhlith eu rhieni. Ymddengys fod cael proses lle mae darparwyr gofal plant yn dosbarthu gwybodaeth am y Cynnig yn uniongyrchol i rieni wedi gweithio'n dda gan amlaf. Fodd bynnag, dywedodd rhai rhieni mewn ychydig o achosion fod y wybodaeth roedden nhw wedi'i derbyn gan ddarparwyr yn aneglur ac wedi arwain at ddryswch ynghylch manylion ynglŷn â'r hyn y bydden nhw'n gymwys i'w dderbyn.
- 5.5 Gofynnodd rhieni gwestiynau i'w darparwyr i ddechrau ynghylch cymhwysedd a'r broses ymgeisio. Nododd rhai darparwyr iddynt orfod ailadrodd rhai negeseuon

sawl gwaith wrth rieni ac mewn rhai achosion roedden nhw wedi cynnig cymorth uniongyrchol yn ystod y broses ymgeisio. Os na allai darparwyr gynnig y wybodaeth a/neu'r gefnogaeth angenrheidiol i rieni, yna bydden nhw'n atgyfeirio'r rhieni at y tîm EILA. Eglurodd darparwyr ac EILAs fod rhai rhieni'n amheus o'r Cynnig i ddechrau, ac yn aml yn ei chael yn anodd ymddiried mewn rhywbeth a ymddangosai'n rhy dda i fod yn wir neu'n tybio nad oedd ar eu cyfer nhw gan eu bod yn rhieni sy'n gweithio.

- 5.6 Roedd cyfathrebu â rhieni yn cael ei effeithio gan ddau ffactor – roedd cyflymder y gweithredu cynnar wedi golygu bod manylion ar ôl heb eu hegluro pan oedd rhieni angen cael gwybodaeth er mwyn gallu cynllunio i'r dyfodol, ac yn ail roedd y Cynllun ond yn cael ei weithredu mewn ardaloedd penodol. Darparodd rhieni adborth ar y ddau bwynt yma, er enghraifft

'Clywais gan gymydog am y Cynnig ac yna cefais ragor o wybodaeth ar-lein, ond pan ofynnais i'n gofalwr plant, doedd hi ddim wedi clywed siw na miw am y peth. Roedd hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth fanwl am y Cynnig i ddechrau, ac roeddwn i'n teimlo y gallwn fod wedi derbyn gwell gwybodaeth. Bu'n rhaid i mi a'r gofalwr plant weithio drwy'r llyfryn i ddeall yn union beth roeddwn i'n gymwys i'w dderbyn a doedden ni ddim yn sicr sut roedd yn gweithio gyda meithrinfa'r ysgol.'

(Rhiant)

- 5.7 Roedd y ddibyniaeth ar y darparwyr gofal plant i fod y prif hyrwyddwyr ar gyfer y Cynnig hefyd yn cyfyngu ar y ddarpar gynulleidfa, gan fod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n bennaf i rieni a oedd eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol. O ganlyniad, roedd rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant anffurfiol, yn ogystal â'r rhai a oedd yn manteisio ar ofal plant ffurfiol gan ddarparwyr nad oedd wedi ymrestru i ddarparu'r Cynnig, yn llai tebygol o glywed amdano. Gwelir hyn yn rhannol yn y ffaith fod mwyafrif rhieni'r arolwg a gyfranogodd (94 y cant) wedi nodi eu bod eisoes yn defnyddio darpariaeth gofal plant ffurfiol cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno; roedd 90 y cant o rieni a arolygwyd yn defnyddio'r un darparwr ar gyfer y gofal plant a ariennir gan y Cynnig â'r gofal plant yr oedden nhw wedi'i ddefnyddio cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno.

Dangos Cymhwysedd ac Ymgeisio am y Cynnig

- 5.8 Rhieni a oedd yn dymuno manteisio ar y Cynnig drwy eu EILA. Mae'r cais yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar, roedd hyn yn cynnwys prawf o breswyllo yn yr EILA; tystysgrif geni'r plentyn sy'n defnyddio'r ddarpariaeth a phrawf o gyflogaeth.
- 5.9 Er mwyn bodloni meini prawf cymhwysedd y Cynnig, rhaid i rieni ennill yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar y lleiafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol neu fwy. Roedd rhai rhieni wedi amlinellu dryswch i ddechrau ynghylch y meini prawf cymhwysedd hyn, gan gredu i ddechrau mai dim ond os oedden nhw'n *gweithio* 16 awr yr wythnos y bydden nhw'n gymwys. Mae hyn yn awgrymu bod rhai rhieni wedi dehongli bod y meini prawf cymhwysedd yn canolbwyntio ar nifer yr oriau roedd rhieni'n gweithio yn hytrach na'r swm roedden nhw'n ei ennill. Er enghraifft, roedd y dryswch hwn wedi peri bod un rhiant wedi deall nad oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig oherwydd ei fod yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.
- “Un peth a'm drysodd ar y dechrau oedd y gofyniad bod yn rhaid i rieni weithio 16 awr yr wythnos. Ar y pryd, dim ond 15 awr yr wythnos yr oeddwn i'n eu gweithio (er yn ennill yn llawer uwch na'r lleiafswm cyflog). Cysylltais â'm cyflogwr i ofyn a allwn gynyddu fy oriau. Dim ond yn nes ymlaen y sylweddolais y byddwn i wedi bod yn gymwys pe bawn i'n gweithio 15 awr.” (Rhiant)
- 5.10 Mae'r dryswch hwn yn awgrymu bod angen cyfathrebu'n fwy eglur gyda rhieni mewn perthynas â'r meini prawf cymhwysedd. Gallai'r wybodaeth sy'n cyfleu'r meini prawf cymhwysedd roi mwy o bwyslais ar y swm y mae'n ofynnol i rieni ei ennill er mwyn cymhwyso ar gyfer y Cynnig, yn hytrach na nifer yr oriau mae'r rhiant yn eu gweithio.

- 5.11 Roedd rhai o'r rhieni a gyfwelwyd, a rhai darparwyr wedi cyfeirio at sefyllfa ddryslyd llawer o'r cynlluniau a oedd ar gael i helpu i dalu am gostau gofal plant. Roedd darparwyr yn dueddol o atgyfeirio'n syth at EILAs, a oedd yn eu tro fel rheol yn

Astudiaeth Achos 1:



Ymgeisio a gofal plant Di-dreth: Derbyniodd y fam wybodaeth glir gan feithrinfa ei merch ac roedd hi'n teimlo bod y ffurflenni'n ddigon syml. Roedd y Fam yn hawlio gofal plant di-dreth ar adeg y cais cyntaf ac nid oedd hi'n ymddangos y gallai neb ddweud wrthi sut byddai'r cyfrif di-dreth a'r Cynnig Gofal plant yn effeithio ar ei gilydd. Siaradodd gyda sawl person gwahanol yn EILA ac ymddangosai nad oedd y ddau beth yn cysylltu'n dda â'i gilydd. Dywedodd y fam ei bod hi'n ddigon hapus i ffonio o gwmpas i gael yr holl wybodaeth oedd ei hangen arni, ond fel arall hwyrach y byddai wedi rhoi'r gorau iddi a pheidio ag ymgeisio am y Cynnig.

Gwyliau: Er hynny, nid oedd y fam wedi sylweddoli mai dim ond 9 o'r 13 wythnos o wyliau oedd wedi'u cynnwys yn y Cynnig – daeth hyn fel tipyn o sioc iddi.

Cyflogadwyedd: Yng ngwaith blaenorol y fam roedd ei chyflogwr wedi talu hanner y costau gofal plant, ond daeth cyfle am ddyrchafiad, gyda mwy o gyfrifoldeb daeth mwy o bosibiliadau gyrfaol a mwy o arian – ond dim cymorth gyda gofal plant ond golygai hyn y byddai ar ei cholled yn ariannol yn y tymor byr oherwydd bod y cynnydd yn y costau gofal plant yn fwy na'r cynnydd cyflog. Eglurodd y Fam y byddai o bosibl wedi derbyn y dyrchafiad beth bynnag, ond roedd y Cynnig gofal plant yn sicr wedi gwneud y dyrchafiad yn fwy fforddiadwy.

gorfod troi at linell gymorth CThEM ond yn aml yn amau bod y wybodaeth a ddarparai'r llinell gymorth weithiau'n anghywir. Mae astudiaeth achos 1 yn crynhoi profiad un fam o geisio gweld sut oedd y Cynnig yn mynd i effeithio ar y gofal plant di-dreth roedd hi eisoes yn ei hawlio. Enwodd darparwyr gynlluniau talebau a chredydau treth plant fel cwestiynau eraill roedd rhieni yn eu gofyn iddynt.


- 5.12 Mae rhieni yn ymgeisio am gymorth trwy eu EILA ac roedd mwyafrif y rhieni a arolygwyd (92 y cant) – a oedd wedi ymrestru'n llwyddiannus ar y Cynnig – yn credu bod y broses ymgeisio'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd tra bod 8 y cant yn ei gweld yn weddol anodd neu'n anodd iawn (Ffigur 5.2). Fodd bynnag, roedd rhai amrywiadau ar draws yr EILAs gyda bron pob rhiant (98 y cant) yng Ngwynedd a Môn yn disgrifio'r broses yn hawdd, gyda'r nifer yn disgyn i 83 y cant ym Mlaenau Gwent – un o'r ychydig EILAs i dderbyn ceisiadau papur (lle'r oedd tua 80 y cant o'u ceisiadau drwy'r post).

5.13 Roedd canfyddiadau o gyfweiliadau gyda rhieni yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg, gyda rhieni a gyfweilwyd yn ystyried pa mor hawdd oedd y broses ymgeisio wedi bod iddyn nhw. Er enghraifft, dyma'r sylw a gafwyd gan un o'r rhieni:

“Roedd y broses ymgeisio yn syml dros ben – roedd modd lanlwytho'r holl dystiolaeth trwy e-bost.” (Rhiant)

5.14 I rieni a arolygwyd a oedd wedi gweld y broses yn gymhleth, y rhesymau a nodwyd amlaf oedd ei bod yn anodd darparu'r dogfennau ategol a bod y broses yn cymryd llawer o amser (Ffigur 5.2).

Ffigur 5.2. Rhesymau pam roedd y broses ymgeisio yn anodd



Sail: Ymatebwyr oedd yn gweld y broses ymgeisio yn anodd (N=48)

Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)

Noder: Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn – felly roedd cyfanswm yr ymatebion (98) yn fwy na nifer yr unigolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (48 =N)

5.15 Er ei bod yn galondid bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi'i chael hi'n hawdd ymgeisio am y Cynnig, dylid nodi mai'r rhieni yn yr arolwg hwn oedd y rhai a lwyddodd i ymrestru ar y Cynnig. Nid oedd yr arolwg yn gallu nodi a chasglu safbwyntiau'r rhieni hynny a oedd wedi ymgeisio am y Cynnig ond a fethodd. Serch hynny, mae'r

cyfweiliadau â rhieni cymwys na wnaethant fanteisio ar y Cynnig wedi datgelu rhai heriau a gawsant wrth ymgeisio am y Cynnig, fel y trafodir yn adran 5.64.

Pwy sy'n manteisio ar y Cynnig?

Incwm

- 5.16 Roedd ffocws arbennig o'r gwerthusiad yn archwilio enillion y sawl a fanteisiodd ar y Cynnig ac yn sefydlu ai pobl ar gyflogau isel, canolig neu uchel oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.
- 5.17 Roedd y teuluoedd a fanteisiodd ar y Cynnig naill ai'n aelwydydd gydag un neu ddau riant/gwarcheidwad. Yn y sampl o 555 o rieni a ymatebodd i'r arolwg, roedd y mwyafrif wedi'u haddysgu i lefel gradd prifysgol neu uwch. Mae hyn yn awgrymu bod mwyafrif y rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig wedi derbyn addysg i lefel uwch a bod ganddyn nhw felly y potensial i ennill cyflog uwch. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chasglu fel rhan o'r data monitro sy'n berthnasol i bob rhiant sy'n gyfranogwyr a gasglwyd gan EILAs, felly mae'r wybodaeth hon ar gyfer y rhieni hynny a ymatebodd i'r arolwg, ac o'r herwydd, mae angen gofal wrth ddehongli'r data hyn o ran proffil yr holl rieni sy'n gyfranogwyr.
- 5.18 Cesglir gwybodaeth am gyflogau pob rhiant sy'n gyfranogwyr trwy'r data monitro. Casglwyd y data hyn pan oedd y rhieni yn ymgeisio am y Cynnig, sef unrhyw ddyddiad rhwng Medi 2017 ac Awst 2018. Casglwyd gwybodaeth am gyflogau rhieni unigol fesul bandiau cyflog yn hytrach na chyflogau gwirioneddol, felly mae'r drafodaeth ganlynol yn seiliedig ar ddadansoddi cyflogau rhieni unigol yn hytrach nag incwm aelwyd. Mae dadansoddiad o'r data hyn yn dangos mai band cyflog gros canolrifol rhieni unigol a fanteisiodd ar y Cynnig yn y cyfnod gweithredu cynnar oedd **£20,800 - £25,999**.⁴³
- 5.19 Yn 2017, enillion wythnosol gros canolrifol yng Nghymru fel y'u cofnodwyd gan Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)⁴⁴, oedd £498, sef enillion wythnosol gros blynyddol o £25,896. Felly, ymddengys fod enillion blynyddol gros canolrifol pobl a fanteisiodd ar y Cynnig yn gymharol ag enillion canolrifol y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

⁴³ Cofnodir cyflogau rhieni yn ôl bandiau cyflog. Roedd y bandiau fel a ganlyn: Hyd at £5,199; £5,200-10,399; £10,400-15,599; £15,600-20,799; £20,800-25,999; £26,000-31,199; £31,200-36,399; £36,400-51,999; a £52,000 neu uwch.

⁴⁴ [Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) StatsCymru yn ôl gwlad yn y DU – rhanbarth Lloegr a blwyddyn.](#)

- 5.20 Yn sgil dadansoddi pellach ar y data monitro, gwelir bod 60 y cant o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i, neu'n is na chyflog blynyddol canolrifol Cymru; gyda 30 y cant yn ennill £15,599 neu is. Gwelir cyfradd y rhieni sy'n cyfranogi sy'n perthyn i bob band cyflog, fel y'u cofnodwyd gan y data monitro yn Nhabl 5.1 ac mae'n dangos bod y rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn bennaf yn ennill cyflog ar y raddfa is neu ganolig.

Tabl 5.1. Cyfran y rhieni sy'n cyfranogi o fewn pob band cyflog gros blynyddol rhwng Medi 2017 ac Awst 2018

Bandiau cyflog gros blynyddol	Cyfran y rhieni sy'n cael mynediad i'r Cynnig (%)
Hyd at £5,199	1.50
£5,200-10,399	14.18
£10,400-15,599	14.36
£15,600-20,799	14.72
£20,800-25,999	15.42
£26,000-31,199	13.45
£31,200-36,399	9.84
£36,400-51,999	12.94
£52,000 neu uwch	3.63

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant EILA

- 5.21 Mae'r ffigurau cyflog gros blynyddol y cyfeirir atynt uchod yn adlewyrchu bandiau cyflog yr holl rieni sy'n manteisio ar y Cynnig. Felly, maen nhw'n dangos y bandiau cyflog uchaf yn ogystal â'r isaf ar aelwydydd gyda dau riant. Mae nodau cyflogadwyedd y Cynnig yn cynnwys rhoi cyfle i rieni sy'n gweithio i gynyddu eu horiau gweithio cyfredol (gweler hefyd baragraffau 5.53 – 5.55 isod). Mae'r cyfleoedd i gynyddu oriau gweithio yn debygol o fod uchaf ymhlith rhieni sy'n gweithio'n rhan-amser neu oriau anghyson ar hyn o bryd. Nhw hefyd yw'r rhiant sy'n dueddol o ennill y cyflog lleiaf ar yr aelwyd.
- 5.22 Felly cynhaliwyd dadansoddiad pellach o gyflogau rhieni er mwyn gweld cyflog gros blynyddol cyfartalog y gweithiwr oedd yn ennill lleiaf ar bob aelwyd ar yr adeg yr ymgeisiwyd am y Cynnig. Dangosodd hyn fod y band cyflog gros blynyddol canolrifol ar gyfer y gweithiwr oedd yn ennill lleiaf ar bob aelwyd yn **£15,600 - £20,799**, sy'n llai nag enillion canolrifol y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Mae

hyn yn dangos bod mwyafrif (80 y cant) y rhai sy'n ennill lleiaf ar bob aelwyd a fanteisiodd ar y Cynnig yn ennill llai nag enillion canolrifol y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru (gweler Tabl 5.2). Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'n rhannol y ffaith fod y sawl sy'n debygol o fanteisio ar y Cynnig yn debygol o fod yn gweithio'n rhan-amser oherwydd bod ganddyn nhw blant ifanc.

Tabl 5.2. Cyfran y gweithiwr sy'n ennill lleiaf ar bob aelwyd ym mhob band cyflog gros blyneddol rhwng Medi 2017 ac Awst 2018

Bandiau cyflog	Cyfran y rhieni a gafodd y Cynnig (%)
Hyd at £5,199	2.52
£5,200-10,399	23.32
£10,400-15,599	20.98
£15,600-20,799	18.11
£20,800-25,999	14.62
£26,000-31,199	8.90
£31,200-36,399	5.14
£36,400-51,999	5.24
£52,000 neu uwch	1.17

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant EILA

Y math o ofal plant y manteisiwyd arno

- 5.23 Mae'r adran hon yn adolygu'r math o ofal plant y manteisiwyd arno yn sgil y Cynnig. I ddechrau mae'n ystyried y graddau y mae'r Cynnig wedi achosi newid o drefniadau gofal plant anffurfiol i ofal plant ffurfiol. Wedyn, mae'n ystyried y math o ofal plant ffurfiol a ddefnyddiwyd.

Symud o ofal plant anffurfiol i ofal plant ffurfiol

- 5.24 Ceisiodd y gwerthusiad ddeall y newidiadau yn y galw gan rieni am ddarpariaeth gofal plant ffurfiol ymhlith y rhai a fanteisiodd ar y Cynnig. Mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod bron pedwar o bob pump o rieni yng Nghymru (76 y cant) yn defnyddio gofal plant anffurfiol⁴⁵. Mae'r defnydd o ofal anffurfiol yn llawer uwch yng

⁴⁵ Data Arolwg Cenedlaethol Gofal Plant yng Nghymru 2016/17

Nghymru nag yn rhannau eraill o'r DU, megis Lloegr lle mae arolygon⁴⁶ yn dangos mai dim ond 36 y cant o deuluoedd sy'n defnyddio trefniadau anffurfiol. Gwelwyd bod cyfraddau gofal anffurfiol ar eu huchaf ymhlith teuluoedd gyda phlant tair a phedair blwydd oed. O ystyried cost niwtral y Cynnig, efallai byddai rhieni cymwys yn dewis dibynnu i raddau llai ar ofal anffurfiol – ac ar neiniau a theidiau yn arbennig – a dibynnu fwyfwy ar drefniadau gofal plant ffurfiol. Nid yw hynny'n dweud y bydd neiniau a theidiau yn cael eu rhyddhau'n llwyr gan fod yr arolwg rhieni'n dangos bod y rhan fwyaf o rieni yn defnyddio mwy nag un darparwr er mwyn gallu manteisio ar elfen gofal plant a Darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen (FPN) y Cynnig. Felly mae gofalmwyr anffurfiol yn debygol o barhau i chwarae rhan bwysig yn cydlynu cyfnodau pontio a llenwi bylchau rhwng Darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen a gofal plant ffurfiol.

- 5.25 Mae data o'r arolwg rhieni yn awgrymu bod cyflwyno'r Cynnig wedi sicrhau bod rhai rhieni wedi symud o ofal anffurfiol i ofal ffurfiol (16 y cant o'r rhai a arolygwyd). Mae'r nifer cymedrol a symudodd o ofal plant anffurfiol i ofal ffurfiol yn debygol o fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chanfyddiadau eraill yn yr arolwg o rieni, yn arbennig y newid cymedrol hyd yma yn nifer yr oriau roedd rhieni'n gweithio cyn ac ar ôl derbyn y Cynnig. Hwyrach y bydd mwy o drosglwyddo o ofal anffurfiol i ffurfiol wrth i'r Cynnig gael ei ddarparu'n ehangach ar draws Cymru a chanlyniad anfwriadol allai ddeillio o hynny fyddai rhagor o gyfleoedd i neiniau a theidiau fynd i weithio gan fod llai o'u hangen i fod yn ofalmwyr anffurfiol.

Y math o ofal plant ffurfiol y manteisiwyd arno

Gofynnwyd i'r rhieni a arolygwyd pa fath o ofal plant roedden nhw'n ei ddefnyddio cyn i'r Cynnig ddod ar gael. Dosbarth meithrin (a ddefnyddiwyd gan 52 y cant o rieni) a meithrinfeydd dydd (a ddefnyddiwyd gan 42 y cant o rieni) oedd y darparwyr a ddefnyddiwyd gan amlaf. Roedd y rhieni hefyd yn defnyddio cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg, gwarchodwyr plant, ysgolion meithrin, cylchoedd/grwpiau cyn ysgol a gofal plant y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n hysbys sut roedd rhieni

⁴⁶ [Adran Addysg 2017 Arolwg Gofal Plant a Blynnyddoedd Cynnar o Rieni yn Lloegr](#), 201. [Fel ar 25 Hydref 2018]

yn dosbarthu'r defnydd o ofal plant a ariennir gan y Cynnig a Meithrinfeydd Cyfnod Sylfaen (FPN) ar draws y gwahanol ddarparwyr hyn.

- 5.26 Mae ymchwil yn dangos, er yn gyffredinol fod rhai rhieni o bosibl yn mynegi'n gryf bod yn well ganddyn nhw ofal anffurfiol, mae eraill yn dweud mai anghenraid oherwydd ffaeledau gofal ffurfiol ydyw, sef y gost neu'r diffyg argaeledd. Felly efallai nad oes dewis gan rieni ond gofyn i'r teulu (yn bennaf neiniau a theidiau)⁴⁷ i ddarparu gofal anffurfiol. Gyda chyfraddau gofal anffurfiol yn ymddangos uchaf ymhlith teuluoedd gyda phlant tair a phedair oed, rhagwelwyd pe bai cyfle ar gael a chost y Cynnig yn niwtral, byddai rhieni cymwys yn dewis dibynnu llai ar ofal anffurfiol. Disgwylid i'r Cynnig achosi cynnydd yn y galw am ofal plant ffurfiol gan y gallai rhieni cymwys a arferai ddefnyddio gofal plant anffurfiol cynt, newid i ddefnyddio gofal plant ffurfiol a ariennir drwy'r Cynnig.
- 5.27 Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad fod bron yr holl rieni (94 y cant) a arolygwyd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn ymgymryd â'r Cynnig. Ymhellach, defnyddiodd 90 y cant o rieni'r Cynnig trwy ddefnyddio'r un darparwr gofal plant ag yr oedden nhw'n ei ddefnyddio cynt. Cefnogir hyn yn y cyfweiliadau ansoddol gyda rhieni, lle gwelwyd mewn llawer o achosion fod rhieni eisoes yn talu am ofal plant cyn ymgymryd â'r Cynnig, ac iddyn nhw barhau i ddefnyddio'r un darparwr gofal plant drwy'r Cynnig. Er enghraifft, darparodd un rhiant, a oedd yn defnyddio darparwr gofal plant preifat am bum diwrnod yr wythnos yr esboniad canlynol.
- “Mae'r trefniant hwn yr un fath â'r trefniant oedd gen i ar waith cyn y Cynnig Gofal Plant. Rwy'n neilltuo'r 20 awr cyfan o ofal plant sydd ar gael drwy'r Cynnig yn ogystal ag oriau rydw i'n talu amdanynt fy hun. Rydw i bob tro'n defnyddio'r 20 awr llawn o ofal plant sydd ar gael i mi.” (Rhiant)
- 5.28 Mae'r canfyddiad hwn, ynghyd â'r ffaith fod llawer o rieni wedi adrodd iddyn nhw glywed yn gyntaf am y Cynnig oddi wrth eu darparwr gofal plant, yn gofyn y cwestiwn a yw rhieni cymwys nad ydynt yn defnyddio'r gofal plant ffurfiol yn ymwybodol o'r Cynnig. Gall y diffyg ymwybyddiaeth hwn awgrymu o bosibl fod angen canolbwyntio ymdrechion ar hyrwyddo'r Cynnig yn ehangach er mwyn

⁴⁷ Dallimore, D. 2016 Informal Childcare and Childcare Choice in Wales. Prifysgol Bangor.

sicrhau ei fod yn cyrraedd yr holl rieni cymwys, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol yn unig.

- 5.29 O ran yr oriau gofal plant y manteisir arnynt, dywedodd 60 y cant o rieni a arolygwyd eu bod yn defnyddio'r un nifer o oriau o ofal plant ag yr oedden nhw cyn derbyn y Cynnig ac roedd 40 y cant yn defnyddio mwy o oriau o ofal plant ffurfiol. Dangosodd y cyfweiliadau gyda rhieni enghreifftiau o rieni yn defnyddio mwy o oriau o ofal plant ffurfiol o ganlyniad i'r Cynnig fel y gwelir yn astudiaeth achos 2.



Astudiaeth Achos 2

Mae gan y teulu fab 3 blwydd oed sy'n manteisio ar y Cynnig a merch 7 oed. Cyn defnyddio'r Cynnig, roedd y mab yn mynychu Meithrinfa Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol leol yn y bore ac yn cael ei gasglu amser cinio gan y fam neu aelod arall o'r teulu. Roedd hyn yn reit anodd gan fod angen casglu'r ferch 7 oed am 3.30pm ar ôl iddi orffen yn yr ysgol. Ers defnyddio'r Cynnig, mae'r mab yn aros ymlaen yn yr ysgol yn y prynhawn, ac yn defnyddio'r oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir drwy'r Cynnig. Felly, gall y fam gasglu'r ddau blentyn ar yr un pryd pan fydd yr ysgol yn gorffen am 3.30pm.

- 5.30 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod unrhyw gynnydd mewn galw am ofal plant ffurfiol a greodd y Cynnig wedi dod oddi wrth rieni a oedd eisoes yn defnyddio'r gofal plant ffurfiol ond a oedd am gynyddu faint o ofal ffurfiol roedden nhw'n ei ddefnyddio.
- 5.31 Er bod bron yr holl rieni a arolygwyd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig, nododd 60 y cant eu bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol ochr yn ochr â'r Cynnig. Mae'r gofal anffurfiol hwn yn parhau i fod yn rhan fawr o'r bylchau a lenwir rhwng y ddarpariaeth FPN a gofal plant ffurfiol sy'n rhan o'r Cynnig. Fodd bynnag, ymddengys fod y Cynnig wedi lleihau dibyniaeth rhieni ar ofal anffurfiol, gan fod 16 y cant o rieni a arolygwyd wedi nodi eu bod yn defnyddio llai o ofal plant

anffurfiol ers manteisio ar y Cynnig. Ategir hyn yn y cyfweiliadau â rhieni, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos isod.



Astudiaeth Achos 3

Mae'r fam yn gweithio bedwar diwrnod yr wythnos. Cyn manteisio ar y Cynnig, roedd ei merch yn mynychu meithrinfa am 3 diwrnod yr wythnos a'i nain/taid yn gofalu amdani ar y pedwerydd diwrnod pan oedd ei mam yn gweithio. Ers manteisio ar y Cynnig, mae ei merch wedi bod yn mynychu'r ysgol leol yn llawn amser am bedwar diwrnod yr wythnos – gan wneud ei sesiwn yn y Feithrinfa Cyfnod Sylfaen yn y bore ac oriau ychwanegol o ofal plant yn y prynhawn a ariennir drwy'r Cynnig yn y prynhawn. Trwy ddefnyddio'r Cynnig, gallodd y fam ddibynnu llai ar nain/taid am ofal plant.

- 5.32 Trwy leihau dibyniaeth rhieni ar ofal anffurfiol, mae'r Cynnig wedi ysgafnhau baich neiniau a theidiau rhag rhai o'u dyletswyddau gofal plant a fydd yn eu galluogi o bosibl i fynd yn ôl i weithio neu i gynyddu eu horiau gwaith (os ydyn nhw eisoes yn gweithio). Felly, efallai fod y Cynnig wedi creu canlyniadau anfwriadol o gynyddu cyfleoedd i neiniau a theidiau weithio unwaith y mae llai o angen amdanynt i ddarparu gofal anffurfiol. Fodd bynnag, roedd hyn y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad ac felly ni archwiliwyd hyn ymhellach ond cofnodwyd tystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd gan y darparwyr gofal plant.

Hyblygrwydd Gofal Plant

- 5.33 Ceisiodd y gwerthusiad weld a oedd darpariaeth gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig yn ddigon hyblyg i fodloni gofynion rhieni. Agwedd allweddol ar hyblygrwydd yw'r gallu i ddewis faint o oriau a'r amseroedd yn y dydd gyda darparwr a ffefrir. Roedd y gwahanol fathau o ddarparwyr yn amrywio yn eu gallu i gynnig hyblygrwydd. Mae canfyddiadau'r arolwg rhieni yn awgrymu mai meithrinfeydd dydd, gofal plant y tu allan i oriau a gwarchodwyr plant sydd o bosibl yn cynnig yr hyblygrwydd mwyaf,

gyda dwy ran o dair o'r rhieni a arolygwyd ac a oedd yn defnyddio'r mathau hyn o ddarparwyr (71 y cant, 73 y cant a 66 y cant yn eu trefn) yn dweud eu bod yn rhydd i ddewis y diwrnodau a'r amseroedd i'w plant ddefnyddio'r ddarpariaeth gofal plant. Roedd ychydig mwy na hanner (56 y cant) y rhieni a arolygwyd a oedd yn defnyddio cylchoedd chwarae wedi nodi eu bod yn rhydd i ddewis pryd y byddai eu plant yn mynychu, o gymharu â thraean (34 y cant) o rieni a arolygwyd yn mynychu meithrinfa/ dosbarth meithrin.

- 5.34 Dangosodd cyfweiliadau â rhieni eu bod ar y cyfan yn credu bod y ddarpariaeth a oedd ar gael yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion. Gwelir hyn yn arbennig yn y ffaith fod mwyafrif y rhieni (90 y cant o rieni a arolygwyd) yn defnyddio'r un darparwr i fanteisio ar ofal plant a ariennir gan y Cynnig ag yr oedden nhw wedi'i ddefnyddio cyn derbyn y Cynnig ac roedd llawer yn parhau i ddefnyddio'r un nifer o oriau (60 y cant o reini a arolygwyd). Fodd bynnag, o'r rheini a gyfwelwyd, nid oedd pob un wedi bod yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno. Hefyd mae'r rhieni hyn yn tueddu i fynegi safbwyntiau cadarnhaol ynghylch argaeledd darpariaeth gofal plant sy'n ddigon hyblyg.
- 5.35 Fodd bynnag, mynegodd un rhiant a gyfwelwyd y gallai'r ddarpariaeth gofal plant fod yn fwy hyblyg. Roedd y rhiant hwn yn ystyried cynyddu ei oriau gwaith, ond er mwyn gwneud hyn byddai angen cynyddu'r oriau o ddarpariaeth gofal plant a oedd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd modd darparu hyn, ac felly nid oedd y rhiant wedi gallu cynyddu ei oriau gwaith. Er mai lleiafrif yw'r enghraifft hon, mae'n dangos sut mae diffyg hyblygrwydd yn gallu bod yn rhwystr i rai rheini allu cynyddu eu horiau gwaith.

Cyfranogwyr gofal plant yn ystod y gwyliau ysgol

- 5.36 Yn ystod tymor yr ysgol, mae gan blant a gefnogir gan y Cynnig hawl i o leiaf 10 awr o FPN a hyd at 20 awr o ofal plant a gyllidir. Mae'r cyfuniad o ddarpariaeth FPN a gofal plant a gyllidir yn gyfanswm o 30 awr o addysg a gofal plant a gyllidir sy'n gynwysedig yn y Cynnig. Yn ystod naw wythnos yr 13 wythnos o wyliau ysgol bob blwyddyn, pan nad oes darpariaeth FPN, mae 30 awr y Cynnig yn cynnwys gofal plant a gyllidir yn unig. Mae gallu'r sector gofal plant yng Nghymru i ddiwallu'r

cynnydd posibl yn y galw am ofal plant yn ystod y gwyliau ysgol yn fater o bryder i lawer yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

- 5.37 Serch hynny, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu nad yw'r galw am ofal plant wedi bod yn fwy na'r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol fel yr oedd rhai wedi ofni i ddechrau. Ymddengys mai'r prif reswm am hyn yw bod llai o rieni wedi defnyddio'r gofal plant a gefnogir gan y Cynnig yn ystod y gwyliau ysgol nag a ragwelwyd. Trafodir y canfyddiadau hyn yn fanylach mewn papur ar wahân ar ddarpariaeth yn ystod y gwyliau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.
- 5.38 Canfu'r arolwg o rieni a gynhaliwyd ym Mai 2018 fod ychydig mwy na hanner (59 y cant) o rieni a ymatebodd a ddefnyddiodd y Cynnig yn defnyddio'r gofal plant yn ystod y gwyliau ysgol ar hyn o bryd a 10 pellach yn dweud eu bod yn bwriadu ei ddefnyddio.
- 5.39 O'r 31 rhiant a gyfwelwyd a nododd a oedden nhw'n defnyddio llai, mwy neu'r un nifer o oriau gofal plant yn ystod y gwyliau ysgol ag yn ystod y tymor, dywedodd 16 eu bod yn defnyddio llai yn ystod y gwyliau ysgol, roedd saith yn defnyddio mwy ac wyth yn defnyddio'r un faint o oriau ag yn ystod y tymor.
- 5.40 Roedd mwyafrif y rhieni a gyfwelwyd yn ymddangos yn hapus gyda'r ddarpariaeth gofal plant a oedd ar gael yn ystod y gwyliau ysgol. Pan ofynnwyd iddyn nhw a oedden nhw'n gallu defnyddio, trwy'r Cynnig, yr un math a'r un faint o ofal plant sydd arnynt ei angen yn ystod y gwyliau ysgol, dywedodd 25 o rieni (allan o 32 a ymatebodd i'r cwestiwn) eu bod yn gallu. Fodd bynnag nododd saith (allan o 32 o rieni a ymatebodd i'r cwestiwn) nad oedden nhw'n gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth oedd ei hangen arnynt yn ystod gwyliau'r ysgol.
- 5.41 Y prif reswm a roddwyd gan y saith rhiant nad oedd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth gofal plant yr oedd ei hangen arnynt yn ystod y gwyliau ysgol oedd nad oedd y darparwr gofal plant roedden nhw'n ei ddefnyddio yn ystod y tymor yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol. Roedd rhaid i'r rhieni hyn wneud trefniadau gofal plant eraill yn cynnwys gofal anffurfiol, nad oedd wedi bod yn broblem i rai rhieni ond a oedd wedi bod yn llai cyfleus i eraill.

“Yn ystod yr Haf, roedd hi’n anodd dros ben arna’i. Nid oedd y feithrinfa na’r oriau ychwanegol yn yr ysgol ar gael yn ystod y gwyliau. Rydw i wedi gorfod ymbil, benthg a dwyn amser a chymorth gan aelodau’r teulu, a chymryd gwyliau fy hun os na allwn i ddod o hyd i gymorth. Mae wedi bod yn hunllef o ran y gwaith trefnu.” (Rhiant)

- 5.42 Nid yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael ac a gefnogir gan y Cynnig yn ystod y gwyliau wedi bod yn dryloyw bob tro. Nid oedd rhai rheini yn ymwybodol bod ganddyn nhw hawl i ofal plant a gyllidir yn ystod y gwyliau ysgol tra bo eraill heb ddeall mai dim ond naw wythnos o’r 13 wythnos o wyliau ysgol blynyddol oedd yn cael eu cyllido gan y Cynnig.
- 5.43 Mae dibynnu ar ddarparwyr gofal plant i godi ymwybyddiaeth o’r Cynnig a’r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol wedi gweithio’n dda mewn rhai sefyllfaoedd ond nid eraill.
- 5.44 Yn gyffredinol, ni ddaeth y pryderon cychwynnol ynghylch y galw gormodol a’r cyflenwad prin o ddarpariaeth gofal plant yn ystod y gwyliau i’r fei yn ystod gweithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru. Serch hynny, nid yw hyn yn awgrymu mai dyna fydd y sefyllfa wrth i’r Cynnig gael ei gyflwyno yn y tymor hirach.

Mynediad rhieni i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan y Cynnig Gofal Plant

- 5.45 Bu’r gwerthusiad yn archwilio a yw’r ddarpariaeth ddwyieithog a Chymraeg gyfredol yn bodloni galw rhieni. Cyn lansio’r Cynnig, roedd rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon gan fod cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg, neu gylchoedd, yn ddarparwr gofal plant cyfrwng Cymraeg allweddol, ac o ystyried mai sesiynau gofal dydd ydyn nhw’n bennaf (yn aml yn darparu deg awr neu lai yr wythnos), ni fyddai rhai rhieni yn gallu defnyddio’r holl oriau gofal plant y maen nhw’n gymwys i’w derbyn neu maen nhw eisiau manteisio arnyn nhw drwy’r Cynnig, oddi wrth ddarparwyr sesiynau megis cylchoedd meithrin. Er mwyn cael mynediad llawn i elfen gofal plant y Cynnig, roedd pryder y byddai rhieni yn symud eu plant o’r cylchoedd meithrin i leoliadau eraill a oedd yn darparu mwy o oriau ond na fyddai o anghenraid yn cynnig darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. O ganlyniad, byddai

hyn yn lleihau'r nifer a fyddai'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ac felly'n lleihau'r cynnydd tuag at weledigaeth strategol y llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 5.46 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos bod rhieni wedi gallu defnyddio'r Cynnig i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac nad oes tystiolaeth hyd yma bod yna newid wedi bod a llai o alw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a mwy yn defnyddio'r ddarpariaeth ddi-Gymraeg. Hefyd, fel yr amlinellir yn adran 4 uchod, nid oes tystiolaeth hyd yn hyn sy'n awgrymu bod y Cynnig wedi cael dylanwad sylweddol ar gyflawni darpariaeth cyfrwng Cymraeg chwaith; er i rai lleoliadau cyfrwng Cymraeg ddweud eu bod wedi, neu eu bod yn ystyried newid eu horiau agor yn sgil y Cynnig.

Yn ôl y data monitro, ar gyfartaledd, dros y flwyddyn gyntaf, roedd 37 y cant o'r plant a gefnogwyd gan y Cynnig wedi manteisio ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Roedd cyfran y plant a fanteisiodd ar y Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi amrywio o ddim plant yn Abertawe a 5 y cant yn Sir y Fflint i 91 y cant yng Ngwynedd a Môn. Nid oedd unrhyw blentyn wedi cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil y Cynnig yn Abertawe lle nad yw'r defnydd o gylchoedd meithrin mor helaeth ag mewn ardaloedd eraill a lle'r oedd rhai o'r cylchoedd llai yn amharod i gofrestru ar gyfer y Cynnig.


- 5.47 Er bod cyfran y rhieni a fanteisiodd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan y Cynnig yn amrywio ar draws yr EILAs, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod cyfran y rhieni sy'n gallu manteisio ar ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg cyn ac ar ôl i'r Cynnig ddod ar gael wedi parhau i raddau helaeth yr un fath (gweler ffigur 5.3).
- 5.48 Hefyd, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod cyfran y rhieni ar draws yr holl EILAs a fyddai wedi hoffi manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg ond a fethodd cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno wedi syrthio o 10 y cant i 4 y cant ar ôl i'r Cynnig gael ei gyflwyno (gweler ffigur 5.3). Nodwyd tuedd debyg gan ymatebwyr ar draws y rhan fwyaf o EILAs. Mae hyn yn awgrymu nad oes camu i ffwrdd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi digwydd o ganlyniad i'r Cynnig hyd yn hyn.

Mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod y gwyliau ysgol

- 5.49 Cofnododd pob EILA gwypm yn nifer y plant a fanteisiodd ar ofal plant drwy'r Cynnig yn ystod gwyliau ysgol yr haf ym mis Awst. Ar gyfartaledd ar draws yr EILAs i gyd, roedd cyfran y plant a ddefnyddiodd ofal plant ffurfiol 35 y cant yn is yn ystod Awst 2018 o gymharu â'r mis blaenorol. Mae nifer o resymau tebygol am hyn yn cynnwys cwypm yn y galw am ofal plant ymhlith rhieni sydd ond yn gweithio yn ystod y tymor a hefyd y rhieni sy'n mynd â'u plant ar wyliau haf teuluol. Mae hyn yn ogystal â chwypm yn y ddarpariaeth ymhlith darparwyr gofal plant sydd ar agor yn ystod tymor yr ysgol yn unig.
- 5.50 Syrthiodd nifer y plant a ddefnyddiodd ofal plant cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan y Cynnig ar draws pob EILA 59 y cant (o 1327 i 540) rhwng Gorffennaf ac Awst 2018 - sy'n sylweddol fwy na chwypm o 35 y cant (h.y. o 3430 i 2233) a gofnodwyd ar draws yr holl leoliadau gofal plant. Mae'r cwypm mwyaf o blant a ddefnyddiodd ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod hwn wedi'i gofnodi yng Ngwynedd a Môn, lle y cofnodwyd hefyd y gyfran uchaf a fanteisiodd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cwypm cymharol uwch yn y nifer a ddefnyddiodd ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o gymharu â'r ddarpariaeth gyfan yn ystod y gwyliau haf o bosibl yn adlewyrchu'r ffactorau galw sy'n benodol i Wynedd a Môn a/neu ffactorau cyflenwad sydd fwyaf amlwg yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, wrth i ni gymharu'r cyfnewid cyfrannol yn y nifer a ddefnyddiodd y gofal plant a gyllidir gan y Cynnig yn ystod y gwyliau haf ar draws EILAs eraill, ac eithrio Gwynedd a Môn, mae'r cwypm yn 66 y cant ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o gymharu â chwypm o 27 y cant yn y nifer a ddefnyddiodd pob math o ddarpariaeth.
- 5.51 Mae'r defnydd is o'r Cynnig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan y Cynnig yn ystod y gwyliau ysgol haf yn rhannol adlewyrchu'r ffaith fod llawer o'r gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu drwy Gylchoedd Meithrin, a'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddarparu yn ystod y tymor ysgol yn unig. Fodd bynnag, nid oes modd casglu o'r canfyddiadau hyn bod y cwypm mewn defnydd yn bennaf gysylltiedig â'r cyflenwad, neu nad oes cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystod y gwyliau ysgol haf. Hwyrach

bod y canfyddiadau ond yn adlewyrchu'r ffordd y mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i ddefnyddio'n draddodiadol a'i ddarparu yn ystod y gwyliau ysgol. Mae angen rhagor o ymchwil yn y maes hwn i bennu a yw hyn yn fater o bryder ai peidio.

Ffigur 5.3 Newidiadau mewn mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ers y Cynnig yn ôl %



Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018) Cwestiynau a ofynnwyd am y defnydd o ddarpariaeth ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg.

Noder: Nid oedd pob un o'r 555 ymatebydd wedi rhoi ateb i'r cwestiwn hwn

Effaith y Cynnig ar gyflogadwyedd

- 5.52 Un o amcanion allweddol y Cynnig yw gwella rhagolygon cyflogadwyedd i rieni yn awr ac i'r dyfodol trwy leihau costau gofal plant fel rhwystr i gyflogaeth. Felly canolbwyntiodd y gwerthusiad ar y graddau y mae'r Cynnig wedi cefnogi gwelliannau yn rhagolygon cyflogadwyedd rhieni yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar effaith y cynnig ar gyflogaeth rhieni a'u penderfyniadau o ran cyflogaeth.

Dylanwad ar yr oriau gwaith

5.53 Gofynnodd yr arolwg o rieni a gyfranogodd, i ymatebwyr nodi a oedd y Cynnig wedi'u galluogi nhw i weithio rhagor o oriau. Mae'r arolwg yn dangos bod oriau gwaith rhieni yn reit sefydlog cyn ac ar ôl manteisio ar y Cynnig. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (86 y cant) bod eu horiau gwaith presennol yr un faint ag yr oedden nhw cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno. Eglurodd rhieni a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ansoddol hefyd gynnydd mewn oriau gwaith,


'Roeddwn i'n arfer gweithio 16 awr, ond ers [y Cynnig] rydw i wedi cynyddu i 25 awr.' (Rhiant)

'Ers Medi 2017, rydw i bellach yn gweithio oriau ychwanegol bob wythnos.' (Rhiant)

'Rydw i wedi newid fy oriau oherwydd y Cynnig felly rwy'n gallu treulio mwy o amser gyda'r teulu yn ystod y penwythnos.' (Rhiant)

5.54 Er hynny, ymatebodd menywod a dynion yn wahanol i'r Cynnig (gweler ffigur 5.4). Er mai dim ond 3 y cant o'r 67 dyn a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd eu bod yn gweithio rhagor o oriau ers manteisio ar y Cynnig, roedd 12 y cant o'r 486 o fenywod a ymatebodd i'r arolwg yn gweithio rhagor o oriau nag oedden nhw'n eu gweithio cyn cyflwyno'r Cynnig. Mae hyn yn awgrymu bod y Cynnig wedi effeithio i raddau ar allu menywod i weithio rhagor o oriau.

Ffigur 5.4. A oedd y Cynnig wedi newid oriau gwaith ymatebwyr yn ôl rhywedd%



Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)

Noder: Nid oedd yr holl 555 o ymatebwyr wedi rhoi ateb i'r cwestiwn hwn


5.55 Mae adrannau 5.16 i 5.22 uchod yn crynhoi'r hyn sy'n hysbys am gyflogau rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig fel y'u cofnodwyd gan ddata monitro'r Cynnig Gofal Plant. Hefyd, mae'r arolwg wedi cofnodi lefelau cyflog ar ffurf incwm blyneddol gros aelwydydd o'n sampl o rieni a gyfranogodd ac a ymatebodd i'r arolwg (gweler Tabl 5.3). Roedd incwm aelwydydd (canolrifol) cyfartalog ymatebwyr i'r arolwg yn syrthio yn y categori £41,600 i £51,999. Mae dosbarthiad incwm aelwydydd ymhlith ymatebwyr i'r arolwg yn ymddangos yn weddol uchel o gymharu â ffigurau cyflog unigol a gofnodwyd yn y data monitro. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith fod yr incwm aelwydydd a gofnodwyd yn nata'r arolwg yn cyfuno cyflogau'r ddau riant, mewn teuluoedd dau-riant, ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng y cyflogau uchaf ac isaf o fewn aelwyd unigol.

Tabl 5.3: Incwm blynyddol aelwydydd ymatebwyr i'r arolwg (%)

Cyfanswm incwm aelwyd y flwyddyn	Canran ymatebwyr i'r arolwg
Hyd at £10,399	1
£10,400 i £15,599	4
£15,600 i £20,799	5
£20,800 i £25,999	7
£26,000 i £31,199	10
£31,200 i £41,599	14
£41,600 i £51,999	25
£52,000 i £99,999	33
£100,000 neu fwy	1
Cyfanswm	100

- 5.56 Ar gyfer ein dadansoddiad, crëwyd tri chategori er mwyn dadansoddi fesul is-grwpiau: grŵp 1 (hyd at lefel incwm aelwyd canolrifol o £41,599), grŵp 2 (o £41,600 i £51,999) a grŵp 3 (£52,000 neu uwch).
- 5.57 Yn ôl canfyddiadau'r arolwg ymddengys fod y Cynnig wedi effeithio ar oriau gwaith cyfradd uwch o rieni sy'n perthyn i'r grŵp incwm aelwyd isaf a ddefnyddiwyd yn yr arolwg (h.y. aelwydydd lle mae'r incwm yn is na £41,600 y flwyddyn) o gymharu â'r rhai a adroddodd incwm aelwyd o £52,000 y flwyddyn neu fwy (gweler ffigur 5.5). Gweithiodd bron 1 o bob 5 (18 y cant) o'r naill riant neu'r llall yng ngrŵp incwm 1 (hyd at £41,499) fwy o oriau nag a wnaethant o'r blaen. Ar y llaw arall, dim ond 1 o bob 10 (9 y cant) o rieni yng ngrŵp incwm 3 (sy'n ennill £52,000 neu fwy) gynyddodd eu horiau gwaith ers iddyn nhw fanteisio ar y Cynnig.

Ffigur 5.5. Canran y rhieni (naill ai'r ymatebydd neu'r partner) sy'n gweithio mwy o oriau ers manteisio ar y Cynnig fesul grŵp incwm




Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)

Dylanwad ar hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau am waith

- 5.58 Ymddengys fod y Cynnig wedi cael effaith amlwg ar hyblygrwydd rhieni wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu gwaith. Gofynnodd yr arolwg i rieni a oedd yr oriau a ariennir wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddyn nhw o ran y math o waith maen nhw'n gallu ei wneud a nifer yr oriau maen nhw'n gallu eu gweithio. Nododd mwy na dwy ran o dair (67 y cant) o'r rhieni a ymatebodd fod ganddyn nhw fwy o hyblygrwydd ers manteisio ar y cynnig (ffigur 5.6).
- 5.59 Roedd menywod, a rhieni yng ngrŵp incwm aelwydydd 1 yn fwy tebygol o adrodd bod ganddyn nhw fwy o hyblygrwydd. Tra bod mwy na hanner y dynion a oedd wedi ymateb i'r arolwg yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o hyblygrwydd (56 y cant), roedd mwy na dwy ran o dair (68 y cant) o fenywod yn teimlo'r un fath. Felly hefyd roedd bron tri chwarter (73 y cant) o ymatebwyr i'r arolwg yng ngrŵp incwm 1 (hyd at £41,599) wedi adrodd bod ganddyn nhw fwy o hyblygrwydd ar ôl manteisio ar y Cynnig o gymharu â dim ond 60 y cant yng ngrŵp incwm aelwydydd 3 (£52,000 neu fwy).

Ffigur 5.6. Hyblygrwydd o ran penderfyniadau am waith yn ôl % rhywedd ymatebwyr




Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)
Noder: Nid oedd pob un o'r 555 o ymatebwyr wedi darparu ateb i'r cwestiwn hwn

Dylanwad ar gynyddu cyfleoedd dysgu a datblygu?

- 5.60 Yn gyffredinol, i dri o bob pump o ymatebwyr i'r arolwg (60 y cant), yn sgil manteisio ar y Cynnig, roedden nhw wedi cael mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith a datblygiad (cyfleoedd dysgu). Roedd rhieni a weithiai'n rhan-amser yn fwy tebygol o ddweud bod y Cynnig wedi rhoi mwy o gyfleoedd dysgu iddyn nhw (Ffigur 5.7)

Ffigur 5.7. A yw rhieni a ymatebodd wedi cael mwy o amser ar gyfer hyfforddiant yn ôl oriau (%)



Sail: Pob ymatebydd
N=522

Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)

Noder: Nid oedd pob un o'r 555 a ymatebodd wedi darparu ymateb i'r cwestiwn hwn


- 5.61 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r arolwg rhieni yn dangos bod rhai menywod, ac i raddau llai, rhai dynion wedi cynyddu eu horiau gwaith o ganlyniad i ddefnyddio'r Cynnig. Er, roedd mwyafrif y rhieni yn y cam hwn yn parhau i weithio'r un oriau ag yr oedden nhw'n eu gweithio cynt. Er nad oedd y Cynnig wedi newid yn sylweddol yr oriau gwaith roedd rhieni'n eu gweithio bob wythnos, roedd wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddyn nhw i wneud penderfyniadau ynghylch eu gwaith ac wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i fanteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd dysgu a datblygu. Efallai y gall cynnydd mewn cyfleoedd hyfforddi a hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyflogaeth hybu rhieni i weithio mwy o oriau yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Effaith y Cynnig ar incwm gwario

- 5.62 Archwiliodd y gwerthusiad a oedd gan deuluoedd fwy o incwm gwario yn sgil y Cynnig. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu bod y Cynnig fel petai wedi effeithio ar incwm gwario aelwydydd a ddefnyddiodd y Cynnig, gyda mwyafrif y rhieni a arolygwyd (88 y cant) yn dweud bod ganddyn nhw fwy o arian o ganlyniad

i'r Cynnig. Dywedodd llai na thraean yr ymatebwyr (28 y cant) bod ganddyn nhw lawer mwy o arian gwario ers manteisio ar y Cynnig o gymharu â chynt a dywedodd tri ymatebydd o bob pump fod ganddyn nhw ychydig yn fwy i'w wario ers defnyddio'r Cynnig. Dywedodd y gweddill, sef 12 y cant, nad oedd y Cynnig wedi gwneud gwir wahaniaeth i'r arian oedd ganddyn nhw i'w wario. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd eu bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol cynt. Ar draws yr EILAs roedd ffigurau'n amrywio rhywfaint, gyda 23 y cant o ymatebwyr ym Mlaenau Gwent yn adrodd nad oedd y Cynnig wedi gwneud unrhyw wahaniaeth go iawn i'r hyn oedd ganddyn nhw i'w wario, gan ymateb yn groes i'r wyth y cant o ymatebwyr Caerffili (Ffigur 5.8).

Ffigur 5.8. Effaith y Cynnig ar incwm gwario teuluoedd fesul awdurdod lleol %



Sail: Pob ymatebydd
N=553

Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru (2018)
Noder: Nid yw pob un o'r 555 o ymatebwyr wedi darparu ateb i'r cwestiwn hwn

- 5.63 Mae cynnydd mewn incwm gwario a adroddwyd gan rieni wedi bod yn bennaf gysylltiedig â'r cynilion a gasglwyd o leihau costau gofal plant yn hytrach na'r cynnydd mewn oriau gwaith (ac incwm o ganlyniad). Serch hynny, roedd y rhieni a

arolygwyd yn ystyried bod y Cynnig yn rhoi cyfle i rieni ennill mwy, gyda mwy na dwy ran o dair (67 y cant) o rieni a arolygwyd yn credu bod y Cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd iddyn nhw gynyddu enillion yn y dyfodol.

- 5.64 Roedd mwyafrif y rhieni a gyfwelwyd (22 o 30 rhiant) wedi nodi eu bod wedi elwa ar yr arian a gynilwyd yn sgil lleihau costau gofal plant o ganlyniad i'r Cynnig. Yn arbennig, dywedodd rhieni bod llai o straen a phryder arnyn nhw yn sgil y gofid roedd costau gofal plant wedi'i achosi yn y gorffennol.

“Mae'r Cynnig wedi codi'r pwysau ac rydym ni wedi cynilo £200 y mis roeddwn i wedi ystyried rhoi'r gorau i weithio cyn i mi glywed am y Cynnig, mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr.” (Rhiant)

“Mae'r Cynnig wedi lleihau straen a phryder wrth geisio cyllidebu digon o arian bob mis i dalu am ofal plant.” (Rhiant)

- 5.65 Eglurodd rhieni a gyfwelwyd eu bod wedi gallu rhoi'r arian a gynilwyd ar gostau gofal plant tuag at ystod eang o gostau eraill, fel gweithgareddau ar ôl ysgol, gwaith ailwampio'r tŷ, diwrnodau allan fel teulu, gwyliau i'r teulu neu ad-dalu'r morgais.

“Byddwn wedi bod yn talu amdano beth bynnag mae'n siŵr, ond mae'n helpu'r teulu i gynilo arian, ac mae'n gwneud imi deimlo fy mod yn gweithio er mwyn symud ymlaen nid dim ond er mwyn dal llygoden a'i bwyta.” (Rhiant)

Heb gyfranogi/dewis rhieni

- 5.66 Roedd y rhieni a gyfwelwyd yn cynnwys rhieni a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig, ond a oedd, ar ôl ystyried, wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen neu wedi methu cyfranogi. Mae'r paragraffau dilynol yn dangos y prif resymau a roddwyd gan rieni pam nad oedden nhw wedi manteisio ar y Cynnig. Mae'r safbwyntiau hyn yn seiliedig ar farn a fynegwyd gan sampl reit fach o rieni (21). Nid yw'n hysbys beth oedd cyfanswm y rhieni a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig ond a wrthododd. Felly, gellid ystyried y canfyddiadau a gyflwynir isod fel enghreifftiau yn hytrach na throsolwg cynrychioliadol o resymau am beidio â manteisio ar y Cynnig.

- 5.67 Y prif reswm dros beidio â manteisio ar y Cynnig a roddwyd gan y sawl a gyfwelwyd oedd y ffaith nad oedd eu darparwr gofal plant wedi ymrestru i'w ddarparu. Roedd

mwyafrif y darparwyr hyn wedi honni nad oedden nhw wedi ymrestru i ddarparu'r Cynnig gan nad oedd yn fasnachol hyfyw iddyn nhw wneud hynny. Roedd y lleoliadau hyn yn feithrinfeydd lle'r oedd y ffioedd fel rheol yn uwch na'r £4.50 a ariennir drwy'r Cynnig. Nododd y rhieni y gallen nhw barhau i ddefnyddio'r Cynnig pe baen nhw'n symud eu plentyn i leoliad arall, serch hynny roedd y rhieni a gyfwelwyd naill ai wedi methu â gwneud hyn gan nad oedd darparwyr amgen arall ar gael neu yn amharod i darfu ar drefniadau gofalu sefydlog y plentyn. O ganlyniad, roedd y rhieni hyn yn parhau i dalu am y cyfan o'u gofal plant ffurfiol.

- 5.68 Nododd un rhiant fod eu darparwr (cylch chwarae sesiynol) wedi'u hysbysu nhw na allen nhw ddarparu'r Cynnig oherwydd nad oedden nhw ar agor am 30 awr yr wythnos ac felly nid oedd darparu'r Cynnig yn berthnasol iddyn nhw. Mae camsyniad y darparwr hwn yn enghraifft o'r pwysigrwydd y dylid ei roi ar sicrhau bod yr holl ddarparwyr a rhieni yn deall beth yw hyd a lled y Cynnig.
- 5.69 Mewn rhai ardaloedd, mae'r awdurdod lleol yn ariannu 30 awr o FPN bob wythnos. Ni all rhieni cymwys yn yr ardaloedd hyn ddefnyddio oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir gan y Cynnig yn ystod y tymor ysgol ond maen nhw'n gymwys i gael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir yn ystod gwyliau'r ysgol. Nododd dau o'r rhieni a oedd heb fanteisio ar y Cynnig nad oedden nhw wedi gallu cael mynediad i ofal plant ffurfiol yn ystod y gwyliau yn unig gan unrhyw ddarparwr lleol.
- 5.70 Nododd rhai o'r rhieni eu bod heb ddefnyddio'r Cynnig am fod y broses o ddarparu tystiolaeth gymwys o gyflogaeth yn rhy anodd yn eu barn hwy. Roedd y ddau riant hyn yn hunangyflogedig. Nododd un ei bod wedi cymryd y byddai'r broses yn rhy anodd ac felly heb fwrw ymlaen â'r cais y tu hwnt i ymholiadau cychwynnol (er ei bod, pan gynhaliwyd y cyfweiliad, newydd gymryd cyflogaeth ac yn ymgeisio am y Cynnig - gweler astudiaeth achos 4). Roedd y llall wedi bwrw ymlaen ymhellach â'r cais. Fodd bynnag, bob tro roedd wedi cyflwyno'r hyn oedden ei barn hi yn dystiolaeth ofynnol, holwyd iddi am ragor o wybodaeth. Dywedodd y rhiant ei bod wedi rhoi'r ffidil yn y to yn y diwedd.



Astudiaeth Achos 4

Hunan-gyflogaeth: Pan glywodd y fam yn y lle cyntaf am y Cynnig, roedd hi'n hunangyflogedig a dewisodd beidio ag ymgeisio oherwydd credai y byddai'n rhy anodd llenwi'r ffurflen gais. Cyffesodd nad oedd wedi edrych arni'n fanwl i weld beth fyddai angen ei wneud oherwydd ei bod hi, fel ei gŵr yn hunangyflogedig. Ar y pryd roedd hi'n dal gyda'i gŵr ond ar ôl iddyn nhw wahanu ychydig fisoedd yn ôl, dechreuodd y wraig weithio'n llawn amser mewn siop.

Ymgeisio am y Cynnig er mwyn i'r gwaith fod yn werth chweil: Dylanwadodd y Cynnig ar benderfyniad y fam i chwilio am swydd gan ei bod yn meddwl y gallai fynd i weithio pe bai ganddi gefnogaeth i dalu am y costau gofal plant. Eglurodd: *"Pan symudodd fy ngŵr allan, roedd angen i mi gael mwy o arian ac am fod y Cynnig gofal plant ar gael, fe es i chwilio am swydd yn sgil hynny...Roedd y Cynnig wedi fy annog i chwilio am waith oherwydd fyddwn i ddim wedi gallu fforddio mynd yn ôl i weithio'n llawn amser fel arall....ni fyddai wedi bod yn werth yr ymdrech imi fynd allan i weithio fel arall. Byddai gofal plant wedi costio tua £150 yr wythnos i mi os ydych chi'n talu amdano. Rwy'n ennill cwpwl o gannoedd, felly rhyw £50 yr wythnos fyddai gen i yn y pen draw, a byddai hynny ddim yn gwneud synnwyr."*

- 5.71 Os oedd rhiant eisoes yn derbyn cymorth gyda chostau gofal plant megis gofal plant di-dreth neu gredydau treth, roedd hyn yn rhwystr i rai rhieni allu manteisio ar y Cynnig ac roedd yn anodd i rieni – a darparwyr – ddeall sut roedd y cynlluniau yn cydgysylltu â'i gilydd. Nododd un rhiant ei fod wedi pwysu a mesur yr hyn oedd o blaid ac yn erbyn defnyddio'r Cynnig yn hytrach na Chredydau Treth ac iddo ddod i'r casgliad y bydden nhw ar eu hennill yn ariannol yn parhau i ddefnyddio Credydau Treth yn hytrach na'r Cynnig. Gweler hefyd astudiaeth achos 1.
- 5.72 Rhesymau eraill a roddwyd dros beidio â manteisio ar y Cynnig oedd rhiant nad oedd yn teimlo y gallai ei darparwr lleol ddarparu ar gyfer anghenion addysg arbennig ei phlentyn ac na allai ddod o hyd i unrhyw opsiynau amgen y byddai'r Cynnig yn gallu ei ariannu. Nododd rhiant arall ei fod yn defnyddio gofal plant yn agos i'w le gwaith gydag awdurdod lleol arall. O ganlyniad, nid oedden nhw na'r darparwr wedi bod yn ymwybodol o'r Cynnig tan ei bod wedi bod yn rhy hwyr i wneud unrhyw beth am y sefyllfa, ym marn y rhiant.

6. Casgliadau

- 6.1 Mae gwerthusiad o flwyddyn gyntaf gweithredu cynnar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru wedi tynnu sylw at nifer o fuddion a heriau sy'n gysylltiedig â datblygu, cyflawni a gwneud defnydd o'r Cynnig. Mae'r adrannau isod yn nodi'r prif gasgliadau y gellir dod iddynt yn ystod y cam hwn yn ymwneud â gweithredu cynnar y Cynnig, ei ddylanwad ar y sector gofal plant yng Nghymru, yr effaith gynnar ar ragolygon cyflogaeth rhieni ac incwm aelwydydd, yn ogystal â gwersi cyffredinol y gellir eu dwyn ymlaen i'r cam nesaf yn y dasg o gyflwyno'r Cynnig.

Gweithredu Cynnar

- 6.2 Pennwyd ardaloedd cyflawni lleol, sefydlwyd timau cyflawni, a rhoddwyd y broses ymgeisio ar waith yn llwyddiannus o fewn amserlen a ystyrid yn gyffredinol, ar y pryd, fel amserlen dynn iawn.
- 6.3 Roedd yr holl ardaloedd gweithredu cynnar wedi sefydlu cytundebau a phrosesau gyda darparwyr gofal plant lleol ar gyfer cyflawni'r cynnig a bu modd iddynt dderbyn ceisiadau gan rieni erbyn canol haf 2017. Llwyddodd bron bob un o'r rhieni cymwys a ymgeisiodd yn llwyddiannus am y Cynnig i gael gafael ar y gofal plant yr oeddynt ei angen erbyn Medi 2017.
- 6.4 Gellir priodoli llawer o'r llwyddiant sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r Cynnig i gyfathrebu da a pherthnasau gweithio da rhwng Llywodraeth Cymru a'u cydweithwyr mewn awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod hwnnw. Efallai fod rhai o'r arferion gweithio hyn wedi deillio o'r angen i weithio o fewn amserlenni tynn, ond bu'r canlyniadau'n gadarnhaol. Nododd cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar (EILA) eu bod yn croesawu'n arw'r ffaith na chafodd polisi'r Cynnig Gofal Plant ei osod arnynt mewn ffordd gyfarwyddol.
- 6.5 Ymhellach, gellir priodoli rhywfaint o'r llwyddiant cynnar hwn i frwdfrydedd saith o awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y broses gweithredu cynnar a'u penderfynoldeb i sicrhau bod gweithredu cynnar yn gweithio'n dda. Yr her wrth symud ymlaen fydd annog yr un lefel o frwdfrydedd a pherthnasau gweithio da gydag ardaloedd newydd a fydd yn cymryd rhan yn y dyfodol agos.

- 6.6 Fodd bynnag, ni fu'r cyfnod gweithredu cychwynnol heb ei heriau. Cafwyd rhai trafferthion cychwynnol gyda'r systemau talu i ddarparwyr mewn ambell ardal. Cafodd y rhain eu datrys yn weddol gyflym yn y rhan fwyaf o achosion. Her fwy parhaol yw'r baich gweinyddol mwy na'r disgwyl sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau gan rieni, y rhoddwyd gwybod amdani gan Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Roedd y cymorth gweinyddol ychwanegol yr oedd ei angen yn ymwneud yn bennaf â chynorthwyo rhieni i gael gafael ar y prawf cyflogaeth angenrheidiol ar gyfer prosesu eu cais. Bu hyn yn anodd dros ben i rieni hunangyflogedig a'r rheini a oedd yn gweithio contractau dim oriau neu rai a oedd yn gweithio oriau hyblyg afreolaidd. Buddsoddodd ambell dîm oddi mewn i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar gryn amser yn cynorthwyo rhieni i ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (92 y cant) o'r farn fod y broses ymgeisio'n syml.

Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Darparwyr

- 6.7 Buddsoddodd timau Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar gryn amser yn ystod hanner cyntaf 2017 yn ymgysylltu'n uniongyrchol â darparwyr gofal plant lleol i'w hysbysu ynghylch y Cynnig a'u hannog i gofrestru fel darparwyr ar gyfer y Cynnig. Ar y cyfan bu hyn yn llwyddiant, er gwaethaf y ffaith fod yna rai bylchau pwysig yn yr wybodaeth a oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig o ran y gyfradd fesul awr a fyddai'n cael ei thalu i ddarparwyr ar gyfer cyflawni gofal plant a gâi ei ariannu gan y Cynnig. Croesawodd mwyafrif y darparwyr gofal plant y cysylltiad uniongyrchol a pharhaus a gawsant gyda thimau Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, gan deimlo ei fod yn ddull effeithiol o ddod i wybod am y Cynnig.
- 6.8 Roedd gan ysgolion, a'r sector addysg yn gyffredinol, lai o gysylltiad â'r broses cyfathrebu cynnar, er bod y ddarpariaeth ar gyfer addysg feithrin y cyfnod sylfaen yn cyfateb i 10 awr o leiaf o blith y 30 awr o ddarpariaeth sydd ar gael bob wythnos drwy'r Cynnig. Y prif reswm am hyn oedd y ffaith nad oedd darparwyr meithrin y cyfnod sylfaen angen newid unrhyw un o'u dulliau cyflawni er mwyn diwallu'r

cynnig. Fodd bynnag, gan na chafodd darparwyr meithrin y cyfnod sylfaen eu cynnwys i'r un graddau â darparwyr gofal plant yng nghanau datblygu a gweithredu cynnar y Cynnig, fe arweiniodd hyn at gyfyngu eu hymwybyddiaeth ynghylch y Cynnig a'u cefnogaeth iddo.

Rhieni

- 6.9 Roedd y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi gwneud defnydd o'r Cynnig wedi dod yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant trwy gyfrwng gwybodaeth a roddwyd iddynt gan eu darparwyr gofal plant presennol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i weithredu, dim ond mewn wardiau dethol mewn chwech o blith y saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar yr oedd y Cynnig ar gael. O ganlyniad, bu'n rhaid targedu gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo mewn ardaloedd arbennig. Penderfynodd Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar osgoi ymgyrchoedd hyrwyddo ledled eu hawdurdodau, gan nad oeddynt eisiau camarwain rhieni a oedd wedi'u lleoli mewn wardiau anghymwys. Am yr un rheswm, nid oedd modd rhoi ymgyrch hyrwyddo ar gyfer Cymru gyfan ar waith yn ystod y flwyddyn gyntaf. Arweiniodd hyn at gyfyngu cyrhaeddiad posibl y gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo yn ystod y cam peilot. Bydd y cyfyngiadau hyn yn lleihau wrth i'r Cynnig gael ei gyflwyno ac wrth i gyfleoedd i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol gael eu lansio.
- 6.10 Wrth sianelu gwybodaeth i rieni trwy gyfrwng darparwyr, llwyddwyd i dargedu'r dasg o hyrwyddo'r Cynnig at rieni a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd cymwys. Yn y rhan fwyaf o achosion gweithiodd y broses hon yn dda; er, roedd sicrhau gwybodaeth fanwl gywir yn hanfodol gan fod 'dulliau llafar' yn hollbwysig i ddarparwyr wrth gyfathrebu'r Cynnig i rieni. Fodd bynnag, wrth hyrwyddo'r Cynnig trwy gyfrwng darparwyr gofal plant, fe gyfyngwyd ar gyrhaeddiad y broses codi ymwybyddiaeth i ryw raddau, gan fod yr wybodaeth a roddwyd ar y cyfan yn cael ei throsglwyddo i rieni a oedd eisoes yn gwneud defnydd o ofal plant ffurfiol. O ganlyniad, roedd rhieni a oedd yn gwneud defnydd o drefniadau gofal plant anffurfiol, yn ogystal â rhieni a oedd yn gwneud defnydd o ofal plant ffurfiol gan ddarparwyr nad oeddynt wedi ymrwymo i gyflawni'r Cynnig, yn llai tebygol o glywed amdano. Efallai yr adlewyrchir hyn yn y ffaith fod 94 y cant o'r ymatebion a gafwyd

i'r arolwg wedi nodi eu bod eisoes wedi gwneud defnydd o ofal plant ffurfiol cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno a bod 90 y cant wedi gwneud defnydd o ofal plant gan eu darparwr presennol.

Yr Effaith ar y Sector Gofal Plant

- 6.11 Hyd yn hyn, nid yw cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru wedi arwain at unrhyw newidiadau mawr ym mhatrymau cyflawni darparwyr gofal plant. Dywedodd mwyafrif y darparwyr a gafodd eu cyfweld (90 y cant) nad oeddynt eto wedi newid unrhyw un o'u dulliau cyflawni nac wedi ymestyn eu horiau agor mewn ymateb i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru. Grwpiau chwarae sesiynol yn bennaf yw'r darparwyr sydd wedi ymestyn eu horiau gweithredu.

Newid yn y galw am ofal plant

- 6.12 Dywedodd mwy na hanner y darparwyr a gafodd eu cyfweld na fu unrhyw newid yn nifer y plant a oedd wedi'u cofrestru yn eu lleoliad gofal plant ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno. O blith y rhai a gofnododd gynnydd yn nifer y plant (40 y cant) dywedodd dwy ran o dair ohonynt fod hyn oherwydd y Cynnig. Fodd bynnag, ar y cyfan, dywedodd dwy ran o dair o'r darparwyr eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr oriau gofal plant a ddefnyddid gan gwsmeriaid presennol, ac mai'r Cynnig a oedd wedi dylanwadu ar gyfran helaeth o'r oriau hyn.
- 6.13 Prin oedd y darparwyr a fynegodd bryderon ynglŷn â'u gallu i ddiwallu'r galw presennol am leoedd gofal plant yn sgil y Cynnig, er bod nifer o warchodwyr plant wedi nodi eu bod eisoes yn llawn neu bron yn llawn. Yn ôl darparwyr eraill, er bod ganddynt ddigon o le i ddiwallu mwy o leoedd gofal plant pe bai angen, nid oedd y posibilrwydd hwnnw'n apelio atynt gan eu bod yn pryderu y gallai ymestyn y ddarpariaeth effeithio'n niweidiol ar gymeriad eu lleoliad gofal plant.

Dichonoldeb masnachol

- 6.14 Mae mwyafrif y darparwyr o'r farn fod y gyfradd dalu o £4.50 yr awr a gânt am ddarparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn fasnachol ddichonadwy. Mae bron i dri chwarter ohonynt o'r farn fod darparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig wedi gwella proffidioldeb a chynaliadwyedd eu busnes. Ymhellach, croesawodd darparwyr y modd amserol a manwl gywir y cânt eu talu gan eu Hawdurdod Lleol

sy'n Weithredwr Cynnar, ac mae hyn wedi cyfrannu ymhellach at gynaliadwyedd eu lleoliad gofal plant. Fodd bynnag, soniodd rhanddeiliaid a rhai darparwyr pa mor bwysig yw sicrhau bod cyfradd fesul awr y Cynnig yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, ei bod yn codi gyda chwyddiant a'i bod yn ystyried unrhyw gynnydd mewn costau sector-benodol.

- 6.15 Nid cyfraddau fesul awr a chynnydd yn yr oriau a ddefnyddid gan rieni oedd yr unig ffactorau a gafodd effaith ar broffidioldeb a chynaliadwyedd. Dywedodd darparwyr y gall cymarebau staff ar gyfer gofal plant gael effaith ar ddichonoldeb masnachol, yn ogystal â gallu a pharodrwydd darparwyr i gynyddu nifer y plant yn eu lleoliad gofal plant.

Costau cyflawni a strwythurau codi tâl

- 6.16 Ar gyfer mwyafrif y darparwyr (90 y cant) nid yw'r costau cyflawni fesul plentyn wedi newid o ganlyniad i'r Cynnig. Roedd rhai darparwyr (15 y cant) wedi cyflwyno taliadau ychwanegol am fwyd a chludiant, ac roedd lleiafrif (4 y cant) wedi cynyddu cyfradd eu ffioedd ar gyfer yr holl rieni o ganlyniad i'r Cynnig. Mae'r dulliau a'r symiau o safbwynt taliadau ychwanegol yn amrywio er, mewn ambell achos, maent wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau bod darparu'r Cynnig yn parhau i fod yn fasnachol ddichonadwy. Efallai fod hyn yn awgrymu'r angen i gael canllawiau pellach ar gyfer darparwyr yn ymwneud â chyflwyno ffioedd ychwanegol.

Amrywiadau mewn strwythurau codi tâl

- 6.17 Mae nifer o ddarparwyr gofal plant yn pennu ffioedd yn seiliedig ar gyfraddau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn. Bu'r dasg o gymhwyso'r rhain ar gyfer cyfradd fesul awr, felly, yn anodd i rai darparwyr. Mae darparwyr yn codi tâl ar rieni am oriau ychwanegol, uwchlaw'r rheini a gaiff eu hariannu gan y Cynnig. Bu cymhwyso'r gyfradd £4.50 yr awr ar gyfer hyn yn anodd i rai. Ceir rhywfaint o amrywio yn y ffordd y mae darparwyr yn codi tâl am yr oriau ychwanegol hyn. Mae rhai'n codi tâl am yr oriau ychwanegol a ddefnyddir, tra y mae eraill yn codi tâl ar sail y ffioedd gofal plant a erys ar ôl ystyried gwerth y cyllid a gawsant drwy'r Cynnig. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu'r angen i gael canllawiau pellach ar gyfer darparwyr er mwyn sicrhau dull cyson o godi tâl am oriau ychwanegol.

Pwy sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig?

- 6.18 Mae cyflog gros blynyddol y rhieni sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig yn amrywio o lai na £15,000 i fwy na £52,000. Mae mwyafrif y rhieni sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig yn y dosbarth incwm canol i isel. Mae enillion gros blynyddol canolrifol y rheini sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig (£20,800 - £25,999) yn debyg i enillion gros blynyddol canolrifol poblogaeth Cymru'n gyffredinol (£25,900). Roedd chwe deg y cant o'r holl rieni a oedd yn gwneud defnydd o'r Cynnig, ac 80 y cant o'r enillwyr isaf mewn aelwydydd a oedd yn gwneud defnydd o'r Cynnig, yn ennill yr un fath neu lai nag enillion canolrifol y boblogaeth yng Nghymru.

Y dylanwad ar ddefnyddio gofal plant

- 6.19 Nid yw cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant hyd yn hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol yn ymddygiad rhieni mewn perthynas â gwneud defnydd o ofal plant. Roedd mwyafrif y rhieni (90 y cant) sy'n gwneud defnydd o'r Cynnig yn defnyddio'r un darparwr gofal plant ag a ddefnyddient cyn gwneud defnydd o'r Cynnig. Roedd defnydd o'r Cynnig wedi annog 40 y cant o'r rhieni a arolygwyd i ddefnyddio mwy o oriau gofal plant ffurfiol.
- 6.20 Dywedodd mwyafrif y rhieni a arolygwyd (60 y cant) eu bod wedi defnyddio cyfuniad o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol. Roedd cyflwyno'r Cynnig wedi annog 16 y cant o rieni i ddefnyddio llai o ofal plant anffurfiol, a defnyddio gofal plant mwy ffurfiol yn eiddo.

Defnyddio a chyflwyno addysg feithrin y cyfnod sylfaen

- 6.21 Yn aml, caiff y lleiafswm o 10 awr o ddarpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen, a hyd at 20 awr o ddarpariaeth gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig, eu cyflwyno mewn lleoliadau ar wahân. Mae gallu plant i wneud defnydd o ddwy elfen y Cynnig, felly, yn ddibynnol ar ba un a oes modd i'r plentyn fynd i'r ddau leoliad. Mae casgliadau'r gwerthusiad yn nodi ambell enghraifft o rieni'n dewis rhwng gwneud defnydd o ddarpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen neu ddarpariaeth gofal plant. Fodd bynnag, nid yw'r Cynnig o angenrheidrwydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn. Mae cyflwyno'r Cynnig, serch hynny, wedi tynnu sylw at rai heriau sy'n bodoli eisoes i rai

rhieni mewn perthynas â gwneud defnydd o ddarpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen a darpariaeth gofal plant.

- 6.22 Mae ambell leoliad nas cynhelir yn cyflwyno darpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen yn ogystal â gofal plant ffurfiol i blant sy'n codi'n 3 oed. Yn aml, mae'r gyfradd a delir i rai o'r darparwyr hyn ar gyfer cyflwyno addysg feithrin y cyfnod sylfaen yn is na'r gyfradd a delir am gyflwyno gofal plant a ariennir gan y Cynnig. Mae hyn wedi arwain rhai darparwyr i ystyried cyflwyno darpariaeth gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn hytrach na darpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod y cam gweithredu cynnar fod darparwyr yn newid eu darpariaethau yn y ffordd hon eto.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 6.23 Caiff mwyafrif y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ei gyflwyno gan Gylchoedd Meithrin. Fel arfer, lleoliadau gofal dydd sesiynol sydd ar agor am ddwy i dair awr y dydd yw'r rhain. Lleisiwyd pryderon cyn lansio'r Cynnig y byddai rhieni sy'n gwneud defnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y lleoliadau hyn yn symud i leoliadau eraill sy'n cynnig mwy o oriau gofal plant y dydd – lleoliadau heb ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, o bosibl. Dengys dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam gweithredu cynnar mai ychydig iawn o symud o'r fath a welwyd, os o gwbl.

Gwneud defnydd o ddarpariaeth gwyliau

- 6.24 Gall rhieni sy'n gymwys i gael y Cynnig gael gafael ar 30 awr o ofal plant a ariennir yn ystod naw o blith y tair wythnos ar ddeg o wyliau ysgol (mewn cyferbyniad â chyfuniad o ddarpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen a gofal plant fel a geir yn ystod tymor yr ysgol). Mynegwyd rhai pryderon ar y cychwyn y gallai hyn arwain at sefyllfa lle y byddai'r galw am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn uwch na'r ddarpariaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, gwelwyd bod llai o rieni nag a ragwelwyd ar y cychwyn wedi gwneud defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. O'r herwydd, nid yw pryderon ynghylch galw mawr am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol wedi cael eu gwireddu hyd yn hyn. Fodd bynnag, dywedodd saith o blith y 32 rhiant a gafodd eu cyfweld yn drylwyr nad oeddynt wedi gallu cael gafael ar y ddarpariaeth gofal plant yr oeddynt ei hangen yn ystod gwyliau'r ysgol.

Darpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

- 6.25 Dyrannwyd i bob Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer darparu cymorth Anghenion Addysgol Arbennig i blant a oedd yn gwneud defnydd o'r Cynnig. Fodd bynnag, defnydd cymharol isel sydd wedi'i wneud o'r gyllideb hon yn ystod y cam gweithredu cynnar. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys ansicrwydd ymhlith Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ynghylch sut y dylid defnyddio'r gyllideb. Mae'r rheini sydd wedi defnyddio'r gyllideb wedi gwneud hynny er mwyn cynorthwyo gyda gweithgareddau fel sesiynau un-i-un, cyngor arbenigol, hyfforddiant yn ogystal ag 'ôl-lenwi' er mwyn hwyluso sesiynau hyfforddi staff ar gyfer darparwyr gofal plant.

Effaith y Cynnig ar ragolygon cyflogaeth

- 6.26 Mae'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru wedi arwain at rywfaint o effaith gadarnhaol, ond nid sylweddol, ar ragolygon cyflogaeth rhieni a gaiff eu cefnogi ganddo. Mae hyn yn unol â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.
- 6.27 Dywedodd mwyafrif y rhieni a arolygwyd (86 y cant) eu bod ar y pryd yn gweithio'r un faint o oriau ag o'r blaen, cyn iddynt wneud defnydd o'r Cynnig. Fodd bynnag, dywedodd 10 y cant eu bod yn gweithio mwy o oriau; dywedodd 67 y cant fod ganddynt fwy o hyblygrwydd yn y mathau o swyddi y maent yn eu gwneud a'r oriau y maent yn eu gweithio; a dywedodd 60 y cant fod ganddynt fwy o gyfleoedd i gael hyfforddiant. Yn bennaf, merched a rhieni o grwpiau enillion aelwyd isel, fel y'u dosberthir yng nghasgliadau'r arolwg, oedd y rheini a soniodd am well cyflogadwyedd o ganlyniad i wneud defnydd o'r Cynnig.

Effaith y Cynnig ar incwm gwario

- 6.28 Dywedodd mwyafrif y rhieni a arolygwyd (88 y cant) fod ganddynt fwy o incwm gwario o ganlyniad i wneud defnydd o'r Cynnig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y lleihad yn eu costau gofal plant. Fodd bynnag, dywedodd 67 y cant o'r rhieni a arolygwyd fod y Cynnig wedi rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gynyddu eu henillion yn y dyfodol.

7. Argymhellion

7.1 Caiff yr argymhellion canlynol eu cyfarwyddo gan gasgliadau sydd wedi deillio o'r gwerthusiad o flwyddyn gyntaf gweithredu cynnar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru. Maent yn amlinellu meysydd allweddol y cred y gwerthusiad y gellir eu cryfhau ymhellach yn ystod cam gweithredu nesaf y Cynnig.

- Dylid rhoi ystyriaeth bellach er mwyn sicrhau bod prosesau ymgeisio'n galluogi pob rhiant cymwys, gan gynnwys unigolion hunangyflogedig, gweithwyr contract a'r rheini sydd ar gontractau dim oriau, i ddangos prawf o'u cyflogaeth, a thrwy hynny eu galluogi i wneud defnydd o'r Cynnig, yr un mor rhwydd â rhieni eraill mewn mathau eraill o gyflogaeth.
